Rhif Ymchwil Cymdeithasol:
55/2023
Dyddiad cyhoeddi:
25/05/2023

# Gwerthusiad o gynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80535-939-5

Teitl: Gwerthusiad o gynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol
Is-deitl: Adroddiad Terfynol

Awduron: Mags Bexon, Jackie Woodhouse, a Nicola Aylward, Sefydliad Dysgu a Gwaith, Mawrth 2023

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bexon, M., Woodhouse, J. ac Aylward, N. (2023). Gwerthusiad o gynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol: Adroddiad Terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR rhif 55/2023.
Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/gwerthusiad-o-gynllun-treialu-anogwr-cyflogaeth-gefnogol-twf-swyddi-cymru-plws-2021-i-2022

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

Barn yr ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
Enw: Kimberley Wigley
Is-adran: Ymchwil Cymdeithasol a Gwybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: cyflogadwyedd.sgiliau.ymchwil@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Geirfa… ..... 2
1. Cyflwyniad ..... 3
2. Canfyddiadau Allweddol ..... 10
3. Casgliadau ac argymhellion ..... 343
Atodiad A – Canllawiau pynciau ..... 38
Atodiad B – Hysbysiadau preifatrwydd ..... 88

## Geirfa

| Byrfodd/Allweddair | Diffiniad |
|---|---|
| AACh | Adroddiad Asesu a Chyfeirio |
| AAD | Anabledd/anhawster dysgu |
| ADY | Anghenion dysgu ychwanegol |
| Anogwr gwaith | Anogwr gwaith arbenigol, (wedi ei hyfforddi yn y model cyflogaeth gefnogol) yn rhoi cymorth i unigolion ag anableddau i gael mynediad at gyflogaeth a'i gynnal |
| Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol | Darparwr Cyflogaeth Gefnogol Arbenigol |
| CDU | Cynllun Dysgu Unigol |
| CG | Cymru'n Gweithio - Gwasanaeth cynghori gyrfaoedd a gyflwynir gan Gyrfa Cymru |
| Contractwr | Darparwr hyfforddiant TSC+ |
| Cynghorydd | Cynghorydd gyrfa Cymru'n Gweithio |
| NEET | Ddim mewn addysg, gwaith na hyfforddiant |
| TSC+ | Twf Swyddi Cymru+ |

# 1. Cyflwyniad

## Cefndir

1.1 Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn nodi cyfres o ymrwymiadau trawsbynciol i wella bywydau pobl ledled Cymru, gan gynnwys cyflawni'r Gwarant i Bobl Ifanc - gan roi cynnig gwaith, addysg, hyfforddiant neu hunangyflogaeth i bawb dan 25 mlwydd oed. Mae blaenoriaethau a pholisïau newydd dilynol ers etholiad 2021 wedi helpu i fframio cyd-destun polisi newydd o ran cymorth cyflogadwyedd yng Nghymru. Yn sylfaen i hyn mae'r deg ymrwymiad llesiant yn Rhaglen y Llywodraeth, sy'n cynnwys gwarchod, ailadeiladu a datblygu gwasanaethau i bobl fregus, adeiladu economi ar sail egwyddorion yr agenda Gwaith Teg, a lleihau anghyfartaledd addysgol.

1.2 I bobl ifanc mae hyn yn golygu helpu i ailadeiladu cyfleoedd i gael gwaith a chyfleoedd mewn addysg, ac yn benodol helpu i sicrhau bod pobl ifanc ddifreintiedig yn cael cyfartaledd o ran mynediad. Yn benodol, mae her yn parhau o ran bod bwlch parhaus yn y cyfleoedd gwaith i bobl anabl, gan gynnwys pobl ifanc. Mae Cymru gryfach, decach gwyrddach: cynllun cyflogadwyedd a sgiliau yn amlygu'r her benodol i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed, lle mae'r gyfran o bobl anabl nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (19.7%) bron dair gwaith yn uwch na'r un i'w cyfoedion heb anabledd (6.8%). Gall bod yn NEET yn ifanc, ac yn ystod blynyddoedd trosglwyddo allweddol, gael effaith niweidiol dymor hir sy'n parhau ar hyd oes y person ifanc. Yn yr un modd â phob person ifanc, mae pobl ifanc anabl a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol yn haeddu cyfleoedd da i ymwneud ag addysg a hyfforddiant, a dylent gael y cymorth y mae arnynt ei angen i drosi'n gadarnhaol i gyflogaeth, i fyw bywydau llawn a gweithgar a chyfrannu at yr economi.

1.3 Ym Mawrth 2022 lansiodd Llywodraeth Cymru Twf Swyddi Cymru+ (TSC+), gan gynnig sgiliau cyflogadwyedd, hyfforddiant, a chyfleoedd lleoliadau gwaith â thâl i bobl ifanc 16-19 oed yng Nghymru. Mae TSC+ yn rhan o set o raglenni a chymorth sy'n rhan o'r Gwarant i Bobl Ifanc. Ers lansio TSC+, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i archwilio gweithgareddau fydd yn rhoi cymorth i'r bobl ifanc sydd wedi ymgysylltu lleiaf i ymwneud â'r cymorth y gall TSC+ ei gynnig a chael budd ohono.

Amlygodd Gwerthusiad o'r rhaglen Hyfforddeiaethau, un o'r rhaglenni allweddol oedd yn rhoi cymorth i bobl ifanc i gael cyflogaeth, bryderon nad oedd rhai Contractwyr yn gallu rhoi'r cymorth trwm o ran adnoddau oedd ei angen i fodloni anghenion pobl ifanc ag anghenion cymhleth a'u galluogi i gael deilliannau da. Amlygodd adolygiadau o raglenni eraill yn y Cynllun Cyflawni a Gweithredu Anabledd Dysgu bryderon tebyg. Wrth ymateb i hyn cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol ('y cynllun treialu'). Cychwynnodd y cynllun treialu yn Hydref 2021, trwy'r rhaglen Hyfforddeiaethau i gychwyn, ac mae'n rhedeg hyd Fawrth 2023 fel rhan o raglen Twf Swyddi Cymru+ (TSC+ sydd wedi disodli'r Hyfforddeiaethau).

**Trosolwg o'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol**

1.4 Nod cyffredinol y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau/anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth, trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau. Yn ychwanegol, mae'r cynllun treialu yn anelu at:

- Ddarparu adnoddau i ddatblygu ymwybyddiaeth a hyder ymhellach i roi cymorth i ddysgwyr anabl a'r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol;
- Cynnig gwell dealltwriaeth o'r cohort o ddysgwyr a fyddai'n cael mwyaf o fudd o ddillyn llwybr dysgu yn unol â'r Model Cyflogaeth Gefnogol; a
- Rhoi gwybodaeth am sut y gall Llywodraeth Cymru roi cymorth i bobl ifanc ag anabledd/anhawster dysgu a/neu awtistiaeth i symud ymlaen i ddeilliannau cadarnhaol, gan gynnwys prentisiaethau a chyflogaeth cynhwysol.

1.5 Mae'r cynllun treialu yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol gan Lywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r rhwystrau sy'n atal llawer o bobl ifanc anabl a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol rhag cael cyflogaeth; mae cyfanswm y cyllid ar gyfer y cynllun treialu yn £400,000.

1.6 Mae'r cyllid yn helpu darparwyr i gael mynediad at hyfforddiant arbenigol a chyngor i'r staff presennol a mynediad at anogwyr gwaith arbenigol Lefel 3 i bobl ifanc ag anghenion cymedrol i ddifrifol/ cymhleth. Gall anogwyr gwaith arbenigol, wedi eu

hyfforddi i ddefnyddio'r Model Cyflogaeth Gefnogol (Lefel 3)[1], gryfhau'r cymorth i ddysgwyr cymwys ar bob edefyn o'r rhaglen TSC+ mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

- Gwell asesu/proffilio galwedigaethol;
- Cynhyrchu datganiadau Cyfrifiad Sefyllfa Well yn y Gwaith (er mwyn gallu cadw budd-daliadau anabledd perthnasol) a threfnu hawliadau Mynediad at Waith am offer a chymorth yn y gwaith;
- Cymorth i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, datblygu hyder a sgiliau meddal;
- Cymorth anogwr gwaith yn y gwaith, yn ystod profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith neu waith cyflogedig.

1.7 Roedd yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu yn cynnwys:

- Dadansoddiad Tasg
- Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Heb ei Achredu
- Hyfforddiant anogwr gwaith
- Mentora
- Rheoli gwrthdaro
- Hyfforddiant mewn cyfarwyddo systematig (hyfforddiant i roi, i'r bobl sy'n gweithio gydag ac ar ran pobl ag anableddau, y sgiliau a'r wybodaeth i gefnogi'r bobl hynny i ddysgu'r sgiliau ymarferol sy'n gysylltiedig â gwaith a byw'n annibynnol)
- Hyfforddiant Heb ei Achredu ar y Model Cyflogaeth Gefnogol (roedd hyn yn rhoi trosolwg o'r elfennau gwahanol o fodel y cynllun treialu, gan gynnwys dod i adnabod y dysgwr, cytuno ar gynllun gyda'i gilydd, cael y swydd gywir, cymorth yn y gwaith a datblygu gyrfa)

1.8 Cyn i'r gwerthusiad ddechrau, roedd cyllid wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi 15-20 o ddysgwyr ar draws y pum Contractwr oedd yn cymryd rhan ac roedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i 10 dysgwr arall gael eu cyfeirio at y cynllun treialu ym Medi 2022.

[1] Tystysgrif Lefel 3 i Ymarferwyr Cyflogaeth Gefnogol
[Qualification-Specification-Supported-Employment-L3.pdf (gatewayqualifications.org.uk)](https://gatewayqualifications.org.uk)

### Nodau'r ymchwil

1.9 Nod y gwerthusiad yw rhoi dealltwriaeth fanwl o effeithiolrwydd y rhaglen, trwy archwilio cyflwyno a deilliannau'r cynllun treialu. Bydd hyn yn sail i bolisi a rhaglenni Llywodraeth Cymru yn y dyfodol a ddylunnir i wella deilliannau cyflogaeth i bobl ifanc anabl. Yn benodol, roedd yr ymchwil yn ceisio deall:

- Y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer dysgwyr yn cymryd rhan yn y cynllun treialu, gan gynnwys yr hyn y maent hwy, eu rhieni/gwarcheidwaid, darparwyr ac anogwyr yn ei ystyried yn llwyddiant.
- Y graddau y mae dysgwyr wedi cael budd o'r cynllun treialu, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol.
- Y graddau y mae dysgwyr ar y cynllun treialu yn gwneud cynnydd tuag at ddeilliannau cadarnhaol. A yw'r deilliannau a fwriadwyd wedi cael eu cyflawni neu beidio, a pham/pam ddim?
- Y graddau y mae staff darparwyr Hyfforddeiaethau/TSC+ yn teimlo bod eu hyder a'u sgiliau wedi cynyddu wrth roi cymorth i ddysgwyr ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun treialu.
- Y graddau y mae proses gyfeirio Cymru'n Gweithio[2] yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i ddynodi anghenion cymorth pobl ifanc a bod yn sail effeithiol i'w Cynlluniau Dysgu Unigol. Mae hyn yn cynnwys a oes gan Gontractwyr y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i allu rhoi cymorth i'r dysgwyr, a yw dysgwyr yn teimlo bod y broses gyfeirio'n gweithio neu beidio ac unrhyw wybodaeth sy'n ddiffygiol.

### Strwythur yr adroddiad

1.10 Mae'r adroddiad yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Adran 2 yn nodi methodoleg yr ymchwil.

- Mae Adran 3 yn archwilio sut y cyflwynwyd y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol, gan gynnwys y broses gyfeirio a'r cymorth a roddwyd gan anogwyr gwaith yn ogystal â staff Contractwyr, a gyllidwyd trwy'r cynllun treialu. Mae'r

[2] Mae Cymru'n Gweithio yn cael ei ddarparu gan Cymru'n Gweithio ac mae'n rhoi gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd gyrfaoedd i gefnogi unigolion i gael gwaith.

adran hon hefyd yn archwilio deilliannau i bobl ifanc a staff sy’n ymwneud â’r cynllun treialu.

- Mae Adran 4 yn tynnu casgliadau at ei gilydd o dystiolaeth yr ymchwil am effeithiolrwydd y broses gyfeirio, y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer y bobl ifanc oedd yn cymryd rhan, y graddau y maent wedi cael budd a dangos cynnydd tuag at ganlyniadau cadarnhaol, a’r graddau y mae staff yn teimlo eu bod wedi eu paratoi’n well i roi cymorth i ddysgwyr ag anabledd/anhawster dysgu difrifol a/neu awtistiaeth o ganlyniad i gymryd rhan yn y cynllun treialu. Mae’r adran hon hefyd yn gwneud cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru i fod yn sail i bolisi a dylunio a chyflwyno rhaglenni yn y dyfodol. Mae’r argymhellion hefyd yn ystyried oblygiadau ehangach Contractwyr y rhaglen.

- Mae’r atodiadau’n cynnwys offer ymchwil a hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer yr ymchwil.

**Methodoleg**

1.11 Defnyddiodd y gwerthusiad ddull cymysg ac roedd yn cynnwys:

- **Adolygiad cyflym o ddogfennau** perthnasol am y rhaglen, polisïau a strategaethau ehangach, i osod y cyd-destun ar gyfer dylunio’r gwerthusiad a bod yn sail i hynny. Roedd hyn yn cynnwys Mynegiannau Diddordeb yn y cynllun treialu, adroddiadau gan Gontractwyr ar weithgaredd y cynllun treialu cyn Mawrth 2022, y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau, y Gwerthusiad Or Rhaglen Hyfforddeiaethau: adroddiad terfynol, 2015 hyd 2019 , Cynllun cyflenwi a gweithredu ar gyfer anabledd dysgu 2022 i 2026 Llywodraeth Cymru a Manyleb rhaglen TSC+.

- **Astudiaeth achos o dri dysgwr** sydd wedi cael cymorth trwy’r cynllun treialu. Roedd yr astudiaethau achos yn cynnwys cyfweliadau manwl ar-lein gyda phob dysgwr, ei riant/rhieni neu warcheidwad/waid, Staff Contractwr TSC+ yr anogwr gwaith a’r cyflogwr (pan oedd hynny’n briodol).

  Roedd cyfweliadau’r astudiaethau achos yn archwilio llwybr yr unigolion at y cymorth a gynigiwyd trwy’r cynllun treialu; profiad o’r broses gyfeirio/barn amdani;

disgwyliadau o’r cynllun a’r nodau wrth gymryd rhan; deilliannau a dargedwyd; anghenion cymorth y person ifanc/gofynion dysgu a’r mathau o gymorth a roddwyd; pa fathau o gymorth oedd yn gweithio’n dda a ddim cystal a pham; manteision a deilliannau a amgyffredwyd i’r cymorth a syniadau ar gyfer gwelliannau.

- **Cyfweliadau a grwpiau ffocws ansoddol.** Cynhaliwyd cyfweliadau a grwpiau ffocws ar-lein wedi eu strwythuro’n rhannol gydag amrywiaeth o randdeiliaid yn cynnwys:
  - Cyfweliadau gyda staff Contractwyr TSC+ (3) a grŵp ffocws gyda Chontractwyr TSC+ a staff Cymru’n Gweithio (4) i ddeall sut y mae’r broses gyfeirio ar gyfer y cynllun treialu yn gweithio.

    Roedd y cyfweliadau a’r grŵp ffocws yn archwilio barn y staff am brosesau cyfeirio gan gynnwys y broses asesu gychwynnol; sut y cesglir gwybodaeth a pha wybodaeth a gesglir am anghenion cymorth/dysgu’r bobl ifanc y graddau y mae’r wybodaeth a gesglir trwy’r broses gyfeirio yn ddigonol i alluogi Contractwyr i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr a bod yn sail i Gynlluniau Dysgu Unigol; pa wybodaeth ychwanegol fyddai’n helpu staff i roi cymorth effeithiol; a dynodi meysydd i’w gwella.
  - Cyfweliadau gyda staff Contractwyr TSC+ (5) i archwilio effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gafwyd trwy’r cynllun treialu.

    Roedd y cyfweliadau’n archwilio’r mathau o hyfforddiant a ddefnyddiwyd, profiadau a barn y staff am yr hyfforddiant a gynigiwyd, deilliannau/manteision cymryd rhan yn yr hyfforddiant a pha hyfforddiant arall/fathau o gymorth fyddai o gymorth i wella’r cymorth i’r cohort hwn o ddysgwyr.
  - Cyfweliadau gyda dwy Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol oedd yn darparu anogwyr gwaith ar gyfer y cynllun treialu.

    Roedd y cyfweliadau’n archwilio deilliannau a dargedwyd i ddysgwyr oedd yn rhan o’r cynllun treialu, anghenion cymorth y person ifanc, y math o gymorth a roddwyd, pa fathau o gymorth oedd yn gweithio’n dda a ddim cystal, manteision a deilliannau a amgyffredwyd i’r cymorth a syniadau ar gyfer gwelliannau.

- **Dadansoddiad o Gynlluniau Dysgu Unigol (CDU) y dysgwyr**. Dadansoddwyd CDU tri o’r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn yr astudiaethau achos i ymchwilio i ba raddau y gwnaed cynnydd tuag at ddeilliannau cadarnhaol.

**Samplo**

1.12 Oherwydd y nifer fechan o astudiaethau achos nid oedd yn bosibl recriwtio sampl gynrychioliadol o’r dysgwyr. Gweithiodd Dysgu a Gwaith yn glos gyda Llywodraeth Cymru i gyfleu nodau’r gwerthusiad i’r pum Contractwr TSC+ oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu ac ymatebodd y pump yn gadarnhaol i’r gwahoddiad i gymryd rhan yn yr ymchwil. Gofynnwyd i’r contractwyr ddynodi pobl ifanc addas a allai fod â diddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaeth achos a rhoddwyd anogaeth iddynt ddynodi dysgwyr ag anghenion amrywiol. Y Contractwyr a gysylltodd gyntaf â rhieni/gwarcheidwaid, anogwyr gwaith arbenigol a chyflogwyr yn gweithio gyda’r person ifanc, i gyflwyno’r ymchwil ac i gael caniatâd i’r tîm gwerthuso gysylltu. Roedd y dewis o ddysgwyr ar gyfer yr astudiaethau achos yn sicrhau bod anogwyr gwaith o’r ddwy Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol oedd yn rhan o’r cynllun treialu, yn cael eu cynnwys yn yr ymchwil.

1.13 Ar gyfer cyfweliadau ansoddol ehangach, gofynnwyd i Gontractwyr TSC+ a Cymru’n Gweithio ddynodi a rhannu manylion cyswllt staff a chynghorwyr a fyddai’n barod i gymryd rhan mewn grŵp ffocws ar y broses gyfeirio neu oedd wedi cael hyfforddiant trwy’r cynllun treialu. Gofynnwyd i’r Contractwyr hefyd ddynodi hyd at bump o ddysgwyr (yn ychwanegol at ddysgwyr yr astudiaethau achos) oedd wedi ymuno â’r cynllun treialu yn ddiweddar (ym Medi/Hydref 2022) i archwilio barn yr unigolion am y system gyfeirio a’u profiadau ohoni, ac i roi hyd at bedwar CDU (yn ychwanegol at y tri a ddadansoddwyd ar gyfer dysgwyr yr astudiaethau achos) pobl ifanc sy’n cymryd rhan yn y cynllun treialu, ar gyfer dadansoddi cynlluniau dysgu unigol.

**Cyfyngiadau a heriau**

1.14 Mae’r astudiaethau achos dysgwyr yn rhoi manylion gwerthfawr am y profiadau a’r deilliannau i ddysgwyr unigol. Ond, oherwydd mai bach oedd maint y sampl, ni all canfyddiadau’r astudiaethau achos gael eu cyffredinoli.

1.15 Roedd recriwtio ar gyfer rhai gweithgareddau ymchwil yn heriol. Ni wnaeth y tîm gwerthuso dderbyn manylion dysgwyr oedd yn dechrau ar y cynllun treialu ym

Medi/Hydref 2022, i gymryd rhan yn y cyfweliadau am eu profiad o'r broses gyfeirio. Mae trafodaethau gyda Chontractwyr yn awgrymu y gall hyn yn rhannol adlewyrchu'r niferoedd isel o gyfeiriadau yng nghyfnod olaf y cynllun treialu. Nid oedd cymryd rhan yn y cynllun treialu yn cael ei gofnodi'n gyson yn nata Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, felly nid yw'n glir beth yw cyfanswm y bobl ifanc a gyfeiriwyd ac sy'n derbyn cymorth yn ystod cyfnod y cynllun treialu.

1.16 Yn yr un modd, ni lwyddodd y tîm gwerthuso i gael mynediad at CDU pellach ar gyfer pobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu (tu hwnt i'r rhai a ddadansoddwyd ar gyfer yr astudiaethau achos), felly cyfyngedig yw'r dystiolaeth a roddir yn yr ymchwil am gynnydd i bobl ifanc eraill a gymerodd ran. Yn ychwanegol at heriau yn gysylltiedig â'r nifer isel o gyfeiriadau a amlinellir uchod, dynododd rhai Contractwyr heriau o ran adnoddau wrth fodloni'r cais i ddynodi a rhannu CDU pellach. Roedd ansicrwydd ymhlith y grŵp Contractwyr hefyd am hyd y cynllun treialu; roedd rhai Contractwyr yn deall bod y cynllun treialu wedi dod i ben ar y pwynt pan ofynnwyd am ragor o CDU.

## 2. Canfyddiadau Allweddol

### Y broses gyfeirio

2.1 Tynnir y dystiolaeth ar gyfer yr adran hon o gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda Chontractwr TSC+ a staff Cymru'n Gweithio, cyfranogwyr yr astudiaethau achos ac Asiantaethau Cyflogaeth Gefnogol. Mae'n tynnu ar dystiolaeth o'r adolygiad cyflym o ddogfennau hefyd.

2.2 Fel yr amlinellir uchod, nid yw data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn rhoi data dibynadwy am y nifer o bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu. Cofnododd Asiantaethau Cyflogaeth Gefnogol a gyfwelwyd ar gyfer y gwerthusiad eu bod wedi gweithio gyda 37 o bobl ifanc i gyd, am gyfnod y cynllun treialu (gan gynnwys ar hyfforddeiaethau a TSC+)[3].

2.3 Cofnododd Contractwyr TSC+ lwybrau amrywiol at y cynllun treialu. Cyfeirir rhai pobl ifanc trwy gysylltiad uniongyrchol â Cymru'n Gweithio. Cyfeirir rhai eraill o

[3] Cofnododd Asiantaethau Cyflogaeth Gefnogol bod 16 o ddysgwyr wedi eu cyfeirio at y cymorth o fis Hydref 2021, gyda 21 o ddysgwyr eraill wedi eu cyfeirio o fis Mawrth 2022 ymlaen.

ganlyniad i gael cymorth gan y system cyfiawnder ieuenctid, gan weithwyr cymdeithasol, neu trwy hunangyfeirio (gyda'r olaf yn neilltuol o debygol o fod yn wir os oes ganddynt ffrindiau neu deulu sydd wedi cael cyswllt blaenorol ag un o'r Contractwyr sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu).

**Gwybodaeth a gasglwyd a bylchau**

2.4 Pan fydd person ifanc yn cael ei gyfeirio at y cynllun treialu, llunnir Adroddiad Asesu a Chyfeirio fel rhan o drafodaeth rhwng cynghorydd Cymru'n Gweithio â'r person ifanc. Pan fydd cyfeiriad uniongyrchol, gwneir asesiad cyfatebol fel rhan o'r drafodaeth rhwng y Contractwr a'r person ifanc. Esboniodd staff Cymru'n Gweithio bod ffurf yr Adroddiad Asesu a Chyfeirio wedi ei bennu ar ôl cyfnod o ymgynghori gyda rhanddeiliaid allweddol, gan adeiladu ar adborth oedd wedi cael ei gasglu o'r broses gyfeirio ar gyfer y rhaglen Hyfforddeiaethau.

2.5 Rhennir y ffurflen ei hun yn ddwy adran. Gelwir y rhan gyntaf yn Eich Stori, sy'n amlinellu cryfderau allweddol y person ifanc, y rhwystrau y maent yn gallu eu dynodi o ran cael cyflogaeth a/neu hyfforddiant, ynghyd ag unrhyw wybodaeth gefndir benodol a fyddai'n ddefnyddiol i'r Contractwr ei gwybod. Mae hyn yn canolbwyntio, er enghraifft, ar amgylchiadau personol, profiadau o addysg ac unrhyw gymwysterau blaenorol a gafwyd. Dilynir hyn gan adran a elwir yn Newid Eich Stori, lle cofnodir y camau gweithredu a ddynodwyd o ganlyniad i'r sgwrs rhwng y cynghorydd a'r person ifanc. Fel arfer mae'r rhain yn gyfuniad o feysydd i'r Contractwr roi pwyslais arnynt, ynghyd â chamau gweithredu y gall y person ifanc ei hun eu meddiannu a'u symud ymlaen.

2.6 Mae'r Adroddiad Asesu a Chyfeirio yn cynnwys adran lle gall y cynghorydd sy'n llenwi'r ffurflen gyda'r person ifanc nodi pan fyddant yn teimlo y byddai'r person ifanc yn cael budd o gymryd rhan yn y cynllun treialu. Pan fydd hyn yn wir, cyfeirir y person ifanc at Gontractwr TSC+ sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu, yn ei ardal leol. Rhennir yr Adroddiad Asesu a Chyfeirio (AACh) gyda'r Contractwr ar yr adeg hon.

2.7 Mae'r AACh yn ddigidol, felly mae'r data ar y ffurflen yn hawdd ei drosglwyddo i'r Cynllun Dysgu Unigol (CDU) electronig a ddatblygir gan y Contractwyr ar gyfer pob person ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu. Nododd y Contractwyr bod

dyluniad yr AACh yn gadael i fwy o fanylion gael eu cynnwys am berson ifanc mewn cymhariaeth â ffurflenni tebyg ar gyfer ymyraethau yn y gorffennol. Ond, eu hamgyffrediad yw bod lefel y manylion a gesglir yn yr AACh yn ddibynnol ar bwy sydd wedi llenwi'r ffurflen a pha mor dda y mae'n adnabod y person ifanc.

2.8 Cydnabu staff Contractwyrr a Cymru'n Gweithio bod lled a dyfnder y wybodaeth a gofnodir ar ffurflenni AACh yn anghyson. Gall yr AACh fod o ganlyniad i un sgwrs rhwng person ifanc a chynghorydd Cymru'n Gweithio. Mae ansawdd y wybodaeth yn yr AACh yn ddibynnol i ryw raddau ar ba mor gyfforddus yw'r person ifanc yn datgelu manylion llawn amdano ei hun yn ystod y cyfarfod hwn. Amlygodd staff Cymru'n Gweithio'r heriau sy'n gysylltiedig â gallu'r cynghorydd sy'n llenwi'r AACh i gael ymddiriedaeth y person ifanc yn y cyd-destun hwn. Roeddent yn cydnabod bod hyn yn eithriadol o bwysig o ystyried cymhlethdod ac ystod anghenion cymorth pobl ifanc oedd yn rhan o'r cynllun treialu. Os nad yw'r cynghorydd yn gallu llunio'r berthynas dda angenrheidiol gyda'r person ifanc, gall hyn gael effaith arwyddocaol ar faint o wybodaeth y mae'r person ifanc yn barod i'w datgelu.

2.9 Yn ychwanegol, digwyddodd rhai o'r sgyrsiau gyda phobl ifanc i roi gwybodaeth ar gyfer yr AACh yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau COVID-19 pan nad oedd cyfarfod wyneb yn wyneb yn bosibl; teimlai Contractwyr bod hyn hefyd yn rhwystr posibl o ran pa mor dda y gallai pobl ifanc ymwneud â'r broses.

"Nid yw wyneb yn wyneb, mae'n sgyrsiau ffôn, cyfarfod Zoom efallai, felly nid wyf yn meddwl weithiau eu bod yn dod i adnabod y person ifanc i'r un graddau ag y byddai cynghorydd ysgol yn eu hadnabod." (Staff Contractwr)

2.10 Cofnododd Contractwyr bod bylchau weithiau yn y wybodaeth yn yr AACh. Roedd y rhain yn bennaf yn ymwneud â'r hyn y byddai Contractwyr yn ei amgyffred yn "wir" effaith anawsterau/anableddau dysgu person ifanc a neu awtistiaeth, ar y mathau a'r lefel o anghenion cymorth. Mynegodd un Contractwr y farn y gallai fod yn anodd i'r cynghorydd sy'n llenwi'r AACh roi gwybodaeth fanwl am anghenion dysgu ychwanegol (ADY) os nad oedd gan y person ifanc ddatganiad ADY tra'r oeddynt mewn addysg. Pan nad oes digon o wybodaeth am anghenion dysgu penodol y person ifanc yn yr AACh, gall fod yn heriol i gychwyn i Gontractwyr gynllunio a chynnig cymorth priodol. Er enghraifft, disgrifiodd un Contractwr sut y byddai wedi

gallu cynnig cymorth wedi ei dargedu'n well, yn gynharach, petai gwybodaeth am raddfa dyslecsia'r person ifanc wedi cael ei gofnodi yn yr AACh.

2.11 Roedd y Contractwyr yn gytûn eu bod yn gallu llenwi unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd ar ôl iddynt dreulio ychydig o amser gyda'r person ifanc a dod i'w adnabod yn well. Esboniodd un Contractwr ei bod yn ei gweld yn effeithiol ategu at yr hyn yr oedd wedi ei ddarllen am y person ifanc yn yr AACh trwy sgwrs dawel ac anffurfiol hefo fo/hi, yn bersonol, ar safle'r Contractwr.

> "Rwy'n eu gwahodd i mewn am sgwrs gyda mi yn gyntaf i sicrhau bod gennym y cymorth cywir yma iddyn nhw ac i'w harwain o gwmpas a'u sicrhau os bydd arnyn nhw angen cymorth ychwanegol yna gallwn edrych ar roi cymorth gyda'u hanghenion." (Staff Contractwr)

2.12 I'r gwrthwyneb, dywedodd staff Cymru'n Gweithio eu bod wedi derbyn adborth anecdotaidd gan Gontractwr, lle'r oedd yr AACh yn casglu gwybodaeth fanwl am lefel angen y person ifanc y gallai hyn weithiau eu hatal rhag ymwneud â'r cynllun treialu. Mewn rhai achosion, roedd Contractwyr yn gweld nad oeddent mewn sefyllfa dda i roi cymorth o ran anghenion pobl ifanc y mae'n ymddangos bod ganddynt anghenion cymhleth. Ond, credai staff Cymru'n Gweithio y gall Contractwyr weld nad yw lefel angen person ifanc mor ddifrifol ag a ragwelwyd ar ôl eu cyfarfod.

> "Gall weithio yn erbyn y person ifanc gyda'r holl fanylion yr ydym yn eu darparu [yn yr AACh] oherwydd efallai y bydden nhw wedi rhoi cyfle iddyn nhw a'u cyflogi neu o leiaf cyfweld y person ifanc, oni bai eu bod yn gwybod rhai o'r pethau yr ydym wedi eu rhoi yn yr AACh oherwydd rwy'n meddwl ein bod wedi cael un neu ddau sydd wedi cael eu hanfon yn ôl atom yn dweud, 'Allwn ni ddim cymryd y person ifanc yma oherwydd ei ymddygiad, ei agwedd'. Ond yn ymarferol efallai nad yw graddfa anghenion y dysgwr mor amlwg." (Staff Cymru'n Gweithio)

2.13 Esboniodd Contractwyr ei bod yn hanfodol i berson ifanc deimlo'n gyfforddus gyda'r penderfyniad i'w gyfeirio i gael cymorth gan anogwr gwaith iddynt ymgysylltu'n llawn. Cyflwynir pobl ifanc i'r anogwr gwaith gan staff Contractwr TSC+ y mae ganddynt berthynas o ymddiriedaeth â nhw yn barod, a gwelir hyn fel elfen hanfodol

i'w cael i ymgysylltu ymhellach. Er mwyn cefnogi ymgysylltu ymhellach, mae Contractwyr yn aml yn trefnu i'r person ifanc gael nifer o ymweliadau byr â'u safle hyfforddi cyn cychwyn ar y cynllun treialu. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd pellach i gyfarfod yr anogwr gwaith ac yn helpu pobl ifanc i ddychmygu eu hunain yn cymryd rhan yn y cymorth.

2.14 Pan fydd person ifanc yn cael ei gyfeirio at y cynllun treialu, cynhelir cyfarfod ar y cyd gyda'r person ifanc, ei rieni/gwarcheidwaid, staff y Contractwr a'r anogwr gwaith. Cynhelir y cyfarfod ar safle'r Contractwr, a gall y lleoliad cyfarwydd helpu i feithrin ymdeimlad o ymddiriedaeth rhwng y person ifanc a'i anogwr gwaith. Dywedodd y bobl ifanc a gyfwelwyd ar gyfer yr astudiaethau achos bod cael aelod o staff y Contractwr yn y cyfarfod hwn, y maent yn ei adnabod yn barod, yn eu helpu i deimlo'n gyfforddus wrth drosglwyddo i gael cymorth gan yr anogwr gwaith. Cyn y cyfarfod cyntaf hwn, mae Contractwyr yn rhannu gwybodaeth gyda'r anogwr gwaith am anghenion cymorth y person ifanc a'i nodau dysgu, o'i AACh, yn ogystal â'r CDU cychwynnol.

2.15 Ar ôl y cyfarfod cyntaf, mae anogwyr gwaith yn gweithio gyda phobl ifanc i lenwi eu hasesiadau eu hunain i sefydlu pa gymorth sydd arnynt ei angen a gosod nodau dysgu. Mae'r broses hon yn eu helpu i liniaru effaith unrhyw fylchau yn eu gwybodaeth os nad oedd y wybodaeth gyfeirio gychwynnol yn ddigon manwl. Mae'r asesiad hwn yn rhan o'r proffil galwedigaethol y mae'r anogwr gwaith yn ei ddatblygu ar gyfer y person ifanc. Nod y proffil yw galluogi'r anogwr gwaith i ddod i adnabod y person ifanc, ei sgiliau, ei allu ac unrhyw ddyheadau gyrfa. Dywedodd Asiantaethau Cyflogaeth Gefnogol y gall y gweithgaredd asesu hwn ddigwydd dros nifer o gyfarfodydd rhwng y person ifanc a'i anogwr gwaith, er mwyn peidio â llethu'r person ifanc. Dywedodd anogwyr gwaith eu bod yn teimlo'n fwy hyderus i roi cymorth i ADY pobl ifanc ar ôl llunio perthynas dda gyda nhw a deall yr arddull dysgu oedd orau ganddynt.

**Sut mae'r broses gyfeirio yn sail i CDU person ifanc**

2.16 Defnyddir yr AACh (neu rywbeth cyfatebol gan y Contractwr) fel sail i ddechrau datblygu CDU person ifanc. Datblygir hyn ymhellach gyda dealltwriaeth a geir o'u hanghenion dysgu a chymorth, wrth i staff ddod i'w hadnabod.

> "Mae'r rhaglen gyfan fel ffordd, ac maen nhw'n dal i fynd ar hyd y ffordd gan ychwanegu darnau a dweud pethau gwahanol a gosod targedau. Yr AACh yw eich man cychwyn mewn gwirionedd. Y waelodlin." (Staff Cymru'n Gweithio)

2.17 Cofnododd Contractwyr bod CDU yn cael eu hadolygu yn fisol, a bod deilliannau'r cyfarfod adolygu yn cael eu diweddaru ar y ffurflen CDU electronig sy'n cael ei rhannu gydag anogwr gwaith y person ifanc, fel y gellir addasu nodau dysgu a chynlluniau i gefnogi eu cynnydd.

2.18 Cydnabu staff y contractwr bod adolygiadau cyson yn rhoi cyfle i gael trafodaethau mwy anffurfiol gyda'r person ifanc, lle gallant siarad am rywbeth nad yw wedi ei gofnodi yn ystod y broses AACh, sy'n berthnasol i'w hanghenion cymorth. Mae'r broses adolygu cyson hon yn bwysig gan y gall nodau person ifanc newid yn ystod cyfnod y cymorth.

> "Rydym yn sôn am rai 16 i 18 oed yma. Mae fy nghof i'n wael iawn, ond hanner yr amser maen nhw'n eistedd o flaen person gyrfaoedd [i gynhyrchu'r AACh], mae yna lwyth o bethau y mae'n debyg eu bod am eu dweud ond nad ydynt yn eu dweud. Pan fyddan nhw'n ein cyrraedd ni [Contractwyr] ac yna maen nhw'n fwy agored pan fyddan nhw'n cael adolygiadau misol, yna bydd pethau yn dod i'r amlwg." (staff Contractwr)

**Syniadau am welliannau**

2.19 Dywed Contractwyr TSC+ bod y nifer o bobl ifanc a gyfeiriwyd ar y cynllun treialu wedi bod yn isel. Roedd staff y Contractwyr a Cymru'n Gweithio yn cytuno bod angen newidiadau i wella'r ffordd y mae gwybodaeth am y cynllun treialu yn cael ei gyfleu i sicrhau bod y bobl ifanc sydd fwyaf ei angen yn gallu cael y cymorth sydd arnynt ei angen. Cydnabu staff Cymru'n Gweithio hefyd bod angen gwneud mwy i sicrhau bod cynghorwyr a'r cohort a dargedir yn deall y cymorth a roddir trwy'r cynllun treialu yn llawn.

**Casgliadau**

2.20 Mae'r AACh yn offeryn cyfeirio cynhwysfawr, ond mae lefel y manylion a gasglwyd gan gynghorwyr Cymru'n Gweithio wrth lenwi'r ffurflenni yn amrywio. Mae casglu gwybodaeth, mor llawn â phosibl, wrth gyfeirio yn hanfodol i sicrhau bod cymorth

addas yn cael ei roi i'r bobl ifanc ar ddechrau'r ymyrraeth. Ond, yr AACh (neu rywbeth cyfatebol gan y Contractwr) yw'r man cychwyn ar gyfer dynodi'r hyn sy'n rhwystro'r person ifanc rhag cael gwaith, ei anghenion o ran cymorth a'i nodau dysgu. Mae cyfleoedd parhaus i'r bobl ifanc rannu gwybodaeth ychwanegol hefyd yn bwysig i fod yn sail i newidiadau i'r cynllun dysgu, i sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd parhaus.

2.21 Nid yw'n glir beth oedd cyfanswm y nifer o gyfeiriadau yn ystod cyfnod y cynllun treialu. Ond, mae tystiolaeth ansoddol yn dynodi bod y nifer wnaeth gymryd rhan yn is nag a ragwelwyd. Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol i sicrhau bod pobl ifanc a fyddai'n cael budd o gymorth i symud ymlaen at ddeilliannau cadarnhaol, eu teuluoedd, yn ogystal â chynghorwyr gyrfaoedd a rhanddeiliaid ehangach, yn hollol ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael, yn deall nod y cymorth a pha bobl ifanc sy'n gymwys.

**Cymorth anogwr gwaith**

2.22 Mae'r adran hon yn archwilio'r cymorth a roddir gan yr anogwyr gwaith i bobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu. Mae'n cynnwys sut y rhoddwyd y cymorth, elfennau allweddol y cymorth, beth wnaeth weithio'n dda a ddim cystal, a syniadau am welliannau. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau ansoddol gyda'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos – dysgwyr, eu rhieni/ neu warcheidwad/warcheidwaid, anogwyr gwaith, Contractwyr TSC+ – a'r ddwy Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol, Elite ac Agoriad, a gyflenwodd anogwyr gwaith ar gyfer y cynllun treialu. Mae'r canfyddiadau hefyd yn seiliedig ar dystiolaeth o'r adolygiad cyflym o ddogfennau.

**Nodau'r cymorth**

2.23 Nid oedd gan y dysgwyr a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos ddisgwyliadau wedi eu diffinio'n glir o'r hyn yr oeddent yn gobeithio ei gyflawni trwy'r cynllun treialu, ond yn gyffredinol roeddent yn disgrifio dymuniad i ddatblygu eu hyder, cael profiad gwaith, a symud yn nes at ddod o hyd i waith.

> "Roeddwn am roi mwy o hyder i mi fy hun mewn bywyd...dod o hyd i waith, i mi gael gwneud rhywbeth." (Person ifanc)

> “Roeddwn yn gobeithio y byddai’n help i mi siarad hefo mwy o bobl o’m cwmpas.” (Person ifanc)

2.24 Yn gyffredinol, roedd rhieni’n gobeithio y byddai eu mab neu ferch yn fwy parod am gyflogaeth.

> “Felly, fy nisgwyliadau oedd efallai'r ychydig bach o gymorth ychwanegol hwnnw i ddod o hyd i gyflogwr a fyddai’n ei hystyried a, wyddoch chi, roi’r ychydig bach o amser hwnnw ac anogaeth, mentora y gallai hi fod ei angen.” (Rhiant)

2.25 Roedd dau o’r bobl ifanc wedi bod yn cael cymorth gan anogwr gwaith am ddeg mis, gyda’r un arall wedi cael cymorth am bedwar mis ar ddeg.

**Elfennau a gweithgareddau allweddol**

2.26 Mae’r anogwyr gwaith wedi gwneud amrywiaeth o weithgareddau gyda dysgwyr yr astudiaethau achos, gan ddibynnu ar ba gam y maen nhw arno ar TSC+ (ymgysylltu neu ddatblygu), eu nodau dysgu unigol, ac anghenion dysgu penodol y person ifanc. Roedd y rhan fwyaf o’r gweithgareddau’n digwydd ar safle’r Contractwr.

2.27 Roedd gweithgareddau i gynyddu hyder yn sylfaenol i’r cymorth ar gyfer y tri dysgwr astudiaethau achos. Roedd elfennau allweddol y cymorth yn cynnwys datblygu sgiliau byw’n annibynnol, sgiliau hanfodol, sgiliau cyflogadwyedd, yn ogystal â sgiliau meddal e.e. sgiliau cyfathrebu. Darparwyd cymorth yn y gwaith i ddau ddysgwr oedd ar leoliadau gwaith. Ni wnaeth anogwyr gwaith rannu enghreifftiau o roi cymorth i bobl ifanc i wneud datganiadau Cyfrifiad Gwell yn y Gwaith na chydlynu hawliadau Mynediad at Waith, oedd yn weithgareddau ychwanegol a ariannwyd trwy’r cynllun treialu.

**Datblygu annibyniaeth**

2.28 Roedd y cymorth i ddatblygu annibyniaeth yn cynnwys gweithgareddau i ddysgu am reoli arian, a hyfforddiant teithio. Er enghraifft, bu anogwr gwaith un dysgwr astudiaeth achos yn gweithio gydag ef i ddatblygu cyllideb ar gyfer mynd i siopa bwyd, a mynd gydag ef i’r siopau lleol i gynyddu ei hyder wrth drin arian ei hun. Rhoddodd anogwr gwaith arall gymorth i berson ifanc i gynyddu ei hyder i gyrraedd

safle'r Contractwr ar ei ben ei hun. Roedd hyn yn cynnwys cerdded gyda'r person ifanc ar hyd y daith i gychwyn, yna cyfarfod mewn man dynodedig ar y ffordd, nes cyrhaeddodd y person ifanc sefyllfa lle'r oedd yn hyderus i wneud y daith ar ei ben ei hun.

**Sgiliau hanfodol**

2.29 Rhoddodd anogwyr gwaith gymorth uniongyrchol i bobl ifanc gymryd rhan mewn dysgu yn y dosbarth a gweithgareddau grŵp eraill a gyflawnwyd fel rhan o'r cymorth TSC+. Roedd hyn yn cynnwys dysgu i ddatblygu llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol yn ogystal â phynciau fel iechyd a llesiant a datblygiad personol. Mewn rhai achosion, roedd yr anogwyr gwaith wedi darparu mewnbwn un i un ychwanegol ar sgiliau hanfodol. Er enghraifft, mewn un achos roedd anogwr gwaith wedi parhau i roi cymorth i berson ifanc mewn man tawel y tu allan i'r dosbarth, gan fod eu ADY yn golygu eu bod yn cael yr amgylchedd hwn yn heriol.

2.30 Roedd un dysgwr astudiaeth achos, sydd â dyslecsia, hefyd wedi cael mynediad at gymorth llythrennedd ychwanegol gan ei thiwtor penodol ei hun.

**Sgiliau cyflogadwyedd**

2.31 Rhoddodd yr anogwyr gwaith gymorth i ddysgwyr yr astudiaethau achos i ddatblygu eu CV, cynyddu eu gwybodaeth am ble a sut i chwilio am gyfleoedd gwaith, a siarad trwy'r mathau o gwestiynau all gael eu gofyn mewn cyfweliadau swyddi. Dywedodd y bobl ifanc eu bod yn gweld datblygu CV yn heriol oherwydd eu profiad cyfyngedig o ganlyniad i'w ADY. Fe wnaeth cymorth gan eu hanogwr gwaith eu helpu i ddynodi a bod yn fwy hyderus wrth ddisgrifio sut y gallai sgiliau yr oedden nhw wedi eu datblygu mewn addysg, trwy weithgareddau yn eu hamser hamdden, neu fel rhan o'r gweithgareddau a wnaed fel rhan o'r cynllun treialu, fod yn rhai y gellid eu trosglwyddo i'r gweithle.

**Cymorth ar sail angen**

2.32 Pwysleisiodd yr anogwyr gwaith bwysigrwydd teilwrio'r cymorth i fodloni anghenion yr unigolion, yn ogystal â'u diddordebau a'u dyheadau o ran swyddi.

> "Mae'r hyn yr ydym yn ei wneud yn rhoi pwyslais mawr ar yr unigolyn, mae'r cyfan yn troi o gwmpas y dysgwr, yr unigolyn. Pa fath o anghenion cymorth

penodol y mae arnynt eu hangen i ddod yn annibynnol, i gyrraedd y nodau y mae arnynt eu hangen. Felly, rydym yn eu helpu i gynyddu eu sgiliau a'u profiad, yn barod am swyddi cyflogedig" (Anogwr gwaith)

2.33 Dynodwyd cymorth holistaidd, yn canolbwyntio ar ddatblygu'r person cyfan, hefyd gan anogwyr gwaith fel elfen ganolog o lwyddiant y cymorth.

> "…rhoi cymorth i [enw'r person ifanc] i ddeall ei sgiliau a'i gryfderau ei hun, i wybod ei fod yn aelod gwerthfawr o gymdeithas, i fod ag ymwybyddiaeth gymdeithasol, i fod ag annibyniaeth a hyder. Mae'n, mae'n wych gweld ei daith a gwybod pa mor bell y mae wedi dod." (Anogwr gwaith)

2.34 Addaswyd gweithgareddau i helpu pobl ifanc i oresgyn rhai o'r heriau yr oeddent yn eu hwynebu wrth ymwneud â dysgu oherwydd eu hanableddau/anawsterau dysgu, ac i ymateb i'r arddull dysgu oedd orau ganddynt. Er enghraifft, fe wnaeth yr anogwr gwaith ar gyfer dysgwr yn yr astudiaeth achos sy'n cael trafferth gyda chof tymor byr, ailadrodd yr un gweithgareddau gyda'r person ifanc i atgyfnerthu'r hyn a ddysgwyd o'r blaen. Cyflwynodd anogwr gwaith arall sesiynau byrrach gyda mwy o ffocws i berson ifanc oedd yn ei chael yn anodd canolbwyntio yn ystod rhai gweithgareddau, oherwydd ei awtistiaeth.

2.35 Ar draws yr astudiaethau achos, disgrifiodd anogwyr gwaith sut yr oeddent yn torri gweithgareddau i lawr i'w gwneud yn haws ymdopi â nhw ac yn llai o faich i bobl ifanc. Roedd y dull hwn wedi bod o gymorth mawr i roi cymorth i'r rhai oedd yn dioddef gorbryder.

> "Fe wnaethon ni hyfforddiant cyflogadwyedd i geisio dod o hyd i waith. Roedd yn mynd o'r dechrau am, wyddoch chi, dynodi sgiliau, nodweddion, sut y gallwch drosglwyddo rhai sgiliau i le arall. Gan fynd ymlaen yn llythrennol trwy'r broses gyfan o chwilio am swydd, ymgeisio am swydd, y cyfan, wedi eu torri'n ddarnau mân. Felly fe wnaeth [enw'r person ifanc] ysgrifennu pethau fel CV, llythyrau esboniadol. Gallwch ddychmygu ei dorri yn ddarnau bach i gyd, roedd yn gwneud rhan fach ar y tro ac felly yn y diwedd fe wnaeth ei gwblhau, ac fe wnaeth yn wirioneddol dda." (Anogwr gwaith)

2.36 Roedd bod mewn sefyllfaoedd anghyfarwydd yn cynyddu pryder y dysgwr hwn, ac roedd hyn wedi ei atal rhag mynd at gyflogwyr i geisio cyfleoedd i gael gwaith rhan-

amser. Bu ei anogwr gwaith yn gweithio gydag o i ddynodi a datblygu ffyrdd i reoli ei bryder a meddwl trwy gamau y gallai eu cymryd i deimlo'n fwy cyfforddus a hyderus mewn sefyllfaoedd newydd. Er enghraifft, fe wnaeth ymarfer ar gyfer y sefyllfa hon trwy siarad â staff Contractwr oedd yn newydd iddo. Fe wnaeth hyn ei helpu i gynyddu hyder cyn mynd i ofyn am waith mewn siopau lleol.

**Cymorth yn y gwaith**

2.37 Roedd dau o ddysgwyr yr astudiaeth achos wedi bod ar leoliad gwaith ac, fel rhan o hyn, wedi cael cymorth yn y gwaith gan eu hanogwr gwaith. Roedd un person ifanc wedi cymryd rhan mewn lleoliad byr (pythefnos), a drefnwyd gan yr anogwr gwaith ac roedd ar fin dechrau ar ail leoliad mis o hyd ar yr adeg y rhoddwyd cyfweliad iddi. Roedd y person ifanc arall yn cymryd rhan mewn lleoliad parhaus, a drefnwyd gan ei thiwtor, y mae'n ei fynychu dair gwaith yr wythnos.

2.38 Roedd y lleoliadau yn cael eu cyfateb i ddiddordebau gyrfa pobl ifanc a rhoddwyd ystyriaeth i addasrwydd y lleoliad i anghenion dysgu pob person. Er enghraifft, rhoddwyd un person ifanc, oedd wedi profi heriau wrth brosesu a chofio gwybodaeth oherwydd ei anabledd/anhawster dysgu ar leoliad gyda chyflogwr oedd â llawer o brofiad o gefnogi unigolion ag ADY. Er mwyn helpu i oresgyn heriau o ran cofio, roedd y lleoliad gwaith a ddynodwyd ar gyfer y person ifanc yn cynnwys gweithio mewn tîm bychan, gan wneud tasgau ailadroddus.

2.39 Rhoddwyd yr ail berson ifanc, oedd â diddordeb mewn gweithio yn y sector gofal plant, mewn meithrinfa i blant dan oedran ysgol, yn gysylltiedig â'r ysgol gynradd yr oedd ei brodyr a'i chwiorydd yn mynd iddi. Fe wnaeth y lleoliad cyfarwydd ei helpu i oresgyn ei phryder cychwynnol am y lleoliad. Roedd gan rieni'r person ifanc bryderon am ei gallu i deithio'n annibynnol oherwydd ei hanabledd/anawsterau dysgu ac roedd y lleoliad hwn, yn agos at ei chartref, yn golygu y gallai deithio i'r ysgol gyda'i rhieni.

2.40 Amlinellodd anogwyr gwaith ddull bob yn gam o gymorth yn y gwaith. Ar gychwyn pob lleoliad, roedd yr anogwr gwaith wedi darparu cymorth dwys gan fynd i'r gweithle gyda'r person ifanc trwy gydol y diwrnod gwaith, a'u helpu gyda'u tasgau gwaith yn uniongyrchol. Roedd y dull hwn wedi helpu pobl ifanc i setlo a chael hyder yn y gweithle, a rheoli sefyllfaoedd anghyfarwydd neu heriol.

> "Pan fyddwch chi'n mynd i mewn gyda nhw [i'r gweithle], mae eu hyder, eu pennau'n codi oherwydd maen nhw'n dweud, 'Mae'n iawn, rydych chi'n dod gyda mi'...rwy'n meddwl bod hyn yn rhoi hyder iddyn nhw i ddweud, 'gallaf, gallaf wneud hyn'. Mae rhywun yno i ddangos iddyn nhw oherwydd rwy'n gwybod nad yw pobl bob amser yn deall y ffordd orau i esbonio rhywbeth i rywun [ag ADY]." (Anogwr gwaith)

2.41 Esboniodd staff o'r ddwy Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol, unwaith yr oedd yr anogwr gwaith wedi dynodi'r tasgau dyddiol allweddol y mae disgwyl i'r person ifanc eu cyflawni yn ei swydd, maent yn monitro cynnydd y person ifanc mewn cymhariaeth â'r rhain fel eu bod yn gwybod pan fyddant yn ddigon medrus wrth wneud y dasg yn annibynnol.

2.42 Wrth i lefel gallu'r person ifanc wrth gyflawni tasgau heb gymorth gynyddu, mae'r cymorth yn y gwaith yn cael ei dynnu'n ôl yn raddol. Pan na fydd yn mynd i'r lleoliad gyda'r person ifanc, mae'r anogwr gwaith yn cadw cysylltiad gyda'r person ifanc a'i gyflogwr yn wythnosol i wirio ei gynnydd a dynodi a oes unrhyw anghenion cymorth ychwanegol wedi codi. Mae'r person ifanc hefyd yn gallu cysylltu â'i anogwr gwaith ar unrhyw adeg i drafod unrhyw broblemau neu bryderon sydd ganddo/ganddi am y lleoliad gwaith.

**Perthynas gyda Chontractwyr**

2.43 Parhaodd dysgwyr yr astudiaethau achos i gael cymorth gan staff Contractwr TSC+ yn ystod eu cyfnod ar y cynllun treialu. Roedd y berthynas a lefel y cydweithio rhwng yr anogwr gwaith a'r Contractwr TSC+ yn amrywio.

2.44 Mewn un achos roedd y bartneriaeth wedi bod yn neilltuol o effeithiol. Roedd yr anogwr gwaith a'r Contractwr wedi gweithio ar y cyd i roi cymorth i'r person ifanc, gan gyfarfod yn wythnosol i adolygu a thrafod sut yr oedd yn symud tuag at ei nodau dysgu. Roedd y cyfathrebu'n effeithiol ac yn helpu i sicrhau bod y cymorth a roddwyd yn gydlyn. Er enghraifft, roedd gan y Contractwr a'r anogwr gwaith ddyddiadur yr oeddent yn ei rannu fel bod pawb yn glir pryd y byddai'r anogwr gwaith yn y ganolfan hyfforddi, a pha weithgareddau yr oedd yn eu cynllunio ar gyfer y person ifanc.

> “Mae’n dda eich bod yn gweithio gyda sefydliad arall ac yn gallu cryfhau’r berthynas [gyda’r Contractwr] hefyd. Felly rydych yn ymddangos yn fwy unedig, gyda’ch gilydd, os ydych chi’n deall beth rwyf yn ei feddwl.” (Anogwr gwaith)

2.45 Fe wnaeth y Contractwr ddynodi ac amlygu gweithgareddau oedd yn cael eu cynnig ar y safle hyfforddi a fyddai o fudd i’r person ifanc, fel eu bod yn gallu gweithio gyda’i gilydd ar set benodol o sgiliau. Pan oedd y berthynas yma’n gweithio’n dda, roedd yr anogwr gwaith a’r Contractwr yn rhagweithiol wrth amlygu unrhyw wersi allweddol o’r cymorth a gynigiwyd i’r person ifanc.

2.46 Awgryma’r cyfweliadau gydag un dysgwr astudiaeth achos bod y berthynas rhwng y Contractwr a’r anogwr gwaith heb weithio cystal. Yn yr enghraifft hon, y cyswllt allweddol yn y Contractwr oedd tiwtor dynodedig y person ifanc oedd wedi rhoi cymorth iddi ers iddi gysylltu gyntaf â TSC+, ac roedd yn parhau i chwarae rhan allweddol yn ei datblygiad, yn ystod ei hamser ar y cynllun treialu.

2.47 Arweiniodd heriau o ran cyfathrebu rhwng y tiwtor â’r anogwr gwaith at ddiffyg eglurder am swyddogaeth a phwy oedd yn gyfrifol am ddarparu gwahanol fathau o gymorth, fel rhan o’r cynllun treialu. Roedd hyn wedi achosi rhwystredigaeth i’r anogwr gwaith gan ei fod wedi treulio llai o amser gyda’r person ifanc nag a ragwelwyd. Roedd hyn wedi effeithio ar ei allu i ddatblygu perthynas gyda’r person ifanc a graddfa a’r mathau o gymorth y gallai eu cynnig. Mae’r anogwr gwaith a’r Contractwr yn awr yn gweithio gyda’i gilydd i wella cyfathrebu, fel bod yr anogwr gwaith yn gallu chwarae rhan fwy gweithredol wrth roi cymorth i’r person ifanc.

2.48 Mae’r adborth gan yr anogwr gwaith hwn, a’r Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol y mae’n gweithio iddi, yn awgrymu y gall fod diffyg eglurder am swyddogaeth yr anogwr gwaith ac y gall Contractwyr anogwyr gwaith gwahanol fod wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o gyflawni’r cynllun treialu, a/neu wedi dehongli gofynion y cynllun treialu yn wahanol. Dealltwriaeth gychwynnol yr anogwr gwaith oedd mai ei swyddogaeth oedd cynnig cymorth yn y gwaith yn unig. Credai, yn nodweddiadol, nad oedd y cymorth a roddid gan anogwyr gwaith i bobl ifanc ar y cynllun treialu yn mynd tu hwnt i hyn. Roedd yr Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol hefyd yn deall y byddai anogwyr gwaith yn gyfrifol am roi cymorth yn y gwaith, gyda

staff y Contractwr yn cynnal yr archwiliad cyntaf o anghenion person ifanc o ran cymorth a chefnogi ei ddatblygiad personol a chymdeithasol ehangach. Er mwyn datrys unrhyw gamddealltwriaeth, roedd y Contractwr wedi gweithio gyda'r Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol i ddatblygu proses gliriach ar gyfer cynnwys yr anogwr gwaith wrth roi cymorth i bobl ifanc ar y cynllun treialu.

**Beth wnaeth weithio'n dda**

2.49 Mae'r dull sy'n rhoi pwyslais ar yr unigolyn, a chynnig cymorth dwys, cyson, un i un wedi bod yn allweddol i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth yn llwyddiannus gyda phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu. Dynododd rhieni'r dysgwyr astudiaeth achos y berthynas dda a ddatblygwyd rhwng eu mab neu ferch a'i anogwr gwaith (a'r tiwtor dynodedig mewn un achos), fel elfen allweddol o'r cynnydd yr oeddent wedi ei wneud yn ystod y cynllun treialu.

2.50 Roedd yr ymdrech a wnaed gan yr anogwr gwaith (a'r tiwtor) i ddod i adnabod eu plentyn a'r hyn sy'n ei gymell yn cael ei werthfawrogi gan y rhieni. Amlygodd un rhiant sut yr oedd ei merch wedi cael ei thrin fel rhywun cyfartal gan ei hanogwr gwaith. Roedd hyn yn wahanol i'w phrofiadau yn yr ysgol ac roedd wedi cael effaith gadarnhaol ar ba mor dda yr oedd yn ymwneud â'r cymorth a faint o gynnydd a wnaeth. Roedd pobl ifanc hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith bod eu hanogwr gwaith wedi rhoi amser i ddod i'w hadnabod fel person ac i geisio ymgorffori pethau y maen nhw'n angerddol amdanyn nhw, fel chwaraeon a choginio, wrth gynllunio eu gweithgareddau.

2.51 Mae integreiddio gwahanol fathau o weithgareddau dysgu yn ffurfiol ac anffurfiol, a chreadigol wedi profi'n effeithiol wrth ennyn ymlyniad pobl ifanc i'r cymorth. Er enghraifft, disgrifiodd un anogwr gwaith sut yr oedd person ifanc wedi gofyn iddo wneud quiche gyda hi. Arweiniodd hyn at chwilio ar-lein am rysetiau, ac yna cynllunio taith ar y bws i'r siopau gyda'i gilydd, i brynu'r cynhwysion.

2.52 Mae addasu'r gweithgareddau yn ôl anghenion penodol y person ifanc a'r arddull dysgu sydd orau ganddynt wedi eu galluogi i wneud cynnydd yn gyflymach. Roedd rhieni'n hyderus bod yr anogwyr gwaith yn deall effeithiau ADY eu plentyn a sut y maent yn dysgu ac wedi teilwrio'r cymorth i fodloni eu hanghenion. Roedd y bobl ifanc a'u rhieni'n cydnabod bod anogwyr gwaith wedi gweithio ar gyflymder

cyfforddus i’r person ifanc. Mae hyn wedi helpu i gadw diddordeb y person ifanc ac mae’n sylfaenol i ddatblygu perthynas o ymddiriedaeth rhwng yr anogwr gwaith a’r person ifanc.

2.53 Roedd hyd yr amser yr oedd anogwyr gwaith wedi gweithio gyda dysgwyr yr astudiaeth achos hefyd wedi bod yn allweddol yn effeithiolrwydd y cynllun treialu. Un ffocws allweddol i bob anogwr gwaith oedd rhoi cymorth parhaus sy’n sicrhau bod y person ifanc yn dal i symud i gyfeiriad positif a chyflawni deilliannau da.

**Syniadau am welliannau**

2.54 Yn gyffredinol roedd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil yn gadarnhaol am y cynllun treialu a’r cymorth gan anogwyr gwaith, ac ychydig o awgrymiadau am welliannau oedd ganddynt.

2.55 Dynododd y Contractwr a’r anogwr gwaith ar gyfer un dysgwr astudiaeth achos yr angen i ddiffinio’r cymorth a gynigir trwy’r cynllun treialu yn glir a swyddogaeth a chyfrifoldebau’r gwahanol bartneriaid.

*2.56* Dywedodd nifer o’r rhieni y byddent yn hoffi gwybod mwy am y math o gymorth/weithgareddau yr oedd eu mab/merch yn cymryd rhan ynddynt yn y cynllun treialu, yn arbennig yng nghyswllt hyd disgwyliedig y cymorth a phryd y maent yn symud i wahanol gyfnodau’r cymorth (er enghraifft i leoliad gwaith). Ers y cyfarfod cyflwyno yr oedden nhw wedi mynd iddo gyda’r anogwr gwaith, nid oedd rhieni wedi clywed yn uniongyrchol gan yr anogwr gwaith. Nid oedd pobl ifanc yn cyfleu manylion am y cymorth yn effeithiol, yn arbennig oherwydd eu ADY, ac o ganlyniad, mae rhieni weithiau’n teimlo nad ydynt yn deall y ddarpariaeth yn iawn. Roedd hyn yn bwysig i rieni oedd yn chwilio am sicrwydd o addasrwydd y gweithgareddau i’w plentyn a sut y byddai gweithgareddau’n cael eu haddasu i fodloni eu hanghenion.

**Casgliadau**

2.57 Roedd yr anogwyr gwaith yn cynnig cymorth amrywiol i ddysgwyr yr astudiaeth achos i gynyddu hyder, dod yn fwy annibynnol, datblygu sgiliau hanfodol ar gyfer gwaith a bywyd bob dydd ac i gael profiad gwaith mewn amgylchedd cefnogol.

2.58 Roedd y cymorth yn rhoi’r pwyslais ar yr unigolyn er mwyn ymateb i’r anghenion, nodau ac arddulliau dysgu penodol oedd gan bob person ifanc.

2.59 Roedd cydweithio effeithiol rhwng yr anogwr gwaith a staff y Contractwr yn helpu i sicrhau pecyn integredig o gymorth i'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu, gan amlygu pwysigrwydd partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i helpu pobl ifanc i gynnal eu cynnydd, gan gynnwys unrhyw gymorth y gallai'r bobl ifanc fod yn ei gael tu allan i'r cynllun treialu/TSC+.

2.60 Mae'r ansicrwydd am swyddogaeth benodol y Contractwr a'r anogwr gwaith wrth roi cymorth i un person ifanc yn pwysleisio pwysigrwydd rhoi cyfarwyddyd clir ar nodau ymyrraeth a swyddogaethau a chyfrifoldebau gwahanol bartneriaid.

2.61 Roedd rhieni a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu. Roedd elfennau cadarnhaol am berthynas y person ifanc gyda'r anogwr gwaith a'r ffordd yr oedd wedi teilwrio'r cymorth yn ôl eu hanghenion a'u diddordebau.

2.62 Byddai rhieni'n gwerthfawrogi cyfathrebu mwy cyson ac uniongyrchol am y cymorth/gweithgareddau y mae eu mab neu ferch yn ei gael/eu gwneud gyda'r anogwr gwaith a'r cynnydd y maent yn ei wneud.

**Deilliannau'r cynllun treialu**

2.63 Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar ddeilliannau'r cynllun treialu. Mae'r rhan gyntaf yn amlinellu'r canfyddiadau am ddeilliannau i ddysgwyr, sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o gyfweliadau gyda'r rhai sy'n rhan o'r astudiaethau achos – pobl ifanc, eu rhieni, anogwyr gwaith, staff Contractwyr oedd wedi rhoi cymorth iddynt a chyflogwyr.

2.64 Mae ail ran yr adran hon yn archwilio deilliannau i staff oedd yn cymryd rhan yn yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu. Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar gyfweliadau gyda staff Contractwyr TSC+.

**Deilliannau'r cynllun treialu i ddysgwyr**

2.65 Yn ystod eu hamser ar y cynllun treialu, parhaodd dysgwyr yr astudiaethau achos i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chael cymorth gan staff Contractwyr, ochr yn ochr â chymorth gan anogwyr gwaith. Roedd pobl ifanc oedd wedi cwblhau lleoliad gwaith wedi cael cymorth gan gyflogwyr hefyd. Mae'r gwahanol elfennau hyn o gymorth, gyda'i gilydd, yn debygol o fod wedi cyfrannu at y cynnydd a wnaed gan

bobl ifanc. Ond, ar gyfer y gwerthusiad, gofynnwyd i'r rhai oedd yn rhan o'r astudiaeth achos i ddynodi deilliannau oedd yn gysylltiedig yn benodol â'r cymorth a gynigiwyd gan yr anogwr gwaith.

2.66 Dynododd y rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ystod o ffyrdd yr oedd y cymorth a roddwyd trwy'r cynllun treialu wedi helpu pobl ifanc i ddatblygu'r sgiliau, profiad a'r hyder y mae arnynt eu hangen i wneud cynnydd tuag at gael cyflogaeth. Roedd y manteision a ddynodwyd yn cynnwys datblygu sgiliau meddal, gwell sgiliau hanfodol a chynnydd o ran parodrwydd am waith.

**Gwell hyder**

2.67 Dywedodd rhieni dysgwyr yr astudiaeth achos bod cymryd rhan yn y cynllun treialu wedi bod yn gatalydd i newidiadau cadarnhaol yn eu plentyn. Dynodwyd mai gwell hyder oedd yr effaith mwyaf arwyddocaol a chadarnhaol, gan wneud gwahaniaeth dwys i'r bobl ifanc. Er enghraifft, roedd dau o ddysgwyr yr astudiaethau achos wedi cael trafferth gyda diffyg hunan-barch cyn cymryd rhan yn y cynllun treialu ac roeddent yn cael cyfnodau o amser pan oeddent prin yn gadael y tŷ. Ers ymuno â'r cynllun treialu, roedd pob un o'r bobl ifanc yma wedi datblygu'r hyder i fynd i safle hyfforddi'r Contractwr ar eu pen eu hunain, ac yn gyson, i gyfarfod eu hanogwr gwaith.

2.68 Disgrifiodd staff Contractwyr, anogwyr gwaith a rhieni sut yr oedd y cynnydd mewn hyder wedi arwain at weld y bobl ifanc yn cymryd camau tuag at ddod yn fwy annibynnol. Er enghraifft, roedd un person ifanc wedi cynllunio taith fws ar ei ben ei hun. Roedd person ifanc arall wedi dechrau mynd allan ar ei ben ei hun, am y tro cyntaf.

> "...mae'n gofyn am gael mynd i gyfarfod ei dad o'i waith, mae'n 15 munud o gerdded, fyddai o byth yn gwneud hynny cynt, a nawr fe fydd yn mynd allan ar ei ben ei hun ac fe wneith gerdded i'r siop ar ei ben ei hun sy'n rhyfeddol, oherwydd, 12 mis yn ôl fyddai e byth yn gwneud hynny." (Rhiant)

2.69 Roedd y bobl ifanc eu hunain hefyd yn nodi bod eu hunanhyder wedi cynyddu.

> "Cyn [cael cymorth gan yr anogwr gwaith], roeddwn yn nerfus iawn ond mae hi [enw'r anogwr gwaith] wedi helpu llawer arnaf. Rwyf yn fwy hyderus." (Person ifanc)

2.70 Esboniodd un person ifanc sut yr oedd y cymorth a gafodd gan yr anogwr gwaith wedi ei helpu i reoli sefyllfaoedd newydd gyda phobl nad oedd wedi eu cyfarfod o'r blaen.

> "Rwy'n hoffi bod gennyf yr hyder nawr i siarad mwy gyda phobl, oherwydd nid oeddwn i fyth yn siarad gyda phobl nad oeddwn yn eu hadnabod pan gychwynnais [gael cymorth gan anogwr gwaith]," (Person ifanc)

2.71 Disgrifiodd un arall sut yr oedd wedi mynd allan am y diwrnod gyda ffrind a theimlo'n fwy sicr o'i allu i ymdopi â thalu am bethau heb riant yn bresennol.

2.72 Effaith cadarnhaol ychwanegol y cymorth i bobl ifanc a gyfwelwyd yw eu bod wedi creu cyfeillgarwch newydd ymhlith eu cyfoedion, sy'n mynd i safle'r Contractwyr. Nid oedd y bobl ifanc yma o angenrheidrwydd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu, ac nid oedd ganddynt ADY bob amser. Mynegodd dau o'r rhieni a gyfwelwyd bryderon nad oedd gan eu plentyn grŵp eang o ffrindiau cynt ac maent wedi eu calonogi o glywed eu mab neu ferch yn dod gartref ac yn sôn am y ffrindiau newydd sydd ganddynt.

**Datblygiad personol**

2.73 Cofnododd staff y Contractwyr a'r anogwyr gwaith bod pob un o ddysgwyr yr astudiaethau achos wedi datblygu eu hunan wybodaeth. Credant bod hyn wedi helpu i ysgogi ymddygiadau cadarnhaol eraill fel bod yn fwy parod i roi cynnig ar bethau newydd.

> "Rwyf yn meddwl bod [enw'r person ifanc] yn fwy ymwybodol o'r math o berson yw hi, a'r hyn y mae'n ei hoffi, a'r hyn nad yw'n ei hoffi. Ac rwy'n meddwl bod hynny yn rhan fawr, yn rhan allweddol o'r rhaglen hon [cymorth anogwr gwaith], trwy ddysgu pwy ydyn nhw, a'r hyn yr ydych am fod" (Contractwr)

Esboniodd un rhiant sut yr oedd wedi synnu'n neilltuol ar lefel y cynnydd y mae ei merch wedi ei wneud ers cymryd rhan yn y cynllun treialu, a'i fod wedi mynd tu hwnt i'w disgwyliadau.

> "o ran ei thwf personol, mae [cymryd rhan yn y cymorth] wedi mynd tu hwnt [i'm disgwyliadau]...y sgiliau llai diriaethol sy'n anos rhoi eich bys arnyn nhw yw'r peth, amdanyn nhw fel person." (Rhiant)

**Rheoli effaith ADY**

2.74 Dynododd pob un o ddysgwyr yr astudiaethau achos bod cymorth gan eu hanogwr gwaith wedi eu helpu i oresgyn rhai o'r heriau yr oeddent wedi eu profi o ganlyniad i'w anabledd/anhawster dysgu a/neu awtistiaeth. Er enghraifft, defnyddiodd un person ifanc strategaethau a ddysgwyd gyda chymorth ei anogwr gwaith, i reoli pryder yn gysylltiedig â'i awtistiaeth. Roedd hyn wedi ei helpu i ymdopi yn dawelach â sefyllfaoedd y mae'n eu cael yn heriol.

2.75 Dynododd y rhieni hefyd ffyrdd y mae cymorth yr anogwr gwaith wedi helpu eu plentyn i oresgyn rhwystrau yn gysylltiedig â'u ADY. Disgrifiodd rhiant y plentyn ag awtistiaeth sut, ers cymryd rhan yn y cynllun treialu, y mae wedi dangos mwy o wytnwch wrth ymdopi â phryder, yn gysylltiedig â mynd i safle'r Contractwr.

> "Felly rydym wedi mynd o [enw'r person ifanc] yn bod yn wirioneddol bryderus a digalon a ddim eisiau dod i mewn [i safle'r Contractwr], yna yn dod beth bynnag oherwydd ei fod yn rhywbeth y mae'n gwybod ei fod am ei wneud, felly fe wnaeth wthio ei hun...yna mae'n dod adref ac fel mae'n digwydd nid oedd yn ddiwrnod rhy ddrwg wedi'r cwbl...mae wedi troi'r peth wyneb i waered." (Rhiant).

2.76 Disgrifiodd tiwtor y person ifanc oedd a shunt ymennydd oherwydd cyflwr meddygol sut yr oedd y person ifanc ar y dechrau yn betrus o ymuno mewn gemau tîm gyda phobl ifanc eraill gan ei bod yn bryderus y byddai hyn yn taro'r shunt. Ond, ar ôl iddi gael hyder y byddai'r bobl ifanc yn ystyried hyn, roedd yn barod iawn i ymuno â nhw. Arweiniodd hyn at weld y person ifanc yn dod yn fwy hyderus am siarad am effaith ei hanghenion meddygol gyda phobl nad oedd wedi eu cyfarfod o'r blaen.

**Datblygu sgiliau hanfodol**

2.77 Cododd staff Cymru'n Gweithio a Chontractwyr bryderon bod y lefel o lythrennedd a rhifedd sy'n ofynnol i symud ymlaen trwy wahanol gamau TSC+ wedi creu rhwystrau i atal rhai pobl ifanc rhag cymryd rhan yn y cynllun treialu. Dynododd anogwyr gwaith a'r tiwtor dynodedig oedd yn gweithio gydag un dysgwr astudiaeth achos mai'r nodau dysgu yn ymwneud â gwella lefelau rhifedd, llythrennedd a datblygu sgiliau digidol oedd fwyaf heriol i'r dysgwyr astudiaethau achos eu cyflawni. Mewn rhai achosion, roedd anogwyr gwaith yn rhoi cymorth un i un i bobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y dosbarth ar safle'r Contractwr i ddatblygu'r sgiliau hyn a rhoi hwb i lefel eu cyrhaeddiad. Ond, roeddent yn cydnabod y gall rhai pobl ifanc fod angen rhagor o gymorth i wneud y cynnydd gofynnol, yn ychwanegol at yr hyn y mae anogwyr gwaith a staff Contractwyr yn gallu eu cynnig.

**Bod yn barod ar gyfer byd gwaith?**

2.78 Cofnododd rhieni dau o'r dysgwyr astudiaethau achos bod eu mab neu ferch wedi datblygu nodau gyrfa wedi eu diffinio'n gliriach ac yn fwy parod i ddynodi cyfleoedd gwaith addas ers iddynt ymuno â'r cynllun treialu. Er enghraifft, maent wedi defnyddio sgiliau chwilio am waith yn annibynnol, a ddatblygwyd gyda chymorth eu hanogwr gwaith. Roedd un person ifanc wedi canfod cyfleoedd posibl ar gyfer gwaith penwythnos ac wedi cysylltu â'r cyflogwyr yma gan fynd â'i CV gyda hi.

2.79 Dynododd anogwyr gwaith dau o ddysgwyr yr astudiaethau achos, a thiwtor dynodedig un o'r bobl ifanc yma, ddeilliannau cadarnhaol yn deillio o gymryd rhan mewn lleoliadau gwaith. Roedd y lleoliad wedi helpu'r ddau berson ifanc i weld eu hunain yn y gweithle. Roedd un person ifanc wedi bod ar leoliad gwaith mewn meithrinfa cyn oed ysgol am nifer o fisoedd ar yr adeg y rhoddwyd cyfweliad iddi, roedd ei hyder wedi cynyddu ac roedd wedi datblygu hunangred am ei gallu i gyflawni'r tasgau oedd yn ofynnol ar gyfer y gwaith. Roedd y lleoliad hefyd wedi helpu i gadarnhau ei dyhead i chwilio am waith yn y sector.

2.80 Cafodd y llall ddealltwriaeth ddefnyddiol o batrymau a deinameg gweithle. Roedd hyn yn rhywbeth yr oedd hi'n ei weld yn heriol ar y dechrau, ond fe wnaeth ei galluogi i feddwl mwy am y math o waith y byddai'n hoffi ei wneud. Yn dilyn hynny

cafodd y cyfle i ymgeisio am leoliad am fis gydag adwerthwr amlwg ar y stryd fawr a theimlai yn hyderus wrth gyflwyno cais gyda chymorth ei thiwtor. Aeth i'r cyfweliad ar ei phen ei hun a chynigiwyd y lleoliad iddi. Roedd y tiwtor yn rhagweld y gall y lleoliad hwn arwain at gynnig cyflogaeth barhaol.

**Beth wnaeth weithio'n dda: gweithgareddau ac elfennau'n cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol**

2.81 Fel yr amlinellwyd yn yr adran gynharach am gymorth yr anogwr gwaith, mae'r pwyslais y mae anogwyr gwaith yn ei roi ar gynyddu ymddiriedaeth a pherthynas â'u dysgwyr, a'u cael i gymryd rhan mewn gweithgareddau sydd wedi eu strwythuro mewn ffordd ac ar gyflymder sy'n addas i'w hanghenion dysgu, yn allweddol i gadw diddordeb y grŵp hwn o ddysgwyr, ac i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

2.82 Nid oes cyfyngiad amser ar y cymorth a gynigir gan anogwyr gwaith (o fewn fframwaith amser cyffredinol y cynllun treialu), a wnaeth alluogi pobl ifanc ar y cynllun treialu i gael mynediad at gymorth am cyn hired ag yr oedd arnynt ei angen. Roedd hefyd yn rhoi amser a hyblygrwydd i'r anogwyr gwaith i ganolbwyntio ar ddatblygu'r person cyflawn, ac yr oeddent yn cydnabod hynny fel agwedd hanfodol o'r cymorth. Roedd y pwyslais hwn ar yr unigolyn yn allweddol wrth roi cymorth i ddysgwyr yr astudiaethau achos i gyflawni deilliannau cadarnhaol.

2.83 Roedd dysgwyr yr astudiaethau achos yn gwerthfawrogi gweithgareddau oedd â chysylltiad clir â'u diddordebau unigol ac roedd y mathau hyn o weithgareddau yn aml yn rhoi cymorth i bobl ifanc ddatblygu eu sgiliau heb sylweddoli hynny. Roedd anogwyr gwaith yn amgyffred bod hyn yn helpu i oresgyn agweddau a/neu brofiadau negyddol o ddysgu ffurfiol y gallai rhai dysgwyr ag ADY fod wedi eu profi o'r blaen,

2.84 Roedd cymorth yn y gwaith yn helpu dysgwyr yr astudiaethau achos i setlo yn eu lleoliad gwaith a chynnal eu diddordeb. Trwy hyn, roeddent yn cael profiad a dealltwriaeth o fyd gwaith, gyda'r cysur y gallent gael cyngor gan eu hanogwr gwaith os oedd unrhyw beth yr oeddent yn ei weld yn arbennig o heriol neu eu bod yn ansicr ohono.

**Deilliannau'r cynllun treialu i staff**

2.85 Mae'r canfyddiadau yn yr adran hon yn seiliedig ar gyfweliadau gyda staff Contractwyr oedd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant[4] a gyllidwyd trwy'r cynllun treialu a thystiolaeth o'r adolygiad cyflym o ddogfennau. Roedd y staff a gyfwelwyd wedi cymryd rhan mewn gwahanol edefyddion o'r hyfforddiant (gweler adran 1.6 am fanylion yr hyfforddiant oedd ar gael); roedd yr holl staff wedi cael hyfforddiant yn y model anogwr cyflogaeth gefnogol ac ymwybyddiaeth anabledd, ynghyd â chyfuniad o gyrsiau eraill a gynigiwyd. Nid oedd unrhyw un o'r staff Contractwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn wedi sôn am gymryd rhan mewn hyfforddiant anogwr gwaith a dadansoddi tasgau.

2.86 Roedd y farn am fanteision yr hyfforddiant yn gymysg. Roedd staff â phrofiad o roi cymorth i bobl ifanc ag ADY, cyn yr hyfforddiant, yn fwy tebygol o fod yn ansicr am ei werth. Roedd rhai elfennau o'r hyfforddiant yr oeddent wedi ei ddilyn, fel mentora, ymwybyddiaeth o anabledd a rheoli gwrthdaro, yn ailadrodd elfennau o gyrsiau hyfforddi blaenorol. Ni allent, felly, gysylltu'r hyfforddiant hwn â theimlo'n fwy hyderus wrth roi cymorth i ddysgwyr gydag anableddau dysgu cymedrol / difrifol ac awtistiaeth. Ond, fe wnaethant weld bod dod â'r hyn yr oeddent wedi ei ddysgu o'u profiad eu hunain a hyfforddiant cynharach, at yr hyn a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu, yn ddefnyddiol.

> "Felly hyd yn oed os oedd un peth yr oedden nhw wedi hyfforddi ynddo o'r blaen, roedd gweld hynny yng nghyd-destun pynciau eraill o gymorth gwirioneddol. Roedd yn eu helpu i wneud y cysylltiadau hynny mewn cymorth a chyfarwyddyd. Felly'r adborth a gefais gan y ddau aelod o staff [a gymerodd ran yn yr hyfforddiant] oedd ei fod yn ddefnyddiol ac yn ddefnyddiol yn ddyddiol yn eu swydd." (Staff Contractwr)

2.87 Dynododd staff llai profiadol fanteision penodol yr hyfforddiant, gan gynnwys mwy o wybodaeth am ADY a gwell hyder yn eu gallu i roi cymorth i bobl ifanc ag anghenion mwy difrifol/cymhleth. Er enghraifft, fe wnaethant ddisgrifio gallu

---

[4] Nid oedd y Contractwyr yn cael defnyddio'r cyllid i staff gael cymhwyster, ond roeddent yn cael dilyn hyfforddiant a chyrsiau eraill oedd yn cyd-fynd â nodau'r cynllun treialu.

defnyddio dull mwy ystyriol ac ar sail gwybodaeth wrth gynllunio'r cymorth i bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu.

2.88 Esboniodd y staff sut yr oedd yr hyfforddiant wedi eu helpu i ddynodi ffyrdd y gallent ddefnyddio'r hyn yr oeddent wedi ei ddysgu yn ymarferol, i roi cymorth i bobl ifanc ar y cynllun treialu. Er enghraifft, dywedodd un a gymerodd ran, oedd wedi cymryd rhan yn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd, ei fod wedi cael gwell dealltwriaeth o bwysigrwydd teilwrio'r cymorth i fodloni anghenion dysgu unigol a phwysigrwydd pwyslais ar y dysgwr, mewn ffordd nad oedd wedi ei gwerthfawrogi'n llawn o'r blaen.

> "Nid wy'n meddwl ein bod wedi deall y person fel unigolyn yn iawn [cyn y dull o roi pwyslais ar y dysgwr a amlinellwyd yn yr hyfforddiant] felly, yn awr, rydym yn rhoi pethau yn eu lle, felly fe fyddwn yn dweud mai dyma wyf fi wedi ei ddysgu fwyaf o'r hyfforddiant." (Staff Contractwr)

2.89 Roedd rhai o staff y Contractwyr wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r hyfforddiant i adolygu polisïau a gweithdrefnau mewnol, yn neilltuol o gwmpas sut i ddatblygu CDU i bobl ifanc a gyfeiriwyd at y cynllun treialu i sicrhau bod manylion am eu ADY yn cael eu hadlewyrchu. Datblygodd rhai hefyd hyfforddiant mewnol i raeadru'r hyn a ddysgwyd i staff y Contractwyr yn ehangach, tra bod eraill wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd i addasu adnoddau oedd ganddynt yn barod i bobl ifanc ag ADY. O ganlyniad roeddent yn amgyffred bod eu tîm staff yn awr yn fwy hyderus wrth roi cymorth i bobl ifanc ag ADY.

### Syniadau am welliannau

2.90 Yn gyffredinol byddai'r staff a gyfwelwyd yn croesawu hyfforddiant ychwanegol a mwy manwl ar sut i roi cymorth o ran anghenion penodol iawn pobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu a'r heriau y gallant eu hwynebu wrth roi cymorth i'r grŵp hwn o ddysgwyr.

2.91 Roedd staff Cymru'n Gweithio a'r Contractwyr yn rhagweld mwy o angen am gymorth emosiynol/iechyd meddwl a llesiant, i bobl ifanc yn deillio o effeithiau'r pandemig; gall yr effeithiau hyn fod yn waeth i bobl ifanc ag ADY. Dynododd y staff angen am hyfforddiant ychwanegol i'w helpu i gefnogi anghenion iechyd meddwl yn y modd gorau.

### Casgliadau

2.92 Arweiniodd cymryd rhan yn y cynllun treialu at ddeilliannau cadarnhaol i ddysgwyr yr astudiaethau achos, gan gynnwys mwy o hyder, a datblygiad cymdeithasol, emosiynol a phersonol; datblygu sgiliau cyflogadwyedd; a chynnydd o ran parodrwydd am waith. Roedd dysgwyr yr astudiaethau achos yn gallu dychmygu eu hunain yn y gweithle yn well a rhoddodd staff y Contractwyr asesiad eu bod yn gwneud cynnydd da tuag at ddeilliannau cyflogaeth.

*2.93* Mynegodd y staff farn gymysg am effaith yr hyfforddiant a roddwyd trwy'r cynllun treialu. Ond, roedd y rhai â phrofiad blaenorol cyfyngedig o roi cymorth i bobl ifanc ag anabledd/anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth, yn teimlo eu bod wedi paratoi'n well i roi cymorth i bobl ifanc ag ADY yn dilyn yr hyfforddiant ac roeddent wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn eu gwaith. Byddai mynediad at sesiynau hyfforddi wedi eu teilwrio ymhellach yn canolbwyntio ar anghenion dysgu penodol, a hyfforddiant i helpu iechyd meddwl pobl ifanc, yn galluogi staff i ddatblygu eu hyder ymhellach wrth roi cymorth i bobl ifanc anabl a phobl ifanc ag ADY.

## 3. Casgliadau ac argymhellion

3.1 Mae'r adran hon yn dwyn y casgliadau o'r ymchwil at ei gilydd ac yn nodi cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru i fod yn sail i bolisi a dylunio a chyflwyno rhaglenni yn y dyfodol i roi cymorth i bobl ifanc ag anableddau/anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth symud ymlaen at ddeilliannau cadarnhaol.

3.2 Mae'r Adroddiad Asesu a Chyfeirio'n offeryn cyfeirio cynhwysfawr, ond, mae'r modd y mae'r ffurflen yn cael ei llenwi yn anghyson ac felly mae bylchau yn aml yn arbennig am anghenion dysgu a chymorth penodol y bobl ifanc sydd ag anghenion mwy difrifol/cymhleth. Cyfeirio yw cam cyntaf proses barhaus o ddynodi, asesu ac adolygu anghenion, nodau a dyheadau pobl ifanc. Ond, dylai'r wybodaeth a gesglir ar y cam hwn fod mor fanwl ag sy'n bosibl i sicrhau bod gan Gontractwyr ddealltwriaeth dda ac y gallant roi cymorth addas, wedi ei deilwrio yn ei le o ddechrau'r ymyrraeth. Mae arfer da'n awgrymu y dylai rhieni fod yn rhan o'r sgyrsiau cyfeirio cychwynnol gyda chynghorwyr Cymru'n Gweithio, ac wrth lenwi'r ffurflen Adroddiad Asesu a Chyfeirio, i sicrhau bod y wybodaeth mor gyflawn â phosibl.

**1. Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfarwyddyd i Cymru'n Gweithio am gynnwys rhieni yn y cyfarfod cyntaf, a'r mathau o wybodaeth ddylai gael ei chynnwys/dyfnder yr asesiad ddylai gael ei gynnal ar gyfer yr Adroddiad Asesu a Chyfeirio**. **Dylai'r cyfarwyddyd hefyd gynnwys nodau'r cymorth, y grwpiau targed ac at bwy y dylid cyfeirio, i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at y cymorth priodol yn dilyn diwedd y cynllun treialu, ym Mawrth 2023.**

3.3 Mae staff Cymru'n Gweithio a Chontractwyr wedi nodi bod y nifer a gyfeiriwyd at y cynllun treialu wedi bod yn is nag a ragwelwyd a chodwyd pryderon nad oedd rhai pobl ifanc a allai gael budd o'r cynllun treialu, ac a oedd fwyaf o angen cymorth, yn gwybod amdano.

**2. Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd dulliau gwahanol a ddefnyddir i hyrwyddo'r cynllun treialu a chynlluniau yn y dyfodol ar gyfer y grŵp hwn o ddysgwyr. Yn y dyfodol, dylid rhoi gwybodaeth glir am nodau cynlluniau newydd, yr amserlen a hyd y cymorth, beth mae'n ei olygu,**

**at bwy y mae wedi ei anelu ac at bwy y dylid cyfeirio. Dylai'r wybodaeth hon gael ei chyfleu i'r holl randdeiliaid.**

3.4 Dynododd Contractwyr fanteision adolygiadau misol o'r CDU i adeiladu ar wybodaeth/ddealltwriaeth o anghenion cymorth y bobl ifanc a gafwyd wrth iddynt gael eu cyfeirio. Mae adolygiadau cyson yn rhoi cyfle i ddysgwyr rannu rhagor o wybodaeth a'r newid yn yr anghenion/nodau wrth iddynt gael mwy o ffydd yn y staff a chael gwell dealltwriaeth o'r mathau o gymorth y gall anogwyr gwaith eu rhoi. Mae dysgu o adolygiadau hefyd yn hanfodol i ddiweddaru a bod yn sail i newidiadau i'r CDU a chynlluniau cymorth anogwyr gwaith.

**3. Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhoi cyfarwyddyd i Gontractwyr sy'n rhoi cymorth i bobl ifanc ag ADY i sicrhau bod CDU yn cael eu diweddaru yn systematig a chyson. Rhannodd Contractwyr yn yr astudiaethau achos ddeilliannau CDU gydag anogwyr gwaith, yn dilyn adolygiad. Dylai'r cyfarwyddyd hefyd gynnwys argymhelliad y dylai anogwyr gwaith fynychu cyfarfodydd adolygu i rannu eu dealltwriaeth/cynnydd o weithgareddau y maent wedi eu cynnal gyda'r bobl ifanc a sicrhau eu bod yn rhan o drafodaethau i fod yn sail i newidiadau i'r cymorth/nodau dysgu.**

3.5 Mae cymorth i ddatblygu annibyniaeth yn agwedd allweddol o'r cymorth a roddir gan anogwyr gwaith ac yn hanfodol i bobl ifanc gael deilliannau cadarnhaol, gan gynnwys deilliannau cyflogaeth. Ond, mae'r ymchwil yn dynodi bod rhieni pobl ifanc ag anghenion mwy difrifol/cymhleth yn teimlo bod arnynt angen cyfathrebu mwy cyson ac uniongyrchol am y mathau o weithgareddau y mae pobl ifanc yn eu gwneud, yn rhannol i leddfu unrhyw bryderon sydd ganddynt am weithgareddau penodol ond hefyd i gael gwell dealltwriaeth am nodau'r cymorth, a'r cynnydd a wnaed gan y person ifanc tuag at nodau dysgu.

**4. Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chontractwyr i archwilio ffyrdd o wella'r cyfathrebu parhaus a'r modd y cynhwysir rhieni wrth siapio'r cymorth, gan ystyried y cydbwysedd rhwng hyrwyddo annibyniaeth a rhoi gwybodaeth i rieni.**

3.6 Dengys yr ymchwil werth cymorth hyblyg, un i un, dwys, wrth helpu'r cohort hwn o ddysgwyr i gyflawni deilliannau cadarnhaol a gwneud cynnydd tuag at/sicrhau

cyflogaeth o safon barhaol. Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn amlygu effeithiolrwydd yr amrywiaeth o weithgareddau a'r ystod o gymorth a roddwyd gan anogwyr gwaith. Yn ychwanegol, mae hyblygrwydd y cyllid yn galluogi i gymorth gael ei roi ar gyflymder sy'n bodloni anghenion dysgwyr unigol, heb gyfyngiadau amser.

**5. Argymhelliad: Dylai'r dull hwn sy'n rhoi'r pwyslais ar yr unigolyn/yn cael ei arwain gan anghenion a'r potensial i gefnogi person ifanc am gyfnod estynedig fod yn ganolog i ddylunio a darparu cynlluniau cefnogi cyflogaeth i bobl ifanc anabl.**

3.7 Pan oedd y Contractwr â'r anogwr gwaith yn gweithio'n glos gyda'i gilydd, arweiniodd hyn at becyn effeithiol ac integredig o gymorth i'r person ifanc.

**6. Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dylunio a darparu darpariaeth yn y dyfodol yn cynnwys cymorth diwnïad gan Gontractwyr, cymorth anogwr gwaith arbenigol ac unrhyw gymorth allanol/arbenigol ychwanegol a ddefnyddir gan y person ifanc yn ystod eu hamser ar yr ymyrraeth.**

3.8 Mae data cadarn yn hanfodol i ddeall y niferoedd a nodweddion y bobl ifanc sy'n cymryd rhan, deilliannau/effaith a gwerth am arian cynlluniau a ddyluniwyd i gynyddu'r nifer o bobl ifanc ag anabledd/anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth sy'n symud i brentisiaethau/cyflogaeth gynhwysol.

**7.Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau cydymffurfio â gofynion data LLWR a bod systemau a phrosesau data cadarn yn eu lle i wella ansawdd y data ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol, ac i fonitro a dadansoddi cynnydd pobl ifanc ag ADY ar TSC+, tu hwnt i ddiwedd y cynllun treialu.**

3.9 Mynegodd y staff farn gymysg am effeithiolrwydd yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu, gan ddibynnu ar lefel eu profiad o weithio gyda phobl ifanc gydag ADY. Roedd gan staff llai profiadol well dealltwriaeth o anghenion pobl ifanc ag anableddau/anawsterau dysgu cymedrol i ddifrifol a/neu awtistiaeth ac yn teimlo eu bod wedi eu paratoi'n well i roi cymorth iddynt. Ond, teimlent y byddai hyfforddiant pellach yn fuddiol i archwilio anghenion dysgu penodol yn fwy trylwyr, a sut i reoli

heriau a wynebwyd wrth roi cymorth i bobl ifanc ag anghenion gwahanol. Dynododd staff Contractwyr bod yr anghenion iechyd meddwl yn gynyddol ymhlith pobl ifanc oedd yn ymwneud â’r cynllun treialu a TSC+ yn fwy cyffredinol, yn arbennig ar ôl y pandemig, a byddent yn croesawu hyfforddiant ychwanegol ar gefnogi iechyd meddwl/llesiant pobl ifanc.

**8.Argymhelliad: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod hyfforddiant yn cael ei dargedu ar staff fydd yn cael mwyaf o fudd ohono, ac yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod yr hyn a ddysgir o’r hyfforddiant yn cael ei raeadru i’r staff yn ehangach. Dylai hyn gynnwys hyfforddiant a chymorth ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, a chymorth i bobl ifanc ag anghenion dysgu penodol. Yn ychwanegol, dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Chontractwyr i sicrhau bod cyswllt /cyfeirio at wasanaethau cymorth iechyd meddwl arbenigol yn effeithiol. Dylai hyn fod yn rhan allweddol o ddylunio a darparu rhaglenni yn y dyfodol i’r grŵp hwn o ddysgwyr.**

3.10 Dangosodd y gwerthusiad y gall cymorth gan anogwr gwaith arbenigol fod yn effeithiol wrth roi cymorth i bobl ifanc anabl i oresgyn y rhwystrau sy’n eu hatal rhag cael cyflogaeth, i gyflawni deilliannau cadarnhaol, a gwneud cynnydd tuag at sicrhau a chadw gwaith.

**9. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnal ymchwil pellach i archwilio effaith y cymorth a gynigiwyd trwy’r cynllun treialu ar ddeilliannau yn y tymor hwy i’r cohort hwn, a pha mor drosglwyddadwy yw’r model i grwpiau eraill o ddysgwyr.**

## Atodiad A – Topic guides

# Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau staff darparwr

### Gwybodaeth i'r ymchwilydd

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Cychwynnodd y Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r cynllun treialu wedi dal i redeg fel rhan o raglen TSC+.  Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

### Cyflwynwch ddiben y cyfweliad

Byddwn yn datblygu astudiaethau achos am bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu a nod y cyfweliad gyda chi heddiw yw cael gwybod rhagor am eich profiad o gefnogi un o'r bobl ifanc yma.

Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Deilliannau/nodau dysgu a dargedwyd ac anghenion cefnogaeth dysgwr yr astudiaeth achos
- Y mathau o gefnogaeth anogwr gwaith a roddwyd
- Pa fath o gefnogaeth oedd yn gweithio'n dda, a ddim cystal
- Mynediad at ac effaith hyfforddiant staff
- Manteision a deilliannau'r gefnogaeth i'r dysgwr a amgyffredwyd
- Syniadau i wella'r gefnogaeth

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

### Cyfrinachedd a chaniatâd

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:

Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei wneud ar recordydd wedi ei amgryptio a'i uwchlwytho i'n gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

1. Yn gyntaf, a allwch chi ddweud ychydig wrthyf amdanoch chi a'ch swyddogaeth, pa mor hir ydych chi wedi bod yn gweithio i [rhowch enw'r darparwr]?

*Cyn i ni siarad am eich profiad o weithio gyda [rhowch yr enw] a'i ran yn y cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol, byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am y broses asesu gychwynnol ar gyfer y cynllun treialu TSC+/Cyflogaeth Gefnogol.*

## Cyfeiriad at Anogwr Gwaith

*Yn gyntaf hoffwn holi am y mathau o wybodaeth a gesglir am anghenion dysgu a datblygu'r person ifanc pan fydd yn ymuno â TSC+, a sut y defnyddiwyd y wybodaeth i ddynodi anghenion cefnogaeth unigol, i fod yn sail i nodau dysgu ac i siapio'r rhaglen iddo ef/hi.*

*Yna byddwn yn hoffi deall y broses o gyfeirio'r person ifanc at anogwr gwaith arbenigol Rydym yn gwybod, fel rhan o'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol, bod pobl ifanc sy'n cael eu cyfeirio at TSC+ sy'n cael eu hasesu fel rhai ag 'anableddau dysgu cymedrol, difrifol, ac awtistiaeth', yn gymwys i gael mwy o gefnogaeth gan anogwr gwaith arbenigol.*

2. Pa fath o wybodaeth am [rhowch enw'r person ifanc] a gasglwyd trwy'r broses asesu a chyfeirio/Adroddiad Asesu a Chyfeirio?

   Prociwch:

   - Anghenion dysgu a/neu ddatblygu
   - Rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn dysgu pellach/symud ymlaen i gyflogaeth
   - Cwestiynau/camau penodol i ddynodi dysgwyr ag anghenion cymedrol/difrifol ac awtistiaeth. Sut mae hyn yn cael ei ddynodi ee a oes raid i'r bobl ifanc fod ag asesiad/datganiad ffurfiol o anghenion addysgol arbennig?
   - Anghenion cefnogaeth ehangach (holistaidd)?

3. I ba raddau yr ydych yn meddwl y mae'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r asesiad Cymru'n Gweithio/contractwr wedi bod yn ddigonol i chi ddatblygu cynllun dysgu unigol priodol a rhoi cefnogaeth effeithiol i [rhowch enw'r person ifanc] yn ystod ei h/amser ar TSC+?

   Prociwch:

   - Unrhyw fylchau penodol yn y wybodaeth?
   - Bylchau penodol yn ymwneud ag anghenion pobl ifanc ag ADY/anableddau
   - Unrhyw wybodaeth ychwanegol benodol sy'n ymwneud â phobl ifanc ag ADY/anableddau a fyddai'n ddefnyddiol, gan gynnwys am anghenion cefnogaeth ehangach?

4. Ar ba gam y cafodd [rhowch enw'r person ifanc] ei gyfeirio am annog gwaith?

5. Am ba hyd y bu'n rhaid iddo/iddi aros o gael ei gyfeirio/chyfeirio hyd ddechrau cael cefnogaeth gan ei Anogwr Gwaith?

6. Pa wybodaeth amdano ef/hi a rannwyd gyda'r darparwr Anogwr Cyflogaeth Gefnogol (Elite/Agoriad) wrth gyfeirio?

7. A ddefnyddiwyd y wybodaeth o'r Adroddiad Asesu a Chyfeirio/Cynllun Dysgu Unigol i 'gyfateb' anghenion a diddordebau [rhowch yr enw] â'i Anogwr Gwaith?

8. Sut cafodd [rhowch enw'r person ifanc] ei gyflwyno/ei chyflwyno i'r anogwr gwaith?

   Prociwch:

   - A oedd cyfarfod cychwynnol i gyflwyno pawb i'w gilydd?
   - Os felly, pwy oedd yno?
   - A gasglwyd rhagor o wybodaeth amdano/amdani gan yr anogwr gwaith yn y cyfarfod cychwynnol?
   - A ddiweddarwyd ei Gynllun Dysgu Unigol/ei Chynllun Dysgu Unigol ar ôl i'r cyfeirio/y cyfarfod cychwynnol ddigwydd?

9. A wnaethoch chi wynebu unrhyw heriau wrth wneud y cyfeiriad i [rhowch enw'r person ifanc] gael annog gwaith?

10. A oes rhagor o wybodaeth y byddech wedi hoffi ei chael ar y cam cyfeirio i sicrhau bod y gefnogaeth a roddwyd i [rhowch enw'r person ifanc] mor effeithiol â phosibl?
Prociwch:

- Unrhyw wybodaeth ychwanegol benodol sy'n ymwneud â'i anghenion/hanghenion dysgu a fyddai'n ddefnyddiol, gan gynnwys ei anghenion/ei hanghenion cefnogaeth ehangach?

11. Pa mor dda yr ydych yn meddwl y mae'r broses gyfeirio at TSC+ gan Cymru'n Gweithio i bobl ifanc gyda ADY wedi gweithio hyd yn hyn?
Prociwch:

- A oes elfennau penodol o'r broses sy'n gweithio'n neilltuol o dda?
- Beth, os rhywbeth, sydd ddim yn gweithio cystal?
- Gwahaniaethau o ran pa mor dda y mae'r broses yn gweithio yng nghyswllt pobl ifanc ag ADY/anableddau, anghenion cymedrol i ddifrifol?
- A oes unrhyw rannau o'r broses y gellid eu gwella?

## Astudiaeth achos dysgwr

12. A allwch chi ddweud wrthym yn fyr beth oedd eich swyddogaeth wrth gefnogi [rhowch yr enw] yn ystod ei amser ar TSC+. Pa mor hir fuoch chi/ydych chi wedi bod yn gweithio gyda [rhowch enw'r person ifanc]?

13. A allwch chi ddweud ychydig amdano/amdani wrthyf?

Prociwch:

- Ar ba gam mae ef/hi ar y daith tuag at brentisiaeth/cyflogaeth?
- Pa edefyn/gyfnod oedd/y mae ef/hi ar y TSC+ pan wnaethoch ddechrau gweithio gydag ef/hi? Beth mae ef/hi yn ei wneud ar hyn o bryd, os yw wedi gorffen cymryd rhan yn y cynllun treialu.
- Lefel (cymedrol/sylweddol/difrifol) yr angen a'r ADY/anableddau penodol

14. Sut cafodd [rhowch yr enw] ei gyfeirio at TSC+? (ee Cymru'n Gweithio neu asesiad contractwr)

*Os cyfeiriwyd y person ifanc yn uniongyrchol, gyda'r contractwr yn llenwi ffurflen gyfeirio:*

15. A oeddech chi neu staff eraill [rhowch enw'r darparwr] yn gweithio gyda'r person ifanc cyn y cyfeiriad? Sut?

16. Pam bod TSC+ wedi ei ddynodi fel dewis addas i [rhowch yr enw]? Pa wybodaeth a roddwyd iddo/iddi (a'i/neu ei riant/gwarcheidwad) am TSC+ a'r cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol cyn ei gyfeirio?

17. Pwy oedd yn cymryd rhan wrth lunio'r asesiad a'r cyfeiriad ar gyfer [rhowch yr enw] a sut? (ee aelod o staff TSC+, person ifanc, rhieni/gwarcheidwad, EPC)?

## Datblygu'r cynllun cefnogi

18. A oedd y wybodaeth a gasglwyd trwy asesiad Cymru'n Gweithio/y contractwr yn ddigonol i chi ddeall anghenion dysgu a chefnogaeth [rhowch yr enw]?

    Prociwch:

    - A oeddent yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am anghenion y person ifanc i allu teilwria'r ddarpariaeth/gefnogaeth?
    - Unrhyw fylchau penodol yn y wybodaeth?
    - Bylchau penodol yn ymwneud ag anableddau'r person ifanc?
    - Pa wybodaeth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol ar y cam hwn?

19. Sut defnyddiwyd y wybodaeth a gasglwyd trwy'r broses asesu a chyfeirio/adroddiad asesu a chyfeirio i deilwra nodau dysgu [rhowch yr enw] a datblygu cynllun cefnogi i'r person ifanc.

    Prociwch:

    - Teilwra nodau dysgu/gyrfa i gyfarfod anghenion penodol y person ifanc
    - Hyblygrwydd ar amserlenni i symud ymlaen tuag at/gyflawni nodau dysgu
    - Cefnogaeth wedi ei chynnwys yn y cynllun i helpu i oresgyn rhwystrau penodol i atal cynnydd a ddynodwyd yn yr adroddiad adolygu a chyfeirio

20. Beth oedd/yw'r nodau dysgu allweddol ar gyfer [rhowch yr enw] fel y dynodwyd yn ei ch/gynllun dysgu unigol?

    Prociwch:

    - I ba raddau oedd [rhowch yr enw] a/neu ei rieni/rhieni/gwarcheidwad yn rhan o ddatblygu'r nodau dysgu
    - I ba raddau oedd [rhowch yr enw] a neu'r rhieni/gwarcheidwad yn rhan o benderfynu ar y mathau/lefel y gefnogaeth i'r person ifanc, fel rhan o'r cynllun dysgu unigol?) Pa wybodaeth a roddwyd iddo/iddi am y gefnogaeth sydd ar gael gan yr Anogwr Swydd?

21. Ar ba gam wnaeth y person ifanc gael ei gyfeirio ar gyfer mwy o gefnogaeth gan Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol a pham?

22. Beth oedd y nodau dysgu/anghenion cefnogaeth allweddol y dynodwyd y gallai'r Anogwr Gwaith gefnogi [rhowch yr enw] gyda nhw?

23. Pa mor aml wnaethon nhw/maen nhw'n defnyddio'r gefnogaeth? Fformat? (ee wyneb yn wyneb?)
    - Ble oeddech chi/ydych chi'n cyfarfod?
    - Pa fath o berthynas oeddech chi/ydych chi'n ei deimlo yr ydych wedi gallu ei sefydlu gyda'r person ifanc?
    - Pa mor hir wnaeth/fydd y gefnogaeth yn parhau? Ar ba bwynt fydd y gefnogaeth yn dod i ben?

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau annog gwaith

24. Pa fathau o gefnogaeth wnaeth/ y mae'r Anogwr Gwaith wedi cefnogi [rhowch yr enw] gyda nhw cyn belled?

25. Beth ydych chi'n ei feddwl wnaeth weithio'n dda/ sydd wedi gweithio'n dda o ran y gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith cyn belled? Sut? Unrhyw elfennau penodol o'r gefnogaeth/mathau o weithgareddau sydd wedi gweithio'n dda i'r person ifanc a pham ei fod/ei bod yn meddwl bod hynny'n wir? Beth sydd ddim wedi gweithio cystal a pham?

26. Sut ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â'r Anogwr Gwaith i fodloni anghenion cefnogaeth y person ifanc a sicrhau ei f/bod yn gwneud cynnydd tuag at y nodau dysgu, prentisiaeth/cyflogaeth?

    Prociwch:

    - Perthynas â chyfathrebu gyda'r Anogwr Gwaith? (ee a oedd/a yw'n rhan o'r adolygiadau cynllun dysgu unigol/cynnydd ar gyfer y person ifanc)
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda, ddim cystal?
    - Unrhyw heriau penodol a chamau a gymerwyd i oresgyn y rhain/syniadau am welliannau

27. A oedd/yw [rhowch yr enw] yn derbyn unrhyw gefnogaeth yn gysylltiedig â chyflogaeth/sgiliau y tu allan i TSC+ ar yr un pryd â chymryd rhan yn y cynllun treialu?

    Prociwch:

    - Sefydliad, mathau/nod y gefnogaeth
    - Cydweithio/rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol ddarparwyr?
    - A ydych chi yn darparu cefnogaeth ADY cyffredinol i [rhowch yr enw]? A yw hyn yn ychwanegol at gefnogaeth gyffredinol y mae ef/hi yn ei derbyn tu allan i TSC+?

28. A oedd/a yw [rhowch yr enw] yn derbyn unrhyw gefnogaeth ehangach yng nghyswllt ei h/anabledd? Os felly, a wnaed cysylltiad gyda darparwr y gefnogaeth neu a yw'r gefnogaeth yn hollol ar wahân?

## Deilliannau a amgyffredir i'r Cynllun Treialu Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol

29. Pa wahaniaeth yr ydych yn meddwl y mae cymryd rhan yn y cynllun treialu/derbyn mwy o gefnogaeth gan Anogwr Gwaith wedi ei wneud i [rhowch yr enw]?

    Prociwch:

    - Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd
    - Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi.
    - Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith

- Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
- Cynnydd a wnaed tuag at gael prentisiaeth/cyflogaeth
- Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
- Newidiadau eraill (gan gynnwys rhai anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)
- Pa fathau o weithgareddau/elfennau o weithgareddau oedd fwyaf defnyddiol wrth gyflawni'r deilliannau a ddynodwyd? Allwch chi esbonio pam?

30. Pa fathau o weithgareddau/elfennau o weithgareddau ydych chi'n meddwl oedd fwyaf defnyddiol wrth gyflawni'r newidiadau/deilliannau hyn? Allwch chi esbonio pam?

31. A oes unrhyw gefnogaeth arall yr ydych yn meddwl y byddai [rhowch yr enw] yn cael budd ohono, nad yw'n rhan o'r cynllun treialu. Pam?

32. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddech chi'n dweud y mae'r cynllun treialu wedi bod hyd yn hyn wrth gefnogi pobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth? Pam?

## Hyfforddiant

*Elfen allweddol o'r Cynllun Treialu Cyflogaeth Gefnogol yw cyllid ar gyfer staff TSC+ i gael mynediad at hyfforddiant perthnasol*

33. A ydych wedi cymryd rhan mewn unrhyw hyfforddiant, trwy'r cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol?

Os na, beth yw'r rhesymau am hyn? (ee a oes arnynt eisiau hyfforddiant ond wedi methu cael?)

Os do,

34. Ym mha hyfforddiant yr ydych wedi cymryd rhan hyd yn hyn, trwy'r cynllun treialu?
    - Dadansoddiad Tasg
    - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Heb ei Achredu
    - Hyfforddiant Anogwr Gwaith
    - Mentora
    - Rheoli Gwrthdaro
    - Hyfforddiant mewn Cyfarwyddo Systematig
    - Hyfforddiant Heb ei Achredu ar y Model Cyflogaeth Gefnogol
    - Hyfforddiant arall

*Ar gyfer pob math o hyfforddiant a ddefnyddiwyd, prociwch ar:*

- Pwy wnaeth ei ddarparu (sefydliad)?

- Prif nodau’r hyfforddiant
- Cynnwys
- Safon yr hyfforddwr
- Hyd/dwyster yr hyfforddiant. A oedd yn rhoi’r dyfnder o wybodaeth y mae arnoch ei angen?
- Oedd yr hyfforddiant yn bodloni’r disgwyliadau?
- Oedd yr hyfforddiant yn ddigonol? A fyddai unrhyw weithgaredd dilynol wedi bod yn ddefnyddiol? ee - sesiynau rhwydweithio gyda staff eraill oedd wedi cwblhau’r hyfforddiant; sesiynau grŵp bach/un i un gyda’r hyfforddwr i ofyn cwestiynau/trafod y dysgu allweddol.

35. Beth ydych chi’n ei feddwl yr ydych wedi ei gael o gymryd rhan yn yr hyfforddiant?
    Prociwch:
    - Datblygu gwybodaeth a sgiliau
    - Hyder wrth gefnogi pobl ifanc ag ADY/anableddau (yn neilltuol pobl ifanc ag anghenion cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth)
    - Dealltwriaeth o’r Model Cyflogaeth Gefnogol a sut i addasu yn eich ymarfer eich hun
    - Manteision/deilliannau eraill

36. I ba raddau ydych chi wedi gallu/ yr ydych yn meddwl y byddwch yn gallu troi’r hyn a ddysgwyd o’r hyfforddiant yn ymarfer yn eich gwaith?

    Prociwch:
    - Rhesymau am hyn

*Gofynnwch am enghreifftiau o sut y mae wedi defnyddio’r hyn a ddysgwyd yn ymarferol a pha agweddau o’r hyfforddiant oedd fwyaf defnyddiol/perthnasol ar gyfer hyn.*

37. A oes unrhyw beth wedi eich atal rhag troi'r hyn a ddysgwyd yn ymarfer?

38. A yw’r hyfforddiant yr ydych wedi cymryd rhan ynddo hyd yn hyn wedi rhoi’r math o help yr oeddech yn chwilio amdano?

    Prociwch:
    - Y graddau y mae’r gefnogaeth wedi ymdrin ag unrhyw heriau (a drafodwyd yn flaenorol)

39. A oes unrhyw fathau o hyfforddiant neu gyngor neu unrhyw beth arall yr ydych yn meddwl fyddai’n eich helpu i gefnogi pobl ifanc gydag anghenion cymedrol/difrifol ac awtistiaeth yn well yn ystod eu hamser ar TSC+?
    Prociwch:

- Rhesymau am hyn

**Cloi**

40. A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am y cynllun treialu [rhowch enw'r person ifanc] nad ydym wedi ei drafod yn barod?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

## Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau anogwr gwaith

**Gwybodaeth i'r ymchwilydd**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Cychwynnodd y Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r cynllun treialu wedi dal i redeg fel rhan o raglen TSC+. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

**Diben y cyfweliad**

Byddwn yn datblygu astudiaethau achos am bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu a nod y cyfweliad gyda chi heddiw yw cael gwybod rhagor am eich profiad o gefnogi un o'r bobl ifanc yma.

Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Deilliannau/nodau dysgu a dargedwyd ar gyfer dysgwr yr astudiaeth achos
- Anghenion cefnogaeth y person ifanc
- Y math o gefnogaeth a roddwyd
- Pa fath o gefnogaeth oedd yn gweithio'n dda, a ddim cystal
- Manteision a deilliannau a amgyffredwyd ar gyfer y gefnogaeth
- Syniadau i wella'r gefnogaeth

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

**Cyfrinachedd a chaniatâd**

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan. Oherwydd y nifer fechan o astudiaethau achos, gall rhai manylion barhau yn rhai y gellir eu hadnabod. Byddwn yn rhannu'r hyn y byddwn wedi ei ysgrifennu i chi ei gymeradwyo.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:

Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad ar recordydd wedi ei amgryptio gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio).

Bydd y recordiad yn cael ei uwchlwytho ar ein gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. **CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO**

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

41. I ddechrau, a allwch chi ddweud wrthyf yn fyr am eich profiad yn y swydd Anogwr Swydd Cyflogaeth Gefnogol?
    Prociwch:
    - Pa mor hir yn y swydd? Lefel profiad o gefnogi pobl ifanc trwy'r cynllun treialu, ar Hyfforddiaethau a/neu TSC+ (gan gynnwys y nifer o bobl ifanc a gefnogwyd).
    - Hyfforddiant a wnaed i ddod yn Anogwr Gwaith
    - Beth oedden nhw'n ei wneud cyn y swydd Anogwr Gwaith?

42. Rydym yn deall, trwy'r cynllun treialu Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol, gall annog swydd gael ei ddefnyddio i wella'r gefnogaeth i ddysgwyr gydag anghenion cymedrol i gymhleth ar draws yr holl linynnau a chyfnodau'r rhaglen TSC+. A allwch esbonio yn gryno pa fathau o gefnogaeth y mae anogwyr gwaith yn ei rhoi ar draws gwahanol gamau'r rhaglen?

43. Yn gyffredinol, beth ydych chi'n eu gweld fel prif nod y swydd Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol wrth gefnogi pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu?

44. Pa fath o ddeilliannau/newidiadau y mae annog gwaith yn anelu i'w cyflawni i'r bobl ifanc hyn?

## Gwaith gyda'r dysgwr yn yr astudiaeth achos

45. Pa mor hir fuoch chi/ydych chi wedi bod yn gweithio gyda [rhowch enw'r dysgwr yn yr astudiaeth achos]?

46. A allwch chi ddweud ychydig amdano/amdani wrthyf?

    Prociwch:

    - Ar ba gam mae ef/hi ar y daith tuag at brentisiaeth/cyflogaeth?
    - Pa edefyn/gyfnod oedd/y mae ef/hi ar y TSC+ pan wnaethoch ddechrau gweithio gydag ef/hi neu beth mae ef/hi yn ei wneud ar hyn o bryd, os yw wedi gorffen y gefnogaeth Anogwr Gwaith?
    - Lefel (cymedrol/sylweddol/difrifol) yr angen a'r anableddau dysgu penodol
    - Ar ba gyfnod yn y gefnogaeth anogwr gwaith y mae ef/hi ar hyn o bryd? (Promptiwch gyda'r cyfnodau – dod i adnabod y dysgwr, cytuno ar gynllun gyda'ch gilydd, cael y swydd gywir, cefnogaeth yn y gwaith, datblygu gyrfa)

7. Pa fath o wybodaeth wnaethoch chi ei derbyn am y person ifanc cyn i chi ddechrau gweithio gydag ef neu hi?

   Prociwch:

   - Mynediad at Adroddiad Asesu a Chyfeirio/Cynllun Dysgu Unigol
   - A oeddent yn teimlo bod y wybodaeth a dderbyniwyd yn ddigonol i ddeall yr anghenion dysgu penodol a chefnogaeth a dysgu/nodau gyrfa'r person ifanc er mwyn teilwra'r gefnogaeth?
   - Os na, beth oedd ar goll a sut wnaethoch chi weithio gyda'r darparwr i sicrhau eich bod yn cael unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol?

8. Beth fyddech chi'n ei ddweud oedd/yw prif rwystrau [rhowch yr enw] wrth geisio cael gwaith?

## Nodau dysgu/anghenion cefnogaeth

9. Beth yw/oedd y nodau dysgu/gyrfa allweddol ar gyfer [enw'r person ifanc]

   Prociwch:

   - A yw'r nodau hyn yn cael eu dynodi yn y cynllun dysgu unigol?
   - A yw'r nodau yn y Cynllun Dysgu Unigol yn cael eu hadolygu gyda'r person ifanc fel rhan o'r gefnogaeth a roddir gan yr Anogwr Gwaith? A wnaeth y rhain newid o ganlyniad i'r adolygu? Pam?

10. I ba raddau oedd [enw'r person ifanc] yn rhan o'r broses o ddatblygu cynllun cefnogaeth? A oedd ei rieni/ei rhieni/gofalwyr yn rhan o'r broses hon?
    Prociwch:
    - Y mathau o gefnogaeth/gweithgareddau a ddynodwyd a'r rhesymau

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau Annog Gwaith

Byddem yn hoffi deall sut yr oedd y berthynas rhyngoch chi fel yr anogwr gwaith a'r person ifanc oedd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu yn gweithio.

11. Sut cafodd [rhowch enw] ei gyflwyno/ei chyflwyno i chi, fel anogwr gwaith?

    Prociwch:
    - A oedd cyfarfod cychwynnol i gyflwyno eich gilydd?
    - Os felly, pwy ddaeth yno?
    - A yw'r anogwr gwaith yn casglu rhagor o wybodaeth am y person ifanc yn y cyfarfod cychwynnol?
    - A yw'r Cynllun Dysgu Unigol yn cael ei ddiweddaru, ar ôl i'r cyfeirio/y cyfarfod cychwynnol ddigwydd?

12. Pa mor aml oeddech chi/ydych chi'n cysylltu â [rhowch yr enw]? A yw hyn wyneb yn wyneb?
    Prociwch
    - Ble oeddech chi/ydych chi'n cyfarfod?
    - Pa fath o berthynas oeddech chi/ydych chi'n ei deimlo yr ydych wedi gallu ei sefydlu gyda'r person ifanc?
    - Pa mor hir wnaeth/fydd y gefnogaeth yn parhau? Ar ba bwynt fydd y gefnogaeth yn dod i ben?

13. Pa fath o gefnogaeth/gweithgareddau oeddech chi'n eu cynnal/ydych chi wedi eu cynnal hyd yn hyn gyda [rhowch yr enw]?
    Prociwch:
    - Proffilio galwedigaethol
    - Cefnogaeth yng nghyswllt budd-daliadau anabledd a hawliadau Mynediad at Waith
    - Ceisio gwaith
    - Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth/datblygu sgiliau hanfodol yng nghyswllt dysgu a gwaith - sgiliau meddal a chaled ee llythrennedd, iaith, rhifedd a sgiliau digidol
    - Paratoi ar gyfer y gweithle
    - Cefnogaeth anogwr gwaith yn y gwaith (o fewn profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith neu waith cyflogedig)
    - Sut ydych chi'n gweithio gyda'r cyflogwr i sicrhau bod y cyfle yn addas/yn cael ei gefnogi?
    - Cefnogaeth/gweithgareddau eraill

*Ar gyfer pob un o'r gweithgareddau/mathau o gefnogaeth a wneir gyda'r dysgwr yn yr astudiaeth achos, holwch am:*

- Beth oedd/yw cynnwys y gweithgareddau?
- Beth oedden nhw/maen nhw'n ceisio ei gyflawni?
- Sut y darparwyd/darperir y gweithgareddau?
- Pa mor aml oedd/mae'r person ifanc yn defnyddio'r gefnogaeth?
- Hyd y gefnogaeth?

14. Beth oedd/sydd wedi bod yn gweithio'n dda o ran y gefnogaeth/gweithgareddau yr ydych wedi eu cynnal gyda [rhowch yr enw] cyn belled a sut? Unrhyw elfennau penodol o'r gefnogaeth sydd wedi gweithio'n dda i'r person ifanc a pham ei fod/ei bod yn meddwl bod hynny'n wir? Beth sydd ddim wedi gweithio cystal a pham?

15. A ydych wedi profi unrhyw heriau cyn belled wrth ddarparu unrhyw un o'r gweithgareddau?
    Prociwch:
    - Lefelau ymgysylltu'r dysgwr a'i bresenoldeb
    - Lefel y gefnogaeth gan rieni
    - Lefelau ymgysylltu/cefnogaeth cyflogwr
    - Sialensiau yn ymwneud ag ADY/anableddau neu anghenion penodol y person ifanc?
    - Heriau eraill
    - A yw wedi cymryd unrhyw gamau i ymdrin â'r heriau hyn? Beth arall allai fod o gymorth? A fyddai cefnogaeth gan rywun arall o gymorth?

16. Sut ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â staff o [rhowch yr enw] darparwr TSC+ i fodloni anghenion cefnogaeth y person ifanc a sicrhau ei fod yn gwneud cynnydd tuag at y nodau dysgu, prentisiaeth/cyflogaeth?

    Prociwch:
    - Perthynas â chyfathrebu gyda'r darparwr? (ee a oedd/a yw'n rhan o'r adolygiadau cynllun dysgu unigol/cynnydd ar gyfer y person ifanc)
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda, ddim cystal?
    - Unrhyw heriau penodol a chamau a gymerwyd i oresgyn y rhain/syniadau am welliannau

17. A oedd/yw [rhowch yr enw] yn derbyn unrhyw gefnogaeth yn gysylltiedig â chyflogaeth/sgiliau y tu allan i TSC+ ar yr un pryd â chymryd rhan yn y cynllun treialu?

    Prociwch:
    - Sefydliad, mathau/nod y gefnogaeth
    - Cydweithio/rhannu gwybodaeth rhwng gwahanol ddarparwyr?

18. A oedd/a yw [rhowch yr enw] yn derbyn unrhyw gefnogaeth ehangach yng nghyswllt ei anabledd? Os felly, a wnaed cysylltiad gyda darparwr y gefnogaeth neu a yw'r gefnogaeth yn hollol ar wahân?

## Manteision a amgyffredir o Annog Gwaith

19. Allwch chi ddweud wrthyf am ddeilliannau'r broses asesu fwy dwys (proffilio galwedigaethol) ar gyfer [rhowch enw'r person ifanc]?
    Prociwch:
    - A ydych wedi cwblhau'r broses hon gyda [rhowch enw'r person ifanc]?
    - A wnaeth y broses hon eich helpu i ddysgu am yr hyn a ddysgwyd o'r blaen ac unrhyw ddysgu cyfredol y mae hi/ef wedi cymryd rhan ynddo?
    - A wnaeth y broses eich helpu i ddeall beth oedd/yw ei nodau gyrfa ef/hi?
    - A wnaeth y broses eich helpu i gael gwybod beth sy'n bwysig iddo ef/hi ei gyflawni er mwyn helpu i ddatblygu sgiliau a fyddai'n ei helpu ef/hi yn ei fywyd/ei bywyd dyddiol?

20. A wnaethoch brofi unrhyw heriau wrth gwblhau'r broses proffilio galwedigaethol gyda [rhowch enw'r person ifanc]? A fu'n rhaid i chi wneud unrhyw newidiadau i'r broses i oresgyn yr heriau hyn?

21. Pa newidiadau wnaethoch chi eu gweld/a welsoch chi yn [rhowch yr enw] ers i chi ddechrau gweithio gydag ef/hi?

    Prociwch:
    - Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd
    - Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi.
    - Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith
    - Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
    - Cynnydd a wnaed tuag at gael prentisiaeth/cyflogaeth
    - Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
    - Newidiadau eraill (gan gynnwys rhai anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)
    - Pa fathau o weithgareddau/elfennau o weithgareddau oedd fwyaf defnyddiol wrth gyflawni'r deilliannau hyn? Allwch chi esbonio pam?

22. A oes unrhyw gefnogaeth arall yr ydych yn meddwl y byddai [rhowch yr enw] yn cael budd ohoni, nad yw'n rhan o'r cynllun treialu. Sut?
    Prociwch:
    - Ble gallai ef/hi fynd i gael y gefnogaeth ychwanegol hon? A yw'n rhywbeth yr ydych eisoes wedi eu cyfeirio ato?

23. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am weithredu ac effeithiolrwydd y gefnogaeth i [rhowch enw'r person ifanc]?

24. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddech chi'n dweud y mae'r cynllun treialu Anogwr Gwaith ar TSC+ wedi bod cyn belled? Pam?
    Prociwch:

- Oes yna rywbeth y byddech yn hoffi ei newid am y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc trwy'r cynllun treialu? Pam? Syniadau am welliannau?

## Cloi

25. A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am eich profiad o gefnogi [rhowch enw'r person ifanc] nad ydym wedi ei drafod yn barod?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau dysgwr

**Gwybodaeth i'r ymchwilydd**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Cychwynnodd y Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r cynllun treialu wedi dal i redeg fel rhan o raglen TSC+. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

Un o'r rhannau allweddol o'r gwerthusiad hwn yw deall profiad unigolion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu

**Cyflwyniad**

Sefydliad polisi ac ymchwil annibynnol yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (L&W). Comisiynwyd y Sefydliad gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol y gwnaethoch chi gymryd rhan ynddo/yr ydych yn cymryd rhan ynddo.

Nod y gwerthusiad yw archwilio beth sy'n gweithio'n dda a ddim cystal ar y cynllun treialu i roi cymorth i Lywodraeth Cymru wrth ddylunio rhaglenni yn y dyfodol i bobl ifanc.

**Cyflwynwch ddiben y cyfweliad**

Yn rhan o hyn fe fyddem yn hoffi clywed am eich profiadau a'ch barn am gymryd rhan yn y cynllun treialu hwn. Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Y mathau o weithgareddau yr ydych wedi cymryd rhan ynddyn nhw gyda'ch Anogwr Gwaith [rhowch enw'r Anogwr Gwaith]
- Pa fath o weithgareddau ydych chi wedi eu gweld yn fwyaf defnyddiol
- Pa wahaniaeth y mae cymryd rhan yn y gefnogaeth gan [rhowch yr enw] wedi ei wneud i chi
- Unrhyw syniadau am welliannau

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

Byddwch yn derbyn tocyn anrheg £10 i ddiolch i chi am gymryd rhan.

**Cyfrinachedd a chaniatâd**

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, dywedwch wrthyf.

Byddwn yn defnyddio'r hyn y byddwch yn siarad â mi amdano i helpu i ysgrifennu astudiaeth achos fel rhan o adroddiad i Lywodraeth Cymru am y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol. Bydd yr astudiaeth achos hefyd yn cynnwys yr hyn y mae eich rhiant/rhieni/gwarcheidwad, eich Anogwr Gwaith, aelod o staff TSC a'r cyflogwr a fu'n gweithio gyda chi/sy'n gweithio gyda chi, wedi ei ddweud wrthym am eich rhan yn y cynllun treialu. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan. Ni fyddwn yn rhannu eich enw â nhw. Byddwn yn gadael i chi ddarllen yr hyn yr ydym wedi ei ysgrifennu cyn i ni rannu'r astudiaeth achos â Llywodraeth Cymru.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:

Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei wneud ar recordydd wedi ei amgryptio a'i uwchlwytho i'n gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hysgrifennu, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl am i ni gadw'r recordiad ar unrhyw amser. Dim ond i chi roi gwybod i ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r hyn a ysgrifennwyd.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

1. Yn gyntaf, a allwch chi ddweud ychydig wrthyf amdanoch eich hun?
   Prociwch:
   - Oedran?
   - Trefniadau byw (Byw gyda phwy gartref?)

- Beth oedd yn ei wneud cyn dechrau ar TSC+? (ee mewn addysg, hyfforddiant, profiad blaenorol o waith)

## Taith at TSC+ a'r broses gyfeirio

2. A allwch chi gofio sut y gwnaethoch gael gwybod gyntaf am TSC+/Hyfforddiaethau?
   Prociwch
   - A wnaethant glywed am y rhaglen gan gynghorydd gyrfa Cymru'n Gweithio, gweithiwr cefnogi o [rhowch enw'r darparwr], neu rywun arall?
   - A wnaeth y gweithiwr ofyn iddyn nhw/awgrymu eu bod yn ymuno â'r rhaglen? Beth ddwedwyd wrthyn nhw am TSC+/y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol?

3. Pa fath o help oeddech chi'n chwilio amdano pan wnaethoch chi gychwyn ar y rhaglen TSC+?
   Prociwch
   - Beth oedd/yw y prif heriau/anawsterau yr oedd/y mae yn eu hwynebu wrth gael gwaith?
   - Beth oedden nhw'n gobeithio ei gael allan o gymryd rhan yn y rhaglen (e.e., gwell sgiliau, mwy o hyder, help i ddod o hyd i waith, profiad gwaith ac ati).

4. Y tu hwnt i TSC+ a oeddech/a ydych yn dilyn unrhyw gyrsiau eraill, neu weithgareddau neu ydych chi'n chwilio am gefnogaeth arall i'ch helpu gyda'ch nodau dysgu neu gyflogaeth.
   Prociwch:
   - Pwy sy'n rhoi'r gefnogaeth hon (enwau sefydliadau)
   - Mathau o weithgareddau
   - Pa mor hir maen nhw wedi bod yn defnyddio'r gefnogaeth hon/gwneud y gweithgaredd hwn?
   - Pa mor ddefnyddiol y roedden nhw'n gweld/y maen nhw'n gweld yr help hwn
   - A ydyn nhw'n derbyn neu'n chwilio am gefnogaeth gydag unrhyw beth arall ee yng nghyswllt eu hanabledd?

*Cyn i ni siarad am y gefnogaeth a'r gweithgareddau yr ydych wedi bod yn eu gwneud gyda'ch Anogwr Gwaith [rhowch enw'r Anogwr Gwaith], mae gennym ddiddordeb mawr cael clywed am eich profiad o'r broses gyfeirio a'ch barn amdani – trwy hyn rwy'n golygu eich profiad o'r hyn ddigwyddodd ar ôl i chi adael yr ysgol a dechrau cael eich cefnogi gan [rhowch enw'r darparwr] ac yna sut y rhoddwyd chi mewn cysylltiad â [rhowch enw'r anogwr gwaith]*

5. A wnaethoch drafod eich anghenion dysgu a chefnogaeth i gymryd rhan yn TSC+ gyda'ch cynghorydd Cymru'n Gweithio/gweithiwr cefnogi/rhywun arall?
   Prociwch:
   - Pa wybodaeth a roddwyd iddo/iddi am y broses asesu a chyfeirio?
   - A wnaeth y cynghorydd/gweithiwr cefnogi esbonio diben casglu gwybodaeth am ei anghenion/ei hanghenion dysgu a chefnogaeth, cyn cwblhau'r cyfeiriad?

- A gafodd ef/hi gyfarfod gyda'r cynghorydd/gweithiwr cefnogi i fynd trwy'r wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer yr adroddiad cyfeirio? Os felly, a oedd ei rieni/ei rhieni/gwarcheidwaid yn y cyfarfod?
- I ba raddau y mae'n teimlo bod y broses hon wedi casglu'r pethau yr oedd yn eu cael yn anodd am gael swydd a pha gefnogaeth oedd arno/arni ei hangen?
- A oedd rhywbeth ar goll? Rhywbeth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol siarad amdano cyn dechrau'r rhaglen?

## Cymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

*Am yr ychydig gwestiynau nesaf fe fyddem yn hoffi clywed eich barn am y gefnogaeth a'r gweithgareddau yr ydych wedi bod yn eu gwneud gyda'ch anogwr gwaith [rhowch yr enw].*

6. Pa mor hir y bu/y mae eich anogwr gwaith [rhowch enw'r anogwr gwaith) wedi bod yn gweithio gyda chi?

7. Sut cafodd [rhowch enw'r anogwr gwaith] ei gyflwyno/ei chyflwyno i chi, fel eich Anogwr Gwaith?

   Prociwch:
   - A fu cyfarfod cychwynnol i ddod i'w adnabod/i'w hadnabod?
   - Pwy oedd yn bresennol yn hwn? A wnaeth ei rieni/rhieni/gwarcheidwad ddod i'r cyfarfod?
   - A wnaethon nhw drafod nodau dysgu/cyflogaeth y person ifanc a'r hyn yr oedd arno/arni angen cefnogaeth gydag o?
   - Beth oedd y nodau dysgu/anghenion cefnogaeth allweddol y dynodwyd y gallai [rhowch enw'r anogwr gwaith] ei gefnogi/ei chefnogi gyda nhw?

8. Pa mor aml oeddech chi/ydych chi'n cysylltu â [rhowch enw'r anogwr gwaith]?
   Prociwch
   - A yw hyn wyneb yn wyneb?
   - Ble oeddech chi/ydych chi'n cyfarfod?
   - Pa mor hir wnaeth/mae pob sesiwn yn para?
   - Oedd/yw hyn o gyswllt yn ddigon?

9. Os ydyn nhw wedi gorffen y gefnogaeth: A wnaeth y gefnogaeth a gawsoch gan [rhowch enw'r anogwr gwaith] bara'n ddigon hir? Pam/pam ddim?

10. Pa fathau o weithgareddau oeddech chi'n eu gwneud/ydych chi wedi eu gwneud cyn belled gyda [rhowch enw'r Anogwr Gwaith]?
    Prociwch:
    - Amlinelliad o weithgareddau
      Promptiau, os oes angen:
    - Cefnogaeth i ddatblygu hyder
    - Cefnogaeth i ddatblygu annibyniaeth ee sgiliau teithio annibynnol

- Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau hanfodol o ran dysgu a gwaith - sgiliau meddal a chaled ee llythrennedd, iaith, rhifedd a sgiliau digidol
  help i feddwl pa swydd y byddai'n hoffi ei gwneud, help i chwilio ac ymgeisio am waith, profiad gwaith, cefnogaeth yn ystod lleoliad gwaith cyflogedig)
- Help gyda budd-daliadau anabledd a hawliadau Mynediad at Waith
- Help i chwilio am waith ac ymgeisio
- Paratoi ar gyfer y gweithle
- Cefnogaeth yn y gwaith (o fewn profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith neu waith cyflogedig)
- Cefnogaeth/gweithgareddau eraill
- Ffurf (ee wyneb yn wyneb, ar-lein, unrhyw waith grŵp ac yn y blaen.)

11. (Ar gyfer pob math o weithgaredd a grybwyllir) Pa mor ddefnyddiol oedd/yw'r gefnogaeth yma?
    Prociwch
    - Sut y gwnaeth helpu a pham
    - I ba raddau yr oedd/y mae'n teimlo bod y gweithgareddau wedi/yn cael eu teilwrio i'w anghenion/hanghenion dysgu/cefnogaeth?
    - Beth allai fod wedi gweithio/fod yn gweithio'n well? Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

12. A oes unrhyw fath arall o weithgaredd neu gefnogaeth gan eich anogwr gwaith neu unrhyw beth arall y byddech wedi/y byddech yn ei weld o gymorth? Rhesymau am hyn?

13. A ydych wedi profi unrhyw heriau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda [rhowch enw'r anogwr]?
    Prociwch:
    - Heriau ymarferol ee trafnidiaeth, teithio, mynediad at dechnoleg, addasiadau angenrheidiol i amgylchedd dysgu/gweithle
    - Ffactorau cymdeithasol/emosiynol ee diffyg hyder,
    - Ffactorau teuluol ee amgyffrediad/pryderon rhieni
    - Syniadau am yr hyn fyddai'n helpu i oresgyn rhai o'r heriau yma?

## Effaith a amgyffredir y gefnogaeth

14. Beth ydych chi'n ei feddwl wnaethoch chi ei ddysgu o'r gweithgareddau yr ydych wedi eu gwneud gyda [rhowch enw'r Anogwr Gwaith] cyn belled? Pa wahaniaeth y mae wedi ei wneud?

    *Am bob newid y mae'r person ifanc yn sôn amdano gofynnwch a all roi enghreifftiau. Pa weithgareddau y mae'n meddwl oedd/sydd o fwyaf o help o ran hyn*

Promptiau, os oes angen.

- Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd
- Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi.
- Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith
- Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
- Cynnydd a wnaed tuag at gael prentisiaeth/cyflogaeth
- Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
- Mwy o gyfle i aros yn y gwaith a gwneud yn dda yno
- Unrhyw newidiadau eraill (gan gynnwys rhai anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)
- Rhywbeth annisgwyl a gafwyd o'u profiad o gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith

15. A yw'r gweithgareddau yr ydych wedi cymryd rhan ynddyn nhw gyda [rhowch enw'r Anogwr Gwaith] wedi rhoi'r math o help yr oeddech yn chwilio amdano?
    Os gwnaeth y person ifanc sôn am unrhyw heriau penodol wrth ymateb i C3, i ba raddau y mae'r gefnogaeth wedi helpu i oresgyn y rhain?

16. *Os newydd orffen y gefnogaeth* – Beth yw eich camau nesaf/uchelgais at y dyfodol? A yw'r uchelgeisiau yma wedi newid ers cymryd rhan yn y cynllun treialu?

## Cloi

17. A oes rhywbeth arall am eich profiad o gymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol/cefnogaeth gan eich Anogwr Gwaith y byddech yn hoffi ei grybwyll?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

## Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau rhiant/gwarcheidwad

### Gwybodaeth i'r ymchwilydd

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol wedi bod yn rhedeg ers Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen hon. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

Un o'r rhannau allweddol o'r gwerthusiad hwn yw deall profiad unigolion sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu.

### Cyflwyniad

Sefydliad polisi a gwerthuso annibynnol yw'r Sefydliad Dysgu a Gwaith (L&W). Comisiynwyd y Sefydliad gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol y gwnaeth/y mae [rhowch enw'r person ifanc] gymryd rhan ynddo/yn cymryd rhan ynddo.

Nod y gwerthusiad yw archwilio beth sy'n gweithio'n dda a ddim cystal ar y cynllun treialu i roi cymorth i Lywodraeth Cymru wrth ddylunio rhaglenni yn y dyfodol i bobl ifanc.

### Cyflwynwch ddiben y cyfweliad

Fel rhiant/gwarcheidwad person ifanc sydd wedi cymryd rhan/sydd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu, fe fyddem yn hoffi clywed eich barn am sut y gwnaeth hyn weithio/y mae yn gweithio i'r person ifanc.

Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Y gefnogaeth [y mae'r person ifanc] wedi ei chael trwy'r cynllun treialu.
- Pa elfennau o'r gefnogaeth/mathau o weithgareddau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol
- Pa wahaniaeth y mae'r gefnogaeth wedi ei wneud i [rhowch enw'r person ifanc]
- Unrhyw syniadau am welliannau

Nid oes atebion ‘cywir’ nac ‘anghywir’, mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a’ch barn ddidwyll.

**Cyfrinachedd a chaniatâd**

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o’ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â’r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Byddwn yn defnyddio canfyddiadau’r cyfweliad hwn yn ogystal â chyfweliadau gyda [rhowch enw’r person ifanc], ei anogwr gwaith, staff TSC a’r cyflogwr a fu’n gweithio/sy’n gweithio gydag ef/hi, i lunio astudiaeth achos fydd yn cael ei chynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau’n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai’n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan. Mae’n bosibl, oherwydd y nifer fechan o ddysgwyr sy’n cael eu cyfweld, hyd yn oed er bod yr astudiaeth achos yn ddienw, y gellir adnabod eich mab/merch. Byddwn yn rhannu’r hyn y byddwn wedi ei ysgrifennu â chi cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma: [*insert link*] Gyda chaniatâd hoffem recordio’r cyfweliad gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei wneud ar recordydd wedi ei amgryptio a’i uwchlwytho i’n gweinydd diogel. Bydd y recordiadau’n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a’u dileu dri mis ar ôl i’r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu’r recordiad a’r adysgrif o’ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a’i gyfrinachedd a’u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

1. A allaf gychwyn gan ofyn ychydig am [rhowch enw’r person ifanc]?
   - Prociwch:
   - Oedran
   - Trefniadau byw? Gyda phwy y mae’n byw gartref?
   - Profiad o’r ysgol a chymwysterau addysgol?

2. A allech chi ddweud wrthyf yn fyr am anghenion addysg neu anabledd/au [rhowch enw'r person ifanc]

3. A oes gan [rhowch yr enw] unrhyw nodau cyflogaeth neu yrfa penodol dan sylw?

   Prociwch:

   - Sut y mae wedi datblygu ei ddyheadau – er enghraifft a yw hyn yn rhywbeth y mae wedi bod â diddordeb ynddo o hyd neu wedi cael rhywfaint o brofiad ohono?
   - Pa brofiad blaenorol o gyflogaeth y mae wedi ei gael?
   - A yw [rhowch yr enw] wedi profi unrhyw rwystrau penodol wrth gael swydd/gyflawni ei nodau gwaith o ganlyniad i'w anghenion dysgu/anableddau? Beth oedd/yw'r prif heriau yr oedd/y mae yn eu hwynebu wrth gael gwaith neu wneud cynnydd tuag at gyflogaeth?

4. Beth oedd [rhowch enw'r person ifanc] yn ei wneud cyn dechrau ar TSC+ gyda [rhowch enw'r darparwr]?
   Prociwch:
   - A oedd mewn addysg/hyfforddiant/yn gwneud rhywbeth arall?
   - A oedd yn derbyn unrhyw ffurf ar gefnogaeth cyflogaeth/sgiliau gan sefydliad arall? Os oedd, gan bwy yr oedd hyn, a pha fath o gefnogaeth oedd ef/hi yn ei gael? Pa mor ddefnyddiol oedd ef/hi'n ei weld? A yw'n dal i gael y gefnogaeth yma?

## Taith i TSC+/cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol

5. Sut wnaethoch chi glywed gyntaf am Hyfforddiaethau/TSC+?

6. A sut wnaethoch chi glywed am y cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol? (ee gan [rhowch enw'r person ifanc] ei hun, gan gynghorydd gyrfa Cymru'n Gweithio, neu weithiwr cefnogi arall, rhywun arall)?
   Prociwch:

- Pa wybodaeth wnaethoch chi a [rhowch enw'r dysgwr] ei derbyn am y rhaglen/cynllun treialu?
- Beth oeddech chi'n ei feddwl am y rhaglen pan wnaethoch glywed amdani gyntaf?

7. Sut y gwnaed y penderfyniad i gyfeirio [rhowch enw'r person ifanc] at y cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol? A wnaeth y cynghorydd gyrfa Cymru'n Gweithio/gweithiwr cefnogi/rhywun arall awgrymu hyn? A wnaethant wneud y penderfyniad gyda [rhowch enw'r person ifanc]?

8. Sut oeddech chi'n meddwl y gallai helpu [rhowch enw'r person ifanc]?

*Byddai gennym ddiddordeb mewn clywed am eich profiad a'ch barn am y broses gyfeirio . Rydym yn deall, cyn dechrau ar TSC+, bod Cymru'n Gweithio'n cynnal asesiad i gasglu gwybodaeth am anghenion dysgu a datblygu person ifanc, y rhwystrau sy'n ei atal rhag*

*cymryd rhan mewn dysgu pellach neu symud ymlaen i waith a dynodi anghenion cefnogaeth. Pan fydd yn dechrau ar y rhaglen, defnyddir y wybodaeth hon wedyn i fod yn sail i Gynllun Dysgu Unigol, wedi ei deilwrio i anghenion y person ifanc.*

9. Sut wnaeth y broses hon weithio i [rhowch yr enw]?
   - A oedd y rhieni/gwarcheidwad/gwarcheidwaid yn rhan o'r asesiad hwn? Os na, a oedden nhw wedi gofyn am gael bod yn rhan ohono?

10. Os oedden, sut oedden nhw wedi bod yn rhan?
    Prociwch:
    - Pa wybodaeth a roddwyd iddo/iddi am y broses asesu a chyfeirio?
    - A wnaeth y cynghorydd Cymru'n Gweithio/gweithiwr cefnogi esbonio diben casglu gwybodaeth am anghenion dysgu a chefnogaeth [rhowch enw'r person ifanc] cyn cwblhau'r cyfeiriad?
    - A gafodd ef/hi gyfarfod gyda'r cynghorydd/gweithiwr cefnogi i fynd trwy'r wybodaeth oedd ei hangen ar gyfer yr adroddiad cyfeirio? Os felly, a oedd y person ifanc yn y cyfarfod?
    - I ba raddau y mae'n teimlo bod y broses hon wedi casglu gwybodaeth yn llwyddiannus am rwystrau [rhowch enw'r person ifanc] sy'n ei h/atal rhag cael cyflogaeth ac am ei h/anghenion dysgu a chefnogaeth penodol?
    - A oedd rhywbeth ar goll?
    - A roddwyd copi o'r asesiad iddynt (yr Adroddiad Asesu a Chyfeirio)?
    - Rhywbeth arall fyddai wedi bod yn ddefnyddiol siarad amdano cyn i [rhowch enw'r person ifanc] ddechrau'r rhaglen?
    - A oes unrhyw ffyrdd y gallai'r broses hon fod wedi cael ei gwella?

11. Pa fath o gefnogaeth oeddech chi'n disgwyl y byddai [rhowch enw'r person ifanc] yn ei chael?

12. A oedd gennych unrhyw bryderon am y ffaith bod eich plentyn yn cymryd rhan yn y cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol? A allwch ddisgrifio'n fyr beth oedd y rhain?

13. Y tu hwnt i TSC+ a oedd/a yw [rhowch enw'r person ifanc] yn dilyn unrhyw gyrsiau eraill, neu weithgareddau neu yn chwilio am gefnogaeth arall i'w helpu gyda'i nodau dysgu neu gyflogaeth.
    Prociwch:
    - Pwy sy'n rhoi'r gefnogaeth hon (enwau sefydliadau)
    - Mathau o weithgareddau
    - Pa mor hir maen nhw wedi bod yn defnyddio'r gefnogaeth hon/gwneud y gweithgaredd hwn?
    - Pa mor ddefnyddiol y roedden nhw'n gweld/y maen nhw'n gweld yr help hwn
    - A ydyn nhw'n derbyn neu'n chwilio am gefnogaeth gydag unrhyw beth arall ee yng nghyswllt eu hanabledd?

## Barn am Anogwr Gwaith arbenigol

*Am yr ychydig gwestiynau nesaf byddai gennym ddiddordeb mewn clywed eich barn am y gefnogaeth y mae [rhowch enw'r person ifanc] wedi ei chael gan yr anogwr gwaith arbenigol a ddarparwyd trwy'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol.*

14. Pa mor hir y bu/y mae anogwr gwaith [rhowch enw'r person ifanc] wedi bod yn gweithio gydag ef/hi?

15. Sut cafodd [rhowch enw'r anogwr gwaith] ei gyflwyno/ei chyflwyno i [rhowch enw'r person ifanc]?

    Prociwch:

    - A fu cyfarfod cychwynnol gyda'r Anogwr Gwaith i ddod i'w adnabod/i'w hadnabod?
    - A gawsant eu gwahodd i'r cyfarfod hwn? Os felly, a wnaethon nhw drafod nodau dysgu/cyflogaeth y person ifanc a'r hyn yr oedd arno/arni angen cefnogaeth gydag o?
    - Beth oedd y nodau dysgu/anghenion cefnogaeth allweddol y dynodwyd y gallai'r Anogwr Gwaith gefnogi [rhowch enw'r person ifanc] gyda nhw?
    - A oedden nhw'n glir am y math o gefnogaeth y byddai'r Anogwr Gwaith yn ei rhoi a nodau hyn? A roddwyd gwybodaeth iddyn nhw am y math o weithgareddau y byddai [rhowch yr enw] yn cymryd rhan ynddyn nhw a phryd?

16. Beth oeddech chi'n ei feddwl fyddai prif fanteision cael anogwr gwaith arbenigol i [rhowch enw'r person ifanc]?

17. Pa mor aml mae/oedd [rhowch enw'r person ifanc] yn cael cyswllt â'i Anogwr Gwaith?
    Prociwch

    - A yw hyn wyneb yn wyneb?
    - Ble oedden nhw/maen nhw'n cyfarfod?
    - Pa mor hir wnaeth/mae pob sesiwn yn para?
    - A ydyn nhw'n meddwl bod hyn o gyswllt yn ddigon?

18. Os yw'r person ifanc wedi cwblhau'r gefnogaeth – pa mor hir wnaeth y gefnogaeth barhau? A ydyn nhw'n meddwl bod hynny'n ddigon? Rhesymau pam/pam ddim?

19. Pa fathau o weithgareddau y mae [rhowch enw'r person ifanc] wedi eu gwneud cyn belled gyda'i Anogwr Gwaith?
    Prociwch:

    - Amlinelliad o weithgareddau
      Promptiau, os oes angen:
    - Cefnogaeth i ddatblygu hyder
    - Cefnogaeth i ddatblygu annibyniaeth ee sgiliau teithio annibynnol

- Cefnogaeth i ddatblygu sgiliau hanfodol o ran dysgu a gwaith - sgiliau meddal a chaled ee llythrennedd, iaith, rhifedd a sgiliau digidol
  help i feddwl pa swydd y byddai'n hoffi ei gwneud, help i chwilio ac ymgeisio am waith, profiad gwaith, cefnogaeth yn ystod lleoliad gwaith cyflogedig)
- Help gyda budd-daliadau anabledd a hawliadau Mynediad at Waith
- Help i chwilio am waith ac ymgeisio
- Paratoi ar gyfer y gweithle
- Cefnogaeth yn y gwaith (o fewn profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith neu waith cyflogedig)
- Cefnogaeth/gweithgareddau eraill
- Ffurf (ee wyneb yn wyneb, ar-lein, unrhyw waith grŵp ac yn y blaen.)

20. (Ar gyfer pob math o weithgaredd a grybwyllir) Pa mor ddefnyddiol oedd/yw'r gefnogaeth yma?
    Prociwch
    - Sut y gwnaeth helpu a pham
    - I ba raddau yr oedd/y mae'n teimlo bod y gweithgareddau wedi/yn cael eu teilwrio i anghenion dysgu/cefnogaeth [rhowch enw'r person ifanc]?
    - Beth allai fod wedi gweithio/fod yn gweithio'n well?
    - Awgrymiadau ar gyfer gwelliannau

21. A oes unrhyw fath arall o weithgaredd neu gefnogaeth gan yr anogwr gwaith neu unrhyw beth arall a fyddai wedi bod o gymorth i [rhowch enw'r person ifanc]? Rhesymau am hyn?

22. A yw [rhowch enw'r person ifanc] wedi profi unrhyw heriau wrth gymryd rhan yn y cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol/gweithgareddau gyda'r Anogwr Gwaith?
    Prociwch:
    - Heriau ymarferol ee trafnidiaeth, teithio, mynediad at dechnoleg, addasiadau angenrheidiol i amgylchedd dysgu/gweithle
    - Ffactorau cymdeithasol/emosiynol ee diffyg hyder
    - A ymdriniwyd â'r rhain?
    - Syniadau am yr hyn fyddai'n helpu i oresgyn rhai o'r heriau yma?

## Deilliannau a amgyffredir

23. Beth ydych chi'n ei feddwl y mae [rhowch enw'r person ifanc] wedi ei gael o gymryd rhan yn y gefnogaeth/gweithgareddau gyda'i Anogwr Gwaith?

    *Am bob newid a grybwyllir gofynnwch a all roi enghreifftiau. Pa weithgareddau y mae'n meddwl oedd/sydd o fwyaf o help o ran hyn?*

Promptiau, os oes angen.

- Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd
- Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi.
- Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith
- Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
- Barn am obeithion o gael swydd
- Cynnydd a wnaed tuag at gael prentisiaeth/cyflogaeth
- Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
- Mwy o gyfle i aros yn y gwaith a gwneud yn dda yno
- Unrhyw newidiadau eraill (gan gynnwys rhai anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)
- Rhywbeth annisgwyl a gafwyd o’u profiad o gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith

24. A yw’r gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith arbenigol wedi rhoi’r math o help yr oedd yn chwilio amdano, ar gyfer [rhowch enw’r person ifanc]?
    Prociwch:
    - Pa mor bell y mae’r gefnogaeth wedi ei helpu ef/hi i oresgyn yr heriau penodol a ddynodwyd yn C3 a gwneud cynnydd tuag at gael swydd neu brentisiaeth (neu gyflawni nodau dysgu penodol eraill]?

25. *Os yw’r person ifanc newydd orffen y gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith* – Beth yw’r camau nesaf i [rhowch enw’r person ifanc], beth yw ei h/uchelgais ar gyfer y dyfodol? A yw’r rhain wedi newid ers cymryd rhan yn y cynllun treialu?

## Cloi

26. A oes rhywbeth arall am eich profiad o gymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol neu’r gefnogaeth gan yr Anogwr Gwaith y byddech yn hoffi ei grybwyll?

**Atgoffwch yr un sy’n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i’r un gymerodd ran a chloi’r cyfweliad.**

# Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau cyflogwr

### Cyflwyniad

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Cychwynnodd y Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r cynllun treialu wedi dal i redeg fel rhan o raglen TSC+. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

### Cyflwyno diben y cyfweliad

Byddwn yn datblygu astudiaethau achos am bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu a nod y cyfweliad gyda chi heddiw yw cael gwybod rhagor am eich profiad, fel cyflogwr, o gefnogi un o'r bobl ifanc yma.

Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud a bydd yn canolbwyntio'n fras ar:

- Ymgysylltiad cyflogwyr â'r cynllun treialu
- Nodau dysgu/anghenion cefnogaeth/rhwystrau i gael gwaith y person ifanc
- Cyfleoedd yn y gwaith/gwaith cyflogedig a wnaed gan y dysgwr
- Mathau o gefnogaeth a ddarparwyd gan y cyflogwr/anogwr gwaith
- Deilliannau'r cynllun treialu i'r dysgwr

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

### Cyfrinachedd a chaniatâd

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan.

Oherwydd y nifer fechan o astudiaethau achos, gall rhai manylion barhau yn rhai y gellir eu hadnabod. Byddwn yn rhannu'r hyn y byddwn wedi ei ysgrifennu i chi ei gymeradwyo.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:

Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei wneud ar recordydd wedi ei amgryptio a'i uwchlwytho i'n gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

1. Ar y dechrau fel hyn, allwch chi ddweud wrthyf yn fyr am eich sefydliad a'ch swyddogaeth ynddo?

2. A oedd gennych chi/eich sefydliad berthynas yn bodoli gyda rhaglen neu ddarparwr TSC+ (neu Hyfforddiaethau) cyn eich ymwneud â'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol?

   Prociwch:

   - Ymwneud yn y gorffennol â chefnogi grwpiau eraill o bobl ifanc ar TSC+ (neu Hyfforddiaethau) ee profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith, gwaith cyflogedig, gweithgareddau eraill ee cyflogadwyedd/paratoi ar gyfer y gweithle
   - Ymwneud blaenorol â gweithio gyda/cefnogi pobl ifanc gydag ADY/anableddau (yn neilltuol anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth)

3. Cyn cymryd rhan, beth oeddech chi'n ei ddeall oedd nodau allweddol y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol**?**

4. Beth oedd yn eich ysgogi chi/eich sefydliad i gymryd rhan yn y cynllun treialu? (ee manteision iddyn nhw fel busnes, manteision i'r gymuned ac yn y blaen)

## Astudiaeth achos dysgwr

5. Pa mor hir fuoch chi/ydych chi wedi bod yn gweithio gyda [rhowch enw'r dysgwr yn yr astudiaeth achos]?

6. Pa fath o wybodaeth wnaethoch chi ei derbyn am y person ifanc cyn i chi ddechrau gweithio gydag ef neu hi?

   Prociwch:

   - A oeddent yn teimlo bod y wybodaeth a dderbyniwyd yn ddigonol i ddeall yr anghenion dysgu penodol a chefnogaeth a dysgu/nodau gyrfa'r person ifanc er mwyn teilwra'r cyfle yn y gwaith?
   - A oedd y wybodaeth yn ddigonol i ddeall beth oedd/yw'r prif rwystrau o ran gwaith? Beth oedden nhw/maen nhw'n ei ddeall yw'r rhain?
   - Os nad ydych yn ystyried bod y wybodaeth yn ddigonol, beth oedd ar goll a sut wnaethon nhw weithio gyda'r darparwr/hyfforddwr swydd i sicrhau eu bod yn cael unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol?

7. Sut oedd y wybodaeth am anghenion/nodau dysgu [rhowch enw] yn cael eu defnyddio i ddynodi/ddatblygu cyfle addas yn y gwaith iddo/iddi? (ee, a wnaeth gyfarfod yr Anogwr Gwaith i sicrhau bod y cyfle yn addas a thrafod cynllun cefnogi?)

8. Sut cafodd [rhowch enw] ei gyflwyno/ei chyflwyno i chi, fel cyflogwr?
   Prociwch:

   - A fu cyfarfod cychwynnol cyn dechrau'r lleoliad gwaith ac yn y blaen?
   - Os felly, pwy ddaeth yno? (ee person ifanc, anogwr gwaith, rhiant/gwarcheidwaid ac yn y blaen)
   - Beth oedd diben y cyfarfod?
   - I ba raddau yr oedd [rhowch enw], rhiant/gwarcheidwaid yn rhan o ddynodi/cytuno sut y byddai'r cyfle yn y gwaith/sut fyddai'r gefnogaeth gan yr anogwr gwaith a chyflogwr yn edrych?
   - A wnaed unrhyw newidiadau i fath/fformat/hyd ac yn y blaen y cyfle, neu'r cynllun cefnogi, ar ôl i'r cyfarfod cyntaf gael ei gynnal? Beth oedd y syniadau oedd yn sail i hyn?

## Cymryd rhan mewn cyfleoedd dan arweiniad cyflogwr/yn y gwaith

9. Pa fath o weithgareddau y bu/y mae [rhowch yr enw] wedi bod yn ymwneud â nhw yn eich sefydliad hyd yn hyn, fel rhan o'r cynllun treialu Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol?

   Prociwch:

   - Paratoi ar gyfer y gweithle
   - Profiad gwaith
   - Lleoliad gwaith

- Cefnogaeth yn y gwaith yn ystod cyflogaeth gyflogedig – ar ba gam wnaeth y person ifanc gael ei recriwtio yn ystod y cyfnod treialu? Pa fath o swydd?

*Ar gyfer cyfleoedd yn y gwaith, prociwch am fanylion natur y cyfle, beth oedd hynny'n ei gynnwys? dwyster? - faint o ddyddiau/oriau'r wythnos a'r patrwm gwaith, hyd? - pa mor hir wnaeth hyn/fydd hyn yn para. Rhesymeg am hyn.*

10. Sut oeddech chi/ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth â'r Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol i sicrhau bod [rhowch yr enw] yn cael cefnogaeth effeithiol ac yn dangos cynnydd tuag at y nodau dysgu, prentisiaeth/cyflogaeth wrth gymryd rhan yn y cyfle?

    Prociwch:
    - Perthynas a chyfathrebu gyda'r Anogwr Gwaith? (ee oedden nhw/ydyn nhw yn cyfarfod i adolygu cynnydd y person ifanc a'r cynllun cefnogaeth tra'r oedd/mae yn cymryd rhan yn y cyfle? Pa mor aml? Pa broses oedd/sy'n cael ei defnyddio ar gyfer hyn?
    - A oedden nhw/ydyn nhw'n rhan o'r adolygiadau Cynllun Dysgu Unigol/cynnydd ar gyfer y person ifanc?
    - Pa mor dda yr oedd/y mae'r berthynas yma'n gweithio a'r rhesymau am hyn?
    - Unrhyw heriau penodol wrth weithio gyda'r anogwr gwaith a chamau a gymerwyd i oresgyn y rhain?
    - Beth allai weithio'n well? Unrhyw syniadau am welliannau?

11. Pa fath o gefnogaeth a gweithgareddau a ddarparwyd gan yr Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol y mae'n meddwl wnaeth weithio'n dda/sydd wedi gweithio'n dda i [rhowch yr enw] hyd yn hyn? Ym mha ffordd? Unrhyw <u>elfennau</u> penodol o'r gefnogaeth/mathau o weithgareddau sydd wedi gweithio'n dda i'r person ifanc a pham ei fod/ei bod yn meddwl bod hynny'n wir? Beth sydd ddim wedi gweithio cystal a pham?
12. A oes unrhyw gefnogaeth arall yr ydych yn meddwl y byddai [rhowch yr enw] yn cael budd ohoni, nad yw'n rhan o'r cynllun treialu. Pam?
13. Fel y cyflogwr, pa gefnogaeth wnaethoch chi/ydych chi'n ei rhoi yn uniongyrchol i [rhowch yr enw] i helpu i sicrhau ei fod/ei bod yn gwneud cynnydd mewn cymhariaeth â'r nodau dysgu/i symud ymlaen tuag at brentisiaeth/gwaith (neu i gynnal y cynnydd os mewn gwaith cyflogedig) tra roedd yn rhan o'r cynllun treialu? Beth sydd/oedd yn gweithio'n dda a pham?

14. A ydych wedi profi unrhyw heriau wrth weithio gyda [rhowch enw'r person ifanc] fel rhan o'r cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol? Rhesymau am hyn.
    Prociwch:
    - Lefelau'r ymgysylltiad gan y person ifanc
    - Ymgysylltu/cefnogaeth gan riant/gwarcheidwad

- Heriau penodol yn ymwneud ag ymwybyddiaeth/dealltwriaeth y cyflogwr o anghenion cefnogaeth pobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth
- Heriau ymarferol ee gwneud yr addasiadau angenrheidiol yn y gweithle i allu cefnogi'r grŵp hwn o bobl ifanc?
- Heriau eraill
- Camau a gymerwyd i oresgyn heriau a ddynodwyd

## Deilliannau a amgyffredir i'r Cynllun Treialu Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol

15. O'ch profiad chi o weithio gyda [rhowch yr enw], pa wahaniaeth yr ydych yn meddwl y mae cymryd rhan yn y cynllun treialu/derbyn mwy o gefnogaeth gan Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol wedi ei wneud i [rhowch yr enw]?

    Prociwch:

    - Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd (gan gynnwys gwaith cyflogedig/prentisiaethau)
    - Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi.
    - Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith/y gweithle
    - Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
    - Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
    - Newidiadau eraill (gan gynnwys anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)

*Pa fathau o weithgareddau/elfennau o weithgareddau annog gwaith y maent yn feddwl sydd fwyaf effeithiol wrth gyflawni'r deilliannau a ddynodwyd? A allan nhw esbonio pam?*

## Cefnogaeth i gyflogwyr

16. Pa gefnogaeth gawsoch chi/eich sefydliad gan yr Anogwr Gwaith i gymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol? Pa mor ddefnyddiol oedd/ydi hyn hyd yn hyn a pham?

17. A ydych wedi derbyn unrhyw gefnogaeth ehangach i gymryd rhan yn y cynllun treialu (ee yn uniongyrchol gan y darparwr Anogwr Gwaith, darparwr TSC+ y person ifanc?)

    Os na,

    Pa fath o gefnogaeth fyddai wedi bod/fyddai o gymorth i'w galluogi i roi gwell cefnogaeth i [rhowch yr enw]/pobl ifanc eraill sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu? (Rhowch brompt ee mynediad at ymwybyddiaeth anabledd neu hyfforddiant arall, cyfleoedd i rwydweithio/dysgu o 'beth sy'n gweithio' gyda'r cohort hwn o bobl ifanc gan gyflogwyr eraill sy'n rhan o'r cynllun treialu/TSC+ (Hyfforddiaethau)/â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc gydag anableddau dysgu cymhedrol/difrifol ac awtistiaeth.

Os oes,

Prociwch:

- Y mathau o gefnogaeth/gweithgareddau
- Pa fath o gefnogaeth sydd wedi bod yn fwyaf defnyddiol/lleiaf defnyddiol? Rhesymau am hyn
- I ba raddau y maen nhw wedi gallu gweithredu hyn wrth weithio gyda [rhowch yr enw] ar y cynllun treialu hwn?
- A oes unrhyw gefnogaeth ychwanegol a fyddai wedi bod/a fyddai'n ddefnyddiol? Pam?

18. A ydych wedi parhau i/a ydych yn rhagweld y byddwch yn parhau i gymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol ers/pan fydd y gefnogaeth i [rhowch yr enw] ddod i ben/yn dod i ben? Pam/pam ddim?

19. A ydych yn teimlo bod cymryd rhan yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol wedi bod o fudd i'ch busnes? Pam/pam ddim?

## Cloi

20. A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am y cynllun treialu [rhowch enw'r person ifanc] nad ydym wedi ei drafod yn barod?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio eu gwybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

## Gwerthusiad o'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau ar gyfer staff TSC+ sy'n defnyddio hyfforddiant

### Gwybodaeth i'r ymchwilydd

Nod allweddol y gwerthusiad hwn yw deall y graddau y mae staff darparwyr TSC+ yn teimlo bod eu hyder a'u sgiliau wedi cynyddu wrth gefnogi dysgwyr ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth, o ganlyniad i gymryd rhan mewn hyfforddiant a gafwyd trwy'r cynllun treialu.

Roedd y cynllun treialu yn rhoi arian ar gyfer hyfforddi staff perthnasol a gwasanaethau cynghori gan gynnwys hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Heb ei Achredu, Hyfforddiant Anogwr Gwaith, mentora, rheoli gwrthdaro, a Hyfforddiant mewn Cyfarwyddo Systematig. Gall darparwyr ddefnyddio hyfforddiant hyd at werth £3,000 i wella'r gefnogaeth i'r rhai ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol neu awtistiaeth.

### Diben y cyfweliad

Rhan allweddol o'r gwerthusiad yw archwilio effeithiolrwydd yr hyfforddiant y mae staff TSC+ wedi ei gael fel rhan o'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol.

Bydd y cyfweliad yn para tua 45 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Y mathau o hyfforddiant a ddefnyddiwyd
- Profiad staff a'u barn am yr hyfforddiant a gynigiwyd,
- Deilliannau/manteision cymryd rhan yn yr hyfforddiant
- Pa fathau eraill o hyfforddiant/mathau o gefnogaeth fyddai o gymorth i staff, i wella cefnogaeth i'w cohort o ddysgwyr.

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

### Cyfrinachedd a chaniatâd

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:

Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad ar recordydd wedi ei amgryptio gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei uwchlwytho ar ein gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. **CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO**

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

1. Ar y dechrau, allwch chi ddweud wrthyf yn fyr am eich sefydliad a'ch swyddogaeth ar TSC+? (Prociwch am hyd yr amser yn gweithio ar raglen TSC+, profiad blaenorol o'r rhaglen Hyfforddiaethau, neu raglenni eraill tebyg).

2. Cyn cymryd rhan yn yr hyfforddiant trwy'r Cynllun Treialu Cyflogaeth â Chymorth, faint o brofiad oedd gennych mewn cefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu difrifol/cymedrol ac awtistiaeth ar TSC+ (neu Hyfforddiaethau)? Pa fathau/ lefel o angen oedd gan y bobl ifanc?

3. Cyn cymryd rhan yn yr hyfforddiant a roddwyd trwy'r cynllun treialu, a oeddech chi wedi gwneud hyfforddiant tebyg neu berthnasol? A oedd gennych unrhyw gymwysterau? (Prociwch i gael gwybod rhagor, ee – beth oedd yr hyfforddiant hwn yn ei gynnwys, pryd y gwnaethant ei ddilyn?)

4. Beth oeddech chi'n gobeithio ei ennill trwy gymryd rhan yn yr hyfforddiant a gynigiwyd trwy'r cynllun treialu? (ee help i oresgyn unrhyw heriau a ddynodwyd wrth gefnogi pobl ifanc ag anghenion cymedrol/difrifol ac awtistiaeth)

## Cymryd rhan yn yr hyfforddiant

5. Ym mha hyfforddiant yr ydych wedi cymryd rhan hyd yn hyn, trwy'r cynllun treialu?
    - Dadansoddiad Tasg
    - Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Anabledd Heb ei Achredu
    - Hyfforddiant Anogwr Gwaith
    - Mentora
    - Rheoli Gwrthdaro
    - Hyfforddiant mewn Cyfarwyddo Systematig
    - Hyfforddiant Heb ei Achredu ar y Model Cyflogaeth Gefnogol
    - Hyfforddiant arall

*Ar gyfer pob math o hyfforddiant a ddefnyddiwyd, prociwch ar:*

- Pwy wnaeth ei ddarparu (sefydliad)?
- Prif nodau'r hyfforddiant
- Cynnwys
- Safon yr hyfforddwr
- Hyd/dwyster yr hyfforddiant. A oedd yn rhoi'r dyfnder o wybodaeth y mae arnoch ei angen?
- Oedd yr hyfforddiant yn bodloni'r disgwyliadau?
- Oedd yr hyfforddiant yn ddigonol? A fyddai unrhyw weithgaredd dilynol wedi bod yn ddefnyddiol? ee - sesiynau rhwydweithio gyda staff arall oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant; sesiynau grŵp bach/un i un gyda'r hyfforddwr i ofyn cwestiynau/trafod y gwersi allweddol.

## Deilliannau a Amgyffredir o'r hyfforddiant

6. Beth ydych chi'n ei feddwl yr ydych wedi ei gael o gymryd rhan yn yr hyfforddiant? Prociwch:
    - Datblygu gwybodaeth a sgiliau
    - Hyder wrth gefnogi pobl ifanc ag ADY/anableddau (yn neilltuol pobl ifanc ag anghenion cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth)
    - Dealltwriaeth o'r Model Cyflogaeth Gefnogol a sut i addasu yn eich ymarfer eich hun
    - Manteision/deilliannau eraill

7. I ba raddau ydych chi wedi gallu/ yr ydych yn meddwl y byddwch yn gallu troi'r hyn a ddysgwyd o'r hyfforddiant yn ymarfer yn eich gwaith?
    Prociwch:

- Rhesymau am hyn

*Gofynnwch am enghreifftiau o sut y mae wedi defnyddio'r hyn a ddysgwyd yn ymarferol a pha agweddau o'r hyfforddiant oedd fwyaf defnyddiol/perthnasol ar gyfer hyn.*

8. A oes unrhyw beth wedi eich atal rhag troi'r hyn a ddysgwyd yn ymarfer?

9. A yw'r hyfforddiant yr ydych wedi cymryd rhan ynddo hyd yn hyn wedi rhoi'r math o help yr oeddech yn chwilio amdano?

   Prociwch:
   - Y graddau y mae'r gefnogaeth wedi ymdrin ag unrhyw heriau (a drafodwyd yn flaenorol)

10. A oes unrhyw fathau o hyfforddiant neu gyngor neu unrhyw beth arall yr ydych yn meddwl fyddai'n eich helpu i gefnogi pobl ifanc gydag anghenion cymedrol/difrifol ac awtistiaeth yn well yn ystod eu hamser ar TSC+?

    Prociwch am y rhesymau am hyn

## Cloi

11. A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am eich profiad neu ddeilliannau'r hyfforddiant, neu anghenion hyfforddiant at y dyfodol, nad ydym wedi ei drafod yn barod?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect,** jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

SEFYDLIAD DYSGU A GWAITH
LEARNING AND WORK INSTITUTE

# Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau y grŵp ffocws proses gyfeirio

### Gwybodaeth i'r ymchwilydd

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o raglen Twf Swyddi Cymru+. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc gydag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

### Diben y cyfweliad

Nod allweddol y gwerthusiad hwn yw deall pa mor dda y mae proses gyfeirio Cymru'n Gweithio'n gweithio i ddysgwyr, gydag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth, a gyfeiriwyd at y rhaglen TSC+, ac rydym yn awyddus i glywed safbwyntiau staff darparu Cymru'n Gweithio a TSC+ am hyn.

Bydd y grŵp ffocws yn para tua 45 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Barn am yr asesiad cychwynnol a'r broses gyfeirio
- Sut a pha wybodaeth sy'n cael ei chasglu am nodau dysgu/anghenion cefnogaeth pobl ifanc
- Y graddau y mae gwybodaeth a gesglir trwy'r broses gyfeirio'n ddigonol i alluogi darparwyr i gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth yn effeithiol, a bod yn sail i Gynlluniau Dysgu Unigol
- Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n helpu staff i roi cefnogaeth effeithiol i'r cohort hwn o ddysgwyr
- Meysydd a syniadau ar gyfer gwelliannau i'r broses gyfeirio

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

### Cyfrinachedd a chaniatâd

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan.

Gellir gweld hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil ar wefan Dysgu a Gwaith yma:
Hysbysiad preifatrwydd Saesneg (Saesneg)

Hysbysiad preifatrwydd Cymraeg (Cymraeg)

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad ar recordydd wedi ei amgryptio gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn y maent wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei uwchlwytho ar ein gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. **CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO**

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

Ar y dechrau, a allaf ofyn i chi gyflwyno eich hunain yn gryno, dweud wrthym i ba sefydliad yr ydych yn gweithio a swyddogaeth eich gwaith.

## Mynediad i TSC+

*Rydym yn gwybod, ar hyn o bryd, y gall pobl ifanc gael eu cyfeirio at TSC+ trwy nifer o wahanol lwybrau - naill ai gan Cymru'n Gweithio, gan gontractwyr TSC+ eu hunain neu trwy Gydlynwyr Ymgysylltu a Chynnydd Awdurdod Lleol (EPC).*

1. Yn gyntaf, beth yw'r prif resymau am gyfeirio pobl ifanc at TSC+? (ee. nodau, manteision a amgyffredir i TSC+ i'r bobl ifanc a gyfeirir, y cohort penodol o bobl ifanc a dargedir)

2. Sut y mae pobl ifanc yn cael eu dynodi fel rhai cymwys/addas ar gyfer TSC+?

   Prociwch:
   - Ymwneud y person ifanc yn barod â Cymru'n Gweithio/contractwyr cyn ei gyfeirio?

- Sut y mae pobl ifanc (a theuluoedd?) yn rhan o'r penderfyniad i gyfeirio?

## Asesiad cychwynnol

*Hoffem ddeall yn well pa fath o wybodaeth a gesglir am anghenion dysgu a datblygu'r person ifanc pan fydd yn ymuno â TSC+, a sut y defnyddiwyd y wybodaeth i ddynodi anghenion cefnogaeth unigol, i fod yn sail i nodau dysgu ac i siapio'r rhaglen i bob person ifanc. Rwy'n credu, bod ar bob person ifanc angen Adroddiad Asesu a Chyfeirio cyn neu wrth ddechrau TSC+ – gall hyn fod naill ai yn Adroddiad Cymru'n Gweithio neu, os yw'r person ifanc wedi ei gyfeirio'n uniongyrchol gan gontractwr, fersiwn y contractwr o hyn.*

3. Yn nodweddiadol, ar ba bwynt y mae asesiad Cymru'n Gweithio/contractwr yn cael ei gwblhau cyn i berson ifanc ddechrau ar TSC+?

4. Pwy sy'n ymwneud â chwblhau'r asesiad a sut? (ee aelod penodol o'r staff, person ifanc, rhieni/gwarcheidwad, EPC)?

5. Pa feini prawf sy'n cael eu defnyddio, fel rhan o'r broses asesu, i bennu cymhwyster ar gyfer TSC+?

6. Pa fath o wybodaeth am berson ifanc sy'n cael ei chasglu trwy'r broses asesu a chyfeirio/Adroddiad asesu a chyfeirio?

   Prociwch:
   - Anghenion dysgu a/neu ddatblygu
   - Rhwystrau sy'n atal cymryd rhan mewn dysgu pellach/symud ymlaen i gyflogaeth
   - Cwestiynau/camau penodol i ddynodi dysgwyr ag anghenion dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth (gan gynnwys lefelau'r angen). Sut mae hyn yn cael ei ddynodi ee a oes raid i'r bobl ifanc fod ag asesiad/datganiad ffurfiol o anghenion addysg arbennig?
   - Anghenion cefnogaeth ehangach (holistaidd)?

5. I ba raddau yr ydych yn meddwl y mae'r wybodaeth a gasglwyd trwy'r asesiad Cymru'n Gweithio/contractwr yn ddigonol i chi ddatblygu cynllun dysgu unigol priodol a rhoi cefnogaeth effeithiol i bobl ifanc yn ystod eu hamser ar TSC+?
   Prociwch:
   - Unrhyw fylchau penodol yn y wybodaeth?
   - Bylchau penodol yn ymwneud ag anghenion pobl ifanc ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth?
   - Unrhyw heriau a wynebwyd wrth gefnogi pobl ifanc ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth, o ran gwybodaeth?

6. Pa wybodaeth arall fyddai'n ddefnyddiol ar y cam cyfeirio i'ch helpu i ddarparu cefnogaeth effeithiol i bobl ifanc?
   Prociwch:

- Unrhyw wybodaeth ychwanegol benodol sy'n ymwneud â phobl ifanc ag anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth a fyddai'n ddefnyddiol, gan gynnwys am anghenion cefnogaeth ehangach?

**Ar gyfer staff TSC+ yn unig:**

7. Sut ydych chi'n defnyddio gwybodaeth a gesglir trwy'r broses asesu a chyfeirio/adroddiad asesu a chyfeirio i fod yn sail i ddatblygu Cynlluniau Dysgu Unigol pobl ifanc? Sut mae'n cael ei defnyddio?
   Prociwch:
   - Teilwra nodau dysgu/gyrfa i fodloni anghenion penodol y person ifanc
   - Hyblygrwydd ar amserlenni i symud ymlaen tuag at/gyflawni nodau dysgu
   - Cefnogaeth wedi ei chynnwys yn y cynllun i helpu i oresgyn rhwystrau penodol i atal cynnydd a ddynodwyd yn yr adroddiad adolygu a chyfeirio

8. Pa wybodaeth arall, os o gwbl, a ddefnyddir yn sail i'r Cynllun Dysgu Unigol?
   Prociwch:
   - Gwybodaeth a rennir gan y person ifanc wrth ddatblygu/gytuno ar y Cynllun Dysgu Unigol?
   - I bobl ifanc ag anghenion cymedrol i ddifrifol/awtistiaeth, i ba raddau y mae'r rhieni/gwarcheidwad yn rhan o benderfynu ar y mathau/lefel y gefnogaeth i'r person ifanc, fel rhan o'r cynllun dysgu unigol?

9. A oes ailymweld/diweddaru ar y wybodaeth yn yr Adroddiad Asesu a Chyfeirio/Cynllun Datblygu Unigol am anghenion dysgu a chefnogaeth pobl ifanc yn ystod eu hamser ar TSC+. Sut mae hyn yn digwydd ac ar ba bwyntiau?

## Cyfeirio at edefyddion penodol o TSC+

*Wrth fynd i mewn i TSC+ rydym yn deall bod pobl ifanc yn cael eu cyfeirio at edefyn penodol yn y rhaglen, yr edefyn ymgysylltu (i'r rhai sydd angen penderfynu ar eu pwyslais galwedigaethol), yr edefyn symud ymlaen (i'r rhai sydd â ffocws ar eu galwedigaeth), neu'r edefyn cyflogaeth (a fwriadwyd ar gyfer unigolion 'parod i waith' sy'n ceisio rhoi cyfle gwaith cyflogedig gyda chymhorthdal i ddysgwyr am chwe mis). Byddem yn hoffi deall y broses ar gyfer dynodi'r edefyn mwyaf addas ar gyfer pob person ifanc.*

10. Ar ba gam, ar ôl cael mynediad i'r rhaglen y mae pobl ifanc yn cael eu cyfeirio i edefyn penodol?

11. Pa wybodaeth sy'n cael ei defnyddio i fod yn sail i benderfyniadau ar yr edefyn mwyaf addas? (ee Adroddiad Asesu a Chyfeirio, Cynllun Dysgu Unigol?) Pwy sy'n ymwneud â'r broses hon a sut (ee aelod penodol o staff TSC+, person ifanc, rhieni/gwarcheidwad)?

## Cyfeiriad at Anogwr Gwaith

*Rydym yn gwybod, fel rhan o'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol, bod pobl ifanc a gyfeirir at TSC+ sy'n cael eu hasesu fel rhai ag 'anableddau dysgu cymedrol/difrifol ac awtistiaeth', yn gymwys i gael mwy o gefnogaeth gan anogwr gwaith arbenigol.*

12. A yw'r holl bobl ifanc sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster, yn cael eu cyfeirio am gefnogaeth gan anogwr gwaith arbenigol? Os na, sut y mae'n cael ei ddynodi pa berson ifanc fyddai'n cael mwyaf o fudd o'r gefnogaeth?

13. Ar ba gam y mae pobl ifanc cymwys yn cael eu cyfeirio ar gyfer annog gwaith?

14. Pa wybodaeth am y person ifanc sy'n cael ei rhannu gyda'r darparwr Anogwr Cyflogaeth Gefnogol (Elite/Agoriad) wrth gyfeirio?

15. A yw gwybodaeth o'r Adroddiad Asesu a Chyfeirio/Cynllun Dysgu Unigol yn cael ei defnyddio i 'gyfateb' anghenion/diddordebau/ pobl ifanc ag anogwyr gwaith penodol? (ee anogwr â phrofiad o weithio gyda phobl ifanc ag anghenion penodol ee awtistiaeth)

16. Yn nodweddiadol, am ba mor hir y mae pobl ifanc yn aros i gael eu cyfeirio, cyn dechrau gydag anogwr gwaith?

17. A ydych wedi wynebu unrhyw heriau wrth gyfeirio/ddefnyddio Anogwr Cyflogaeth Gefnogol i berson ifanc? Pa gamau sy'n cael eu cymryd i oresgyn unrhyw heriau?

18. Sut y mae person ifanc yn cael ei 'drosglwyddo' i'r anogwr gwaith?
    Prociwch:
    - A oes cyfarfod cychwynnol i gyflwyno eich gilydd?
    - Os felly, pwy sy'n mynd yno?
    - A yw'r anogwr gwaith yn casglu rhagor o wybodaeth am y person ifanc yn y cyfarfod cychwynnol?
    - A yw'r Cynllun Dysgu Unigol yn cael ei ddiweddaru, ar ôl i'r cyfeirio/y cyfarfod cychwynnol ddigwydd?

## Gwersi allweddol

19. Yn gyffredinol, pa mor dda yr ydych yn meddwl y mae'r broses gyfeirio at y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol wedi gweithio hyd yn hyn?
    Prociwch:
    - A oes elfennau penodol o'r broses sy'n gweithio'n neilltuol o dda?
    - Beth, os rhywbeth, sydd ddim yn gweithio cystal?
    - Gwahaniaethau o ran pa mor dda y mae'r broses yn gweithio yng nghyswllt pobl ifanc ag anghenion o fathau gwahanol?

20. A oes unrhyw elfennau o’r broses gyfeirio, nad ydym wedi eu trafod, yr ydych yn meddwl y gellid eu gwella? Unrhyw syniadau am welliannau?

## Cloi

21. Oes yna rywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am y broses gyfeirio ar gyfer y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol, neu sut y mae hyn yn effeithio ar y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc sy’n gymwys ar gyfer y cynllun treialu?

**Atgoffwch yr un sy’n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i’r un gymerodd ran a chloi’r cyfweliad.**

## Gwerthusiad o Gynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol

## Canllaw pynciau Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol

**Gwybodaeth i'r ymchwilydd**

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Twf Swyddi Cymru+ yn Ebrill 2022, gan ddisodli'r rhaglen Hyfforddiaethau. Cychwynnodd y Cynllun Treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol yn Hydref 2021 fel rhan o'r rhaglen Hyfforddiaethau. Mae'r cynllun treialu wedi dal i redeg fel rhan o raglen TSC+ ers Ebrill 2022. Comisiynwyd y Sefydliad Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru i archwilio effeithlonrwydd y cynllun treialu hwn. Nod y cynllun treialu yw gwella deilliannau i bobl ifanc ag anableddau dysgu cymedrol i ddifrifol ac awtistiaeth trwy roi mynediad iddynt at Anogwyr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol gyda'r nod o gynyddu'r nifer sy'n symud ymlaen i swyddi cyflogedig neu brentisiaethau.

**Diben y cyfweliad**

Byddwn yn datblygu astudiaethau achos am bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y cynllun treialu a nod y cyfweliad gyda chi heddiw yw cael gwybod rhagor am eich profiad o gefnogi un o'r bobl ifanc yma.

Bydd y cyfweliad yn para tua 30 munud a bydd yn canolbwyntio ar:

- Lefel y cyfranogiad yn y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol
- Y wybodaeth yr ydych yn ei dysgu am y rhai sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu
- Y math o gefnogaeth a roddir
- Pa fath o gefnogaeth oedd yn gweithio'n dda, a ddim cystal
- Manteision a deilliannau a amgyffredwyd ar gyfer y gefnogaeth
- Syniadau i wella'r gefnogaeth

Nid oes atebion 'cywir' nac 'anghywir', mae gennym ddiddordeb yn eich profiad a'ch barn ddidwyll.

**Cyfrinachedd a chaniatâd**

Bydd popeth y byddwn yn ei drafod yn y cyfweliad hwn yn parhau yn gyfrinachol a dylech gymryd rhan o'ch gwirfodd. Os byddwch yn dymuno dod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw amser neu am wrthod ateb cwestiwn penodol, mae croeso i chi wneud hynny.

Bydd canfyddiadau'r cyfweliadau'n cael eu hysgrifennu fel astudiaethau achos a fydd yn cael eu cynnwys mewn adroddiad i Lywodraeth Cymru. Gall yr adroddiad hwn gael ei gyhoeddi, ond bydd dyfyniadau uniongyrchol a ddefnyddir mewn adroddiadau'n ddienw a bydd yr holl fanylion fyddai'n galluogi i rywun eich adnabod yn cael eu tynnu allan. Oherwydd y nifer fechan o astudiaethau achos, gall rhai manylion barhau yn rhai y gellir eu hadnabod. Byddwn yn rhannu'r hyn y byddwn wedi ei ysgrifennu â chi i chi ei gymeradwyo.

Anfonwyd hysbysiad preifatrwydd Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymchwil atoch mewn e-bost.

Gyda chaniatâd hoffem recordio'r cyfweliad ar recordydd wedi ei amgryptio gan fod hyn yn ein helpu i gofnodi yn union yr hyn yr ydych wedi ei ddweud. (Gwiriwch eu bod yn gyfforddus am gael eu recordio.)

Bydd y recordiad yn cael ei uwchlwytho ar ein gweinydd diogel. Bydd y recordiadau'n cael eu hadysgrifio, ac yna eu dadansoddi gan dîm prosiect Dysgu a Gwaith a'u dileu dri mis ar ôl i'r prosiect ddod i ben.

Gallwch newid eich meddwl a thynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw amser trwy gysylltu â ni a byddwn yn dileu'r recordiad a'r adysgrif o'ch cyfweliad.

Gofynnwch a oes ganddynt unrhyw gwestiynau. **CYCHWYNNWCH Y PEIRIANT RECORDIO**

Gofynnwch iddynt gadarnhau ar lafar eu bod yn deall diben yr ymchwil a'i gyfrinachedd a'u bod yn fodlon cymryd rhan a chael eu recordio?

## Cyflwyniad

47. Yn gyntaf, a allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich sefydliad â'ch swyddogaeth benodol chi? Sut mae Elite/Agoriad yn ymwneud â'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol?

48. Rydym yn deall, trwy'r cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol, gall annog swydd gael ei ddefnyddio i wella'r gefnogaeth i ddysgwyr gydag anghenion cymedrol i gymhleth ar draws yr holl linynnau a chyfnodau'r rhaglen TSC+. A allwch esbonio yn gryno pa fathau o gefnogaeth y mae anogwyr gwaith yn eu rhoi ar draws gwahanol gamau'r rhaglen?

49. Yn gyffredinol, beth ydych chi'n ei weld fel prif nod y swydd Anogwr Gwaith Cyflogaeth Gefnogol wrth gefnogi pob ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu?

50. Pa fath o ddeilliannau/newidiadau y mae annog gwaith yn anelu i'w cyflawni i'r bobl ifanc hyn?

26. Pa fath o wybodaeth ydych chi/wnaethoch chi ei derbyn am y bobl ifanc a gyfeirir trwy'r cynllun treialu, cyn i chi/Anogwyr Gwaith ddechrau gweithio gyda nhw?

Prociwch:

- Mynediad at Adroddiad Asesu a Chyfeirio/Cynllun Dysgu Unigol
- A ydynt/oeddent yn teimlo bod y wybodaeth a dderbyniwyd yn ddigonol i ddeall yr anghenion dysgu penodol a chefnogaeth a dysgu/nodau gyrfa'r bobl ifanc er mwyn teilwra'r gefnogaeth?
- Os na, beth oedd/sydd ar goll a sut wnaethoch chi weithio gyda'r darparwr i sicrhau eich bod yn cael unrhyw wybodaeth ychwanegol angenrheidiol?

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau Annog Gwaith

27. Tua faint o bobl ifanc y mae Elite/Agoriad wedi eu cefnogi hyd yn hyn trwy'r cynllun treialu Cyflogaeth Gefnogol?

28. Yn nodweddiadol, pa mor hir y mae Anogwyr Gwaith yn gweithio gyda phob unigolyn sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu?

29. Wrth feddwl am y bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan/sydd yn cymryd rhan yn y cynllun treialu pa ystod o anghenion cefnogaeth sydd ganddynt?

Prociwch:

- Lefel (cymedrol/sylweddol/difrifol) yr angen a'r anableddau dysgu penodol
- Pa mor amrywiol yw anghenion cefnogaeth yr unigolion sy'n cymryd rhan?
- A ydych yn gallu rhoi enghreifftiau o ar ba gam y maent ar eu taith tuag at brentisiaeth/cyflogaeth?

30. Pa fath o gefnogaeth/gweithgareddau y mae'r Anogwyr Gwaith wedi eu cynnal hyd yn hyn gyda'r bobl ifanc a gefnogir trwy'r cynllun treialu?

Prociwch:

- Proffilio galwedigaethol
- Cefnogaeth yng nghyswllt budd-daliadau anabledd a hawliadau Mynediad at Waith
- Ceisio gwaith
- Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth/datblygu sgiliau hanfodol yng nghyswllt dysgu a gwaith - sgiliau meddal a chaled ee llythrennedd, iaith, rhifedd a sgiliau digidol
- Paratoi ar gyfer y gweithle
- Cefnogaeth anogwr gwaith yn y gwaith (o fewn profiad gwaith, lleoliadau, treialon gwaith neu waith cyflogedig)

- Sut ydych chi'n gweithio gyda'r cyflogwr i sicrhau bod y cyfle yn addas/yn cael ei gefnogi?
- Cefnogaeth/gweithgareddau eraill

31. Beth oedd/sydd wedi bod yn gweithio'n dda o ran y gefnogaeth/gweithgareddau y mae Anogwyr Gwaith wedi eu cynnal hyd yn hyn a pham? Beth sydd ddim wedi gweithio cystal a pham?

32. A yw Anogwyr Gwaith wedi profi unrhyw heriau cyn belled wrth ddarparu unrhyw un o'r gweithgareddau?

    Prociwch:

    - Lefelau ymgysylltu'r dysgwr a'i bresenoldeb
    - Lefel y gefnogaeth gan rieni
    - Lefelau ymgysylltu/cefnogaeth cyflogwr
    - Heriau yn ymwneud ag ADY/anableddau neu anghenion penodol y bobl ifanc?
    - Heriau eraill
    - A yw wedi cymryd unrhyw gamau i ymdrin â'r heriau hyn? Beth arall allai fod o gymorth? A fyddai cefnogaeth gan rywun arall o gymorth?

*Byddem yn hoffi deall sut y mae'r berthynas rhyngoch chi fel yr Asiant Cyflogaeth Gefnogol a darparwyr TSC+ yn gweithio.*

33. Sut y mae Elite/Agoriad (ac anogwyr gwaith unigol) yn gweithio mewn partneriaeth â staff darparwyr TSC+ i fodloni anghenion cefnogaeth pobl ifanc a gyfeirir trwy'r cynllun treialu a sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd tuag at y nodau dysgu, prentisiaeth/cyflogaeth?

    Prociwch:

    - Perthynas a chyfathrebu gyda'r darparwr (a yw swyddogaethau a chyfrifoldebau'r anogwr gwaith a'r darparwr wedi eu diffinio'n glir cyn dechrau cefnogi person ifanc? Sut y mae'r rhain yn cael eu cyfleu rhwng yr Anogwr Gwaith a staff y darparwr? A oes gwahaniaeth mewn diwylliant/ffordd o edrych ar bethau? Beth sy'n wahanol am sut y mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun treialu yn cael eu cefnogi mewn cymhariaeth â'r rhai ag anghenion ychwanegol tebyg nad ydynt yn cymryd rhan ynddo?)
    - Beth sydd wedi gweithio'n dda, ddim cystal?
    - Unrhyw heriau penodol a chamau a gymerwyd i oresgyn y rhain/syniadau am welliannau

## Manteision a amgyffredir o Annog Gwaith

34. Pa newidiadau y mae Anogwyr Gwaith Elite/Agoriad wedi eu gweld mewn pobl ifanc a gefnogir trwy'r cynllun treialu, ers iddyn nhw ddechrau gweithio gyda nhw?

    Prociwch:

- Cynnydd mewn cymhariaeth â nodau dysgu/datblygu/gyrfa a ddynodwyd
- Faint o wybodaeth sydd ganddynt am ddewisiadau cyflogaeth a gyrfa, ac a oes ganddynt nodau gyrfa wedi eu dynodi?
- Pa mor barod y maent yn teimlo ar gyfer gwaith
- Barn am/hyder wrth ddod o hyd i swyddi ac ymgeisio amdanynt
- Cynnydd a wnaed tuag at gael prentisiaeth/cyflogaeth
- Deilliannau cymdeithasol ac emosiynol – newidiadau i hyder, gwytnwch, iechyd meddwl a llesiant ac yn y blaen
- Newidiadau eraill (gan gynnwys rhai anfwriadol/heb eu targedu gan y gefnogaeth)
- Pa fathau o weithgareddau/elfennau o weithgareddau sydd wedi bod fwyaf defnyddiol wrth gyflawni'r deilliannau hyn? Allwch chi esbonio pam?

35. A oes unrhyw gefnogaeth arall yr ydych yn meddwl y byddai'r bobl ifanc yma wedi cael budd ohoni, nad yw'n rhan o'r cynllun treialu.
    Prociwch:
    - Ble gallent fynd i gael y gefnogaeth ychwanegol hon? A yw'n rhywbeth y mae anogwyr gwaith eisoes yn cyfeirio pobl ifanc ato?

36. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill am weithredu ac effeithiolrwydd y cynllun treialu Anogwr Cyflogaeth Gefnogol?

37. Yn gyffredinol, pa mor effeithiol fyddech chi'n dweud y mae'r Anogwyr Cyflogaeth Gefnogol wedi bod cyn belled? Pam?
    Prociwch:
    - Oes yna rywbeth y byddech yn hoffi ei newid am y gefnogaeth a roddir i bobl ifanc trwy'r cynllun treialu? Pam? Syniadau am welliannau?

## Cloi

38. A oes rhywbeth arall y byddech yn hoffi ei ddweud am eich profiad yn gweithio fel Asiantaeth Cyflogaeth Gefnogol, o gefnogi pobl ifanc ar y cynllun treialu, nad ydym wedi ei drafod yn barod?

**Atgoffwch yr un sy'n cymryd rhan am gyfrinachedd a sut y byddwn yn defnyddio ei wybodaeth.**

**Os oes ganddynt unrhyw sylwadau neu gwestiynau pellach am yr ymchwil gallant gysylltu â rheolwr y prosiect, jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk**

**Diolchwch i'r un gymerodd ran a chloi'r cyfweliad.**

## Atodiad B – Privacy notices

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth: Cyfweliadau â Phobl Ifanc

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut mae'r peilot wedi gweithio a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau (ar-lein) ar MS Teams.

Yn benodol, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith am glywed am eich profiad a'ch barn chi o ran y gefnogaeth rydych wedi'i chael.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn dileu data personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, ac yn tynnu enwau o'r data crai, cyn rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Yr enw cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith yw Jackie Woodhouse.

E-bost: jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk

Ffôn: 0116 204 4200

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Darparwyd eich manylion cyswllt (enw, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn) i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gan eich darparwr Twf Swyddi Cymru+, yn ogystal â'ch cynllun dysgu unigol. Efallai bod hwn yn cynnwys data personol ychwanegol yn ogystal â'ch manylion cyswllt, megis anghenion dysgu ychwanegol a threfniadau cymorth, a gallai hyn ddatgelu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol p'un a ydych yn anabl. Mae gan eich darparwr yr wybodaeth hon yn sgil eich cysylltiad â Chynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost.

Bydd eich Cynllun Dysgu Unigol yn ein helpu i ddeall beth, yn eich barn chi ac ym marn eraill, yw eich nodau, a sut rydych yn bwriadu eu cyflawni. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn dileu eich enw cyn gynted â phosibl ar ôl eich cyfweliad.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych am gymryd rhan neu gael negeseuon atgoffa yna ymatebwch i e-bost y gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Mae'n bosibl y bydd angen inni recordio cyfweliadau at ddibenion gweithredol. Os felly, byddwn yn egluro hyn wrthych cyn i'r cyfweliad ddechrau, a bydd gennych chi'r cyfle i ddweud wrthym os nad ydych chi'n fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os bydd cyfweliadau'n cael eu recordio, caiff data personol eu dileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd y deunydd sydd wedi ei recordio yn cael ei ddileu cyn gynted â bod y broses wedi ei

chwblhau. Os na fydd y trafodaethau'n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu yn dilyn y cyfweliadau.
Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn, ac os byddwch yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hwnnw cyn ei ddileu o'r data ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. Gelwir peth o'r data rydym yn eu casglu yn 'ddata categori arbennig' (mewn perthynas ag anabledd yn yr achos hwn), a'r sail gyfreithiol dros brosesu'r wybodaeth hon yw dibenion ystadegol neu ymchwil.
Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cefnogi unigolion sydd ag anawsterau dysgu cymhedrol / difrifol.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth a ddarperir i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ond yn defnyddio'r data at ddibenion ymchwil. Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ardystiad cyber essentials.
Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith weithdrefnau ar ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Os amheuir bod rheolau diogelwch data wedi cael eu torri, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.
Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

### Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cadw data bersonol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi eu dileu yn cael eu dileu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith dri mis wedi i'r contract ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn rhoi fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru, heb unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod.

### Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn benodol, mae gennych yr hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- Gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- Mynnu bod eich data'n cael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Kimberley Wigley
Cyfeiriad e-bost:
Rhif ffôn:

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth: Cyfweliadau Astudiaethau Achos

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut mae'r peilot wedi gweithio a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau (ar-lein) ar MS Teams, mewn perthynas ag astudiaethau achos tri unigolyn sydd wedi'u cefnogi gan y peilot.

Yn benodol, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith am glywed am eich profiad a'ch barn chi o ran y gefnogaeth a ddarparwyd, anghenion cymorth y person ifanc, manteision y gefnogaeth, a syniadau ar gyfer gwella.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn dileu data personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, ac yn tynnu enwau o'r data crai, cyn rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Yr enw cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith yw Jackie Woodhouse.

E-bost: jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk
Ffôn: 0116 204 4200

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Darparwyd eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gan eich darparwr Twf Swyddi Cymru+. Mae gan eich darparwr yr wybodaeth hon yn sgil eich cysylltiad â Chynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych am gymryd rhan neu gael negeseuon atgoffa yna ymatebwch i e-bost y gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Nid oes angen inni gasglu data personol ychwanegol gennych fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, ar wahân i ffilm ohonoch os byddwch yn cytuno i gael eich recordio ar fideo.

Mae'n bosibl y bydd angen inni recordio cyfweliadau at ddibenion gweithredol. Os felly, byddwn yn egluro hyn wrthych cyn i'r cyfweliad ddechrau, a bydd gennych chi'r cyfle i ddweud wrthym os nad ydych chi'n fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os bydd cyfweliadau'n cael eu recordio, caiff data personol eu dileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd y deunydd sydd wedi ei recordio yn cael ei ddileu cyn gynted â bod y broses wedi ei chwblhau. Os na fydd y trafodaethau'n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu yn dilyn y cyfweliadau.

Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn, ac os byddwch yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hwnnw cyn ei ddileu o'r data ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cefnogi unigolion sydd ag anawsterau dysgu cymhedrol / difrifol.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth a ddarperir i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ond yn defnyddio'r data at ddibenion ymchwil. Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ardystiad cyber essentials.

Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith weithdrefnau ar ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Os amheuir bod rheolau diogelwch data wedi cael eu torri, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

### Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cadw data personol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi eu dileu yn cael eu dileu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith dri mis wedi i'r contract ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn rhoi fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru, heb unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod.

### Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn benodol, mae gennych yr hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- Gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- Mynnu bod eich data'n cael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Kimberley Wigley

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth: Cyfweliadau â Staff

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Sefydliad Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut mae'r peilot wedi gweithio a'r hyn y mae wedi'i gyflawni. Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau (ar-lein) ar MS Teams.

Yn benodol, mae'r Sefydliad Dysgu a Gwaith am glywed am yr hyfforddiant rydych wedi'i gael gan Elite neu Agoriad. Maent am wybod am eich profiad a'ch barn chi o ran yr hyfforddiant a gynigiwyd a manteision cymryd rhan yn yr hyfforddiant.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn dileu data personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, ac yn tynnu enwau o'r data crai, cyn rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Yr enw cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn y Sefydliad Dysgu a Gwaith yw Jackie Woodhouse.

E-bost: jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk
Ffôn: 0116 204 4200

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Darparwyd eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith gan eich darparwr Twf Swyddi Cymru+. Mae gan eich darparwr yr wybodaeth hon yn sgil eich cysylltiad â Chynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych am gymryd rhan neu gael negeseuon atgoffa yna ymatebwch i e-bost y gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Nid oes angen inni gasglu data personol ychwanegol gennych fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, ar wahân i ffilm ohonoch os byddwch yn cytuno i gael eich recordio ar fideo.

Mae'n bosibl y bydd angen inni recordio cyfweliadau at ddibenion gweithredol. Os felly, byddwn yn egluro hyn wrthych cyn i'r cyfweliad ddechrau, a bydd gennych chi'r cyfle i ddweud wrthym os nad ydych chi'n fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os bydd cyfweliadau'n cael eu recordio, caiff data personol eu dileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd y deunydd sydd wedi ei recordio yn cael ei ddileu cyn gynted â bod y broses wedi ei chwblhau. Os na fydd y trafodaethau'n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu yn dilyn y cyfweliadau.

Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn, ac os byddwch yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hwnnw cyn ei ddileu o'r data ymchwil.

## Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cefnogi unigolion sydd ag anawsterau dysgu cymhedrol / difrifol.

## Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth a ddarperir i'r Sefydliad Dysgu a Gwaith bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ond yn defnyddio'r data at ddibenion ymchwil. Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith ardystiad cyber essentials.

Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith weithdrefnau ar ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Os amheuir bod rheolau diogelwch data wedi cael eu torri, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

## Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cadw data bersonol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi eu dileu yn cael eu dileu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith dri mis wedi i'r contract ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn rhoi fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru, heb unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod.

## Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn benodol, mae gennych yr hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- Gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- Mynnu bod eich data'n cael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Kimberley Wigley

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.

# Gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth: Cyfweliadau â Staff Cymorth Cyflogaeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Dysgu a Gwaith i gynnal gwerthusiad o Gynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Nod y gwerthusiad hwn yw deall sut mae'r peilot wedi gweithio a'r hyn y mae wedi'i gyflawni.

Fel rhan o'r gwerthusiad hwn, bydd Dysgu a Gwaith yn casglu gwybodaeth drwy gyfweliadau (ar-lein) ar MS Teams gyda staff cymorth cyflogaeth. Yn benodol, mae Dysgu a Gwaith am glywed beth yw eich meddyliau a'ch profiadau o'r peilot.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer yr ymchwil. Fodd bynnag, bydd Dysgu a Gwaith yn dileu data personol a ddarperir drwy'r cyfweliadau, ac yn tynnu enwau o'r data crai, cyn rhannu gyda Llywodraeth Cymru.

Bydd yr wybodaeth a gesglir yn ystod y prosiect yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn yr ymchwil hon yn gwbl wirfoddol. Er hynny, mae eich barn a'ch profiadau'n bwysig er mwyn helpu i lywio polisïau Llywodraeth Cymru.

Yr enw cyswllt ar gyfer yr ymchwil hon yn Dysgu a Gwaith yw Jackie Woodhouse.
E-bost: jackie.woodhouse@learningandwork.org.uk
Ffôn: 0116 204 4200

## HYSBYSIAD PREIFATRWYDD

### Pa ddata personol a gedwir gennym, ac o ble yr ydym yn cael yr wybodaeth hon?

Diffinnir data personol o dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (UK GDPR) fel 'unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ddyfais adnabod'.

Darparwyd eich manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) i Dysgu a Gwaith gan Lywodraeth Cymru. Mae gan Lywodraeth Cymru yr wybodaeth hon yn sgil eich cysylltiad â Chynllun Peilot Hyfforddwyr Cyflogaeth â Chymorth rhaglenni Hyfforddeiaethau / Twf Swyddi Cymru+. Dim ond at ddibenion y gwerthusiad hwn y bydd Dysgu a Gwaith yn defnyddio eich cyfeiriad e-bost.

Mae eich cyfranogiad yn wirfoddol ac os nad ydych am gymryd rhan neu gael negeseuon atgoffa yna ymatebwch i e-bost y gwahoddiad a bydd eich manylion yn cael eu dileu.

Nid oes angen inni gasglu data personol ychwanegol gennych fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn, ar wahân i ffilm ohonoch os byddwch yn cytuno i'r cyfweliad gael ei recordio ar fideo. Mae'n bosibl y bydd angen inni recordio cyfweliadau at ddibenion gweithredol. Os felly, byddwn yn egluro hyn wrthych cyn i'r cyfweliad ddechrau, a bydd gennych chi'r cyfle i ddweud wrthym os nad ydych chi'n fodlon i'r drafodaeth gael ei recordio. Os bydd cyfweliadau'n cael eu recordio, caiff data personol eu dileu yn ystod y broses o drawsgrifio. Bydd y deunydd sydd wedi ei recordio yn cael ei ddileu cyn gynted â bod y broses wedi ei chwblhau. Os na fydd y trafodaethau'n cael eu recordio, ni fydd data personol yn cael eu cynnwys mewn nodiadau ysgrifenedig a baratoir yn ystod neu yn dilyn y cyfweliadau.

Os bydd gennych ymholiad neu gŵyn, ac os byddwch yn darparu data personol yn gofyn am ymateb, dim ond at y swyddog perthnasol y bydd yr ymchwilydd yn anfon y cais hwnnw cyn ei ddileu o'r data ymchwil.

### Beth yw'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich data?

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu gwybodaeth fel rhan o'r ymarfer casglu data hwn yw er mwyn cyflawni ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru.

Mae cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Mae astudiaethau ymchwil fel hyn yn bwysig er mwyn i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth a thystiolaeth y gellir gweithredu arni ynghylch ei gallu i gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth. Gallai'r wybodaeth a gesglir yn y gwaith ymchwil hwn, er enghraifft, gael ei defnyddio i helpu Llywodraeth Cymru i wneud penderfyniadau deallus ynghylch cefnogi unigolion sydd ag anawsterau dysgu cymedrol / difrifol.

### Pa mor ddiogel yw eich data personol?

Mae gwybodaeth a ddarperir i Dysgu a Gwaith bob amser yn cael ei storio ar weinydd diogel. Dim ond nifer cyfyngedig o ymchwilwyr sy'n gweithio ar y prosiect hwn sydd â mynediad at y data. Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith ond yn defnyddio'r data at ddibenion ymchwil. Mae gan Dysgu a Gwaith ardystiad Cyber Essentials.

Mae gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith weithdrefnau ar ymdrin ag unrhyw achosion o dorri rheolau diogelwch data. Os amheuir bod rheolau diogelwch data wedi cael eu torri, bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn hysbysu Llywodraeth Cymru, a fydd yn rhoi gwybod i chi ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol pan fo gofyniad cyfreithiol arnom i wneud hynny.

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Ni fydd yr adroddiad hwnnw'n cynnwys unrhyw wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod unrhyw unigolyn sydd wedi cymryd rhan.

### Am ba mor hir rydym yn cadw eich data personol?

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn cadw data bersonol yn ystod cyfnod y contract, a bydd unrhyw ddata personol nad ydynt eisoes wedi eu dileu yn cael eu dileu gan y Sefydliad Dysgu a Gwaith dri mis wedi i'r contract ddod i ben. Mae hyn yn cynnwys eich manylion cyswllt.

Bydd y Sefydliad Dysgu a Gwaith yn rhoi fersiwn ddienw o'r data i Lywodraeth Cymru, heb unrhyw wybodaeth a allai arwain at eich adnabod.

### Hawliau unigol

O dan y Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r gwerthusiad hwn. Yn benodol, mae gennych yr hawl i:

- Gael gweld copi o'ch data eich hun
- Ei gwneud yn ofynnol inni gywiro unrhyw wallau yn y data hynny
- Gwrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu (o dan amgylchiadau penodol)
- Mynnu bod eich data'n cael eu dileu (o dan amgylchiadau penodol)
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF. Ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

### Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych ragor o gwestiynau am sut y bydd y data a ddarperir fel rhan o'r astudiaeth hon yn cael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru, neu os hoffech arfer eich hawliau gan ddefnyddio'r Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Kimberley Wigley

Cyfeiriad e-bost:

Rhif ffôn:

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru:
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost:
SwyddogDiogeluData@llyw.cymru.